# Adroddiad Hunanasesiad 2023/24



monmouthshire
sir fynwy

# Rheoli Fersiwn

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Hunanasesiad Cyngor Sir Fynwy 2023/24 |
| **Diben** | Hunanasesu nodau a threfniadau'r Cyngor fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 |
| **Perchennog** | Prif Swyddog – Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau |
| **Cymeradwywyd gan** | Cyngor Sir Fynwy |
| **Dyddiad** | Medi 2024 |
| **Rhif Fersiwn** | 1.0 |
| **Statws** | Cymeradwywyd |
| **Amlder Adolygu** | Blynyddol |
| **Dyddiad Adolygiad Nesaf** | 2025 |
| **Ymgynghori** | Cabinet<br>Tîm Arweinyddiaeth Strategol<br>Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg<br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |

# Cynnwys


Rheoli Fersiwn ..... 2

Cyflwyniad ..... 4

Ein Hunanasesiad ..... 5

Deall ein lle lleol ..... 6

Ein Deilliannau ..... 7

**Amcan Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle Teg i Fyw** ..... 10

**Amcan y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle gwyrdd i fyw** ..... 17

**Amcan y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle sy'n ffynnu ac yn uchelgeisiol** ..... 25

**Amcan y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle diogel i fyw** ..... 32

**Amcan y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle cysylltiedig gyda phobl sy'n gofalu** ..... 38

**Amcan y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle i ddysgu** ..... 46

Defnyddio ein Adnoddau ..... 52

Ein gwaith gydag eraill ..... 62

Ein Camau Gweithredu ..... 63

Cynnydd ar Gamau Gweithredu 2022/23 ..... 63

**Meysydd newydd i gael datblygu: Beth a sut y gallwn wneud yn well?** ..... 66

Mesurau Perfformiad ..... 68

Yr hyn y gwnaethom ei wario yn 2023/24 ..... 73

Yr hyn a ddywedodd dinasyddion ..... 74

Yr Hyn a Ddywedodd Rheoleiddwyr ac Arolygwyr ..... 78


Atodiad 1 –Proses Hunanasesiad ..... 80

# Cyflwyniad

Rydym yn glir am yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni, ac mae'r hunanasesiad hwn yn arf hollbwysig wrth ein helpu i gyflawni hynny. Caiff ein huchelgais ar gyfer Cyngor Sir Fynwy a'r bobl y mae'n eu gwasanaethu ei nodi yn ein Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol. Rydym eisiau bod yn sir carbon-sero, gan gefnogi llesiant, iechyd ac urddas i bawb ar bob cyfnod o fywyd. Byddwn yn gwneud hyn drwy weithio gyda, ac wrth ochr, ein cymunedau. Mae'r rhain yn nodau uchelgeisiol ac mae'n hanfodol ein bod yn olrhain a gwerthuso ein cynnydd. Bydd hyn yn gwneud yn siŵr y gallwn ymateb i newid mewn amgylchiadau a chyfleoedd ac, yn bwysicaf oll, gael ein dal yn atebol am ba mor dda yr ydym yn gwneud.

Mae cynghorau lleol yn darparu cannoedd o wahanol wasanaethau. Bydd gan bob aelwyd beth profiad o gasglu gwastraff a phriffyrdd. Efallai na fyddwch byth angen cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol ond, gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, mae'n rhan hanfodol o fywyd bob dydd ar gyfer miloedd lawer o breswylwyr pan maent ar eu mwyaf bregus. Bydd gwasanaethau eraill, tebyg i'r rhai a gaiff eu darparu gan ein timau iechyd yr amgylchedd, yn llai amlwg ond maent yn gweithio'n galed bob dydd i'n cadw i gyd yn ddiogel. Ni all y gwerthusiad hwn roi sylw i bob un gwasanaeth. Mae gennym bwyllgorau craffu a chynlluniau busnes yn eu lle i alluogi ein cynghorwyr i alluogi ein cynghorwyr i ddal uwch swyddogion ac aelodau'r Cabinet i gyfrif am y rheiny. Yn hytrach, mae ei brif ffocws ar ba mor dda yr ydym wedi cyflawni y chwe nod llesiant a gaiff eu disgrifio yn ein Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol.

## Ein Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol – cipolwg




Mae'r adroddiad hefyd yn gwerthuso rhai o'r agweddau llywodraethu allweddol sy'n sylfaen i'n gwaith tebyg i effeithlonrwydd ein cynllunio gweithlu, defnydd asedau a'n trefniadau rheolaeth ariannol. Mae'n gydnaws â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a gaiff ei gydlynu gan ein Prif Archwilydd Mewnol ar ran y tîm arweinyddiaeth, ac yn defnyddio gwaith archwilio ac arolygu a gynhaliwyd gan reoleiddwyr yn cynnwys Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

Fel llawer o wasanaethau cyhoeddus yr ydym yn wynebu gostyngiadau mewn termau real yn ein cyllidebau fel canlyniad i bwysau economaidd allanol. Gwnaethom dros £70M o arbedion mewn blynyddoedd diweddar. Mae'n rhaid i ni weithiau gymryd penderfyniadau anodd i gael mantolen gytbwys. Mae gan yr Awdurdod hwn hanes da o lwyddiant mewn datblygu cynigion i gyflawni o fewn ei gyllideb. Mae'r

gwerthusiad hwn yn ein helpu i ddeall effaith y newidiadau a wnawn ac yn ein galluogi i ddysgu o'r newidiadau hyn fel y gallwn ymdrechu i sicrhau gwelliant parhaus yn yr hyn a wnawn.

## Ein Hunanasesiad

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gadw eu perfformiad dan adolygiad trwy hunanasesiad. Mae angen i ni gyhoeddi adroddiad yn nodi casgliadau'r hunanasesiad unwaith bob blwyddyn ariannol. Mae'r adroddiad hwn yn edrych yn ôl dros y cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 hyd at fis Mawrth 2024.

Mae hunanasesiad effeithiol yn helpu'r cyngor i ddysgu'n barhaus ac i gyflawni gwelliant cynaliadwy a gwell deilliannau ar gyfer dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a'i weithlu ei hun. Mae hyn yn canolbwyntio ar dri chwestiwn:

- Pa mor dda yr ydym yn gwneud?
- Sut ydyn ni'n gwybod?
- Beth a sut allwn ni ei wneud yn well?

Mae hyn wedi ei integreiddio â'n trefniadau adrodd blynyddol ar y cynnydd a'r effaith a gawsom wrth gyflawni ein hamcanion llesiant, sy'n ofyniad dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae manylion pellach ar broses yr hunanasesiad ar gael yn Atodiad 2. Rydym hefyd wedi cynhyrchu crynodeb byr o'r asesiad hwn.

Croesawn farn preswylwyr am yr asesiad hwn ynghyd ag unrhyw feysydd o'n gwaith yr ydych yn meddwl y dylid eu hystyried gan y pwyllgorau craffu sy'n dal y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif. Gallwch gysylltu â ni drwy:

improvement@monmouthshire.gov.uk

Matthew Gatehouse, Prif Swyddog Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau, Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Brynbuga, NP15 1GA

@MonmouthshireCC

## Deall ein lle lleol

Mae Sir Fynwy yn sir amrywiol. Fel cyngor mae angen i ni sicrhau ein bod yn diwallu anghenion ystod eang o grwpiau, o breswylwyr i fusnesau. Ymdrechwn i ddeall yn well yr heriau sy'n wynebu ein preswylwyr.

Rydym yn gweithredu mewn cyd-destun cymhleth. Mae cael dealltwriaeth glir a chyfredol o'r llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn Sir Fynwy yn hanfodol ar gyfer y cyngor i lywio ei ddiben a blaenoriaethau.

**Lle lleol**

| Pa mor dda ydyn ni'n deall ein cyd-destun lleol a'n lle ac a yw hyn wedi bod yn sail i'n diben a'n blaenoriaethau? | Sut ydyn ni'n gwybod? |
|---|---|
| Mae gan y cyngor ddealltwriaeth dda o lesiant ei breswylwyr. Mae gennym fynediad i ac yn dadansoddi ystod o wybodaeth ystadegol yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i iechyd, lefelau incwm a'r economi leol. Rydym hefyd yn cael adborth ansoddol am ganfyddiadau preswylwyr o'n hardal o Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae rhai gwasanaethau, tebyg i ofal cymdeithasol, llyfrgelloedd a rheoli adeiladu hefyd yn casglu adborth o arolygo**n** o ddefnyddwyr gwasanaethau. Fodd bynnag, sylweddolwn nad oes gennym ddealltwriaeth gynhwysfawr o ba mor dda mae gwasanaethau a pholisïau yn diwallu anghenion y bobl sy'n eu defnyddio o gofio pa mor eang yw'r gwasanaethau a ddarperir.<br><br>Daeth astudiaeth gan Archwilio Cymru i'r casgliad, yn yr un modd â chynghorau eraill, fod angen i ni wneud mwy i ddeall effaith ein gwasanaethau ar breswylwyr.<br><br>Mae gennym 46 o gynghorwyr ward sy'n cynrychioli buddiannau eu cymunedau ac sy'n cyflwyn**o** gwybodaeth leol. Caiff hyn ei ategu gan ddefnydd fforwm agored cyhoeddus mewn cyfarfodydd craffu a'r Cyngor i alluogi preswylwyr i godi materion o gonsyrn.<br><br>Rydym hefyd yn ymgynghori'n uniongyrchol pan fyddwn yn cynllunio newidiadau mewn gwasanaeth neu'n ystyried gweithredu mewn maes neilltuol, er enghraifft, fe wnaethom ymgysylltu gyda dros 1,200 o bobl i ddeall sut y gallem wneud ein cymunedau yn fwy oed-gyfeillgar.<br><br>Mae'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol yn nodi ymrwymiad clir i weithio gyda ac wrth ochr cymunedau, gan rymuso pobl i gefnogi ei gilydd a sicrhau datrysiadau hirdymor.<br><br>Rydym wedi ymgysylltu yn helaeth yn ystod cynhyrchu'**r** Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Bydd hyn yn llunio defnydd tir yn y sir. Bydd yn cynyddu cyfleoedd i bobl iau i fyw a hefyd weithio o fewn Sir Fynwy, gan greu demograffeg mwy cytbwys a chymunedau sy'n gynaliadwy yn gymdeithasol ac yn economaidd. Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth i gynhyrchu prif gynlluniau ar gyfer canol trefi.<br><br>Unwaith bob pum mlynedd cynhaliwn hefyd asesiad helaeth o lesiant ac asesiad o anghenion poblogaeth gyda phartneriaid ar draws Gwent. Mae Bwrdd Gwasanaethau Iechyd Gwent wedi ymgysylltu'n helaeth ar ddatblygu'r asesiad a chynllun llesian**t** ar gyfer yr ardal. | Arolwg Cenedlaethol Cymru<br><br>Arolygon Cwsmeriaid<br><br>Adroddiad Archwilio Cymru - *Defnyddio gwybodaeth am berfformiad: safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau*<br><br>Gwybodaeth o'r Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol a ffynonellau eraill<br><br>Asesiad Anghenion Poblogaeth<br><br>Asesiad a Chynllun Llesiant Gwent<br><br>Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Newydd<br><br>Prif gynlluniau canol trefi |

# Ein Deilliannau

Mae'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28 yn cynnwys chwe amcan llesiant sy'n canolbwyntio ar ddyfodol tymor hwy y sir ac yn anelu i ymdrin â heriau cymhleth, yn unol â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

Wrth asesu pob un o'r meysydd i'w datblygu o'n hasesiad blaenorol dan y chwech amcan, rydym wedi ystyried y graddau:

- Y mae ein nodau'n cyfrannu at gyflawni'r saith nod llesiant a ddynodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Yr ydym yn cymryd pob cam rhesymol i'w cyflawni.
- Maent yn parhau yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy y pum ffordd o weithio. Rhoddir mwy o fanylion am y ffordd y mae'r pum ffordd o weithio yn cael eu gweithredu yn y cynnydd ar bob nod yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Mae'n bwysig i ddeilliannau beidio â chael eu hystyried yn ynysig gan y gallant effeithio ar ei gilydd a bod angen iddynt gael eu hystyried mewn modd integredig. Dangosir sut y maent yn integreiddio â'i gilydd yn Atodiad 1.

Rhoddwyd yr eiconau canlynol i ddarlunio cyfraniad pob amcan at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Cymru lewyrchus
Cymru gydnerth
Cymru o gymunedau cydlynus
Cymru iachach
Cymru sy'n fwy cyfartal
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang
Diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu

Oherwydd natur tymor hir rhai amcanion ni ellir dangos effeithiau rhai gweithgareddau yn glir dros gyfnod byr, a dim ond dros y tymor hwy y bydd rhai gweithgareddau yn cael effaith. Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd, yr ydym wedi asesu pob un o'n hamcanion ar raddfa 1-6 ar sail yr egwyddorion canlynol.

| Lefel | Diffiniad | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **6** | Rhagorol | Rhagorol neu eithriadol – yr holl ddulliau mesur perfformiad wedi cyrraedd y targed a osodwyd a'r holl weithredoedd wedi eu cyflawni |
| **5** | Da Iawn | Cryfderau mawr – mwyafrif sylweddol o'r camau gweithredu a'r mesurau yn eu lle. Dim mwy nag un neu ddau yn disgyn yn brin |
| **4** | Da | Cryfderau pwysig gyda rhai meysydd i'w gwella – mae pwysau'r dystiolaeth yn dangos bod y llwyddiannau yn fwy na'r meysydd nad ydynt wedi eu cyflawni |
| **3** | Digonol | Cryfderau yn fwy o ychydig na'r gwendidau – mae'r dystiolaeth am lwyddiant ychydig yn fwy na'r meysydd nad ydynt yn eu lle. Rhai camau gweithredu yn hwyr a rhai dulliau mesur yn brin o'r targedau a gynlluniwyd |
| **2** | Gwan | Gwendidau pwysig – nid yw mwyafrif y dulliau mesur a'r camau gweithredu wedi cael eu cyflawni |
| **1** | Anfoddhaol | Gwendidau pwysig – yn y rhan fwyaf o feysydd, mae'r perfformiad yn cael ei asesu fel bod yn symud i'r cyfeiriad anghywir ac ni chafodd fwyafrif llethol y camau gweithredu eu cyflawni |

**Esbonio'r templed amcanion.**

**Sgôr Gwerthusiad:** Mae hyn yn rhoi ein asesiad o berfformiad o gymharu â'r amcan yn defnyddio'r dull sgorio gwerthusiad

| | |
|---|---|
| **Pam ydyn ni'n canolbwyntio ar hyn?** | |
| Pam ein bod ni'n canolbwyntio ar yr amcan hwn i wella llesiant yn Sir Fynwy. | |
| Pa mor dda ydyn ni yn canolbwyntio ar yr amcan hwn i wella llesiant yn Sir Fynwy? | Sut ydyn ni'n gwybod |
| Rhes 1 – Mae hyn yn gosod 'Yr hyn y dymunwn ei gyflawni' o Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28 | |
| Colofn 1 – Mae hyn yn rhoi'r hunanasesiad o'n perfformiad yn ystod 2023/24 yn seiliedig ar 'yr hyn y dymunwn ei gyflawni' | Colofn 2 – Y ffynonellau tystiolaeth y gwnaethom ei ddefnyddio fel sail i'n hasesiad |
| **Meysydd pellach i'w datblygu a ddynodwyd drwy ein hunan-asesiad 2023/24** | |
| Mae'r rhain yn gasgliadau penodol o'r hunanasesiad sy'n sail i'n cynllun gweithredu. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | | | | |
| Mae hyn yn rhoi esboniad o sut mae ein gweithgaredd yn cyfrannu at nodau llesiant a ffyrdd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae hefyd yn dynodi amcan(ion) llesiant y Cyngor oedd yn eu lle yn ystod 2022/23, cafodd amcanion llesiant diwygiedig yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol eu gosod yn ddilynol ym mis Ebrill 2023. | | | | |
| **Mesurau cynnydd** | | | | |
| **Mesur** | **Blaenorol** | **Diweddaraf** | **Targed 2023/24** | **Sylwadau** |
| Mae hyn yn rhoi diweddariad yn defnyddio fframwaith mesur y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol | Y data blaenorol yw 22/23 os na nodir fel arall | Y data diweddaraf yw 23/24 os na nodir fel arall | Dyma'r targed a osodwyd gennym ar gyfer 23/24 | Unrhyw esboniad pellach ar y mesur perfformiad |



## Lle teg i fyw

### Yr hyn y dymunwn ei gyflawni:

- Gwella cyfleoedd bywyd ar gyfer pobl waeth beth fo'u hincwm neu gefndir.
- Preswylwyr yn cael mynediad gwell i wasanaethau'r cyngor a'r cymorth sydd ei angen i fyw bywyd iach.
- Gall dinasyddion gymryd rhan pan mae'r cyngor a'r gymuned yn gwneud penderfyniadau a chymryd camau gweithredu sy'n eu galluogi i siapio eu dyfodol eu hunain.

### Asesiad strategol

Mae Sir Fynwy, ar gyfartaledd, yn sir lewyrchus a ffyniannus. Nid oes unrhyw un o'n cymunedau yn y 10% mwyaf amddifadus yng Nghymru, ac mae gennym rai o'r lefelau uchaf o incwm gwario. Fodd bynnag, mae gennym lefelau uchel o ddiffyg cydraddoldeb mewn incwm a gall ffigurau pennawd guddio pocedi o amddifadedd sydd yn fwy amlwg byth pan gânt eu gweld wrth ochr o gyfoeth cymharol. Rydym eisiau gweld gwell cyfleoedd bywyd ar gyfer pobl waeth beth eu hincwm neu gefndir. Bydd yn cymryd amser i ni weld effaith ein gwaith. Yn y cyfamser, yr ydym wedi rhoi datrysiadau yn eu lle i liniaru effeithiau anghydraddoldeb ar wahanol grwpiau o bobl.

Aethom tu hwnt i'n dyletswydd statudol i ddarparu brecwast a phryd o fwyd newydd ei goginio amser cinio i bob disgybl ysgol gynradd i sicrhau fod gan bawb fynediad i bryd iach, beth bynnag eu cefndir. Mae problemau economaidd ehangach, yn cynnwys y cynnydd mewn costau byw yn achosi mwy o bobl i fynd i anawsterau ariannol. Mae 12% o bobl Sir Fynwy yn byw mewn aelwydydd sydd mewn amddifadedd materol. Nid ydym eisiau i neb deimlo eu bod wedi eu gadael ar ôl. Cefnogwn ein preswylwyr drwy ein hymgyrch Money Matters sy'n cyfeirio at gymorth ychwanegol, ac yr ydym hefyd wedi gweithio gyda Mind a Cyngor Ar Bopeth i drefnu sesiynau galw heibio cymorth costau byw mewn sesiynau ar draws y sir.

Rydym eisiau i'n holl breswylwyr gael cyfle cyfartal mewn cyfleoedd bywyd. Fe wnaethom ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n gosod amcanion sy'n gwerthfawrogi, ac yn anelu i wneud y gorau o, alluoedd a chyfraniadau pawb yn ein cymunedau, waeth be fo'u hoedran, rhyw, hil, cyfeiriadedd rhywiol neu unrhyw un o'r nodweddion eraill a'n gwnaiff yn bwy ydym. Rydym eisiau dathlu amrywiaeth ein cymunedau a gwneud yn siŵr fod pawb yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu. Rydym yn ymroddedig i ddod yn sir nodded ar gyfer y rhai sy'n ffoi rhag rhyfel ac erledigaeth a byddwn yn trin yr unigolion hyn gyda thrugaredd a chydymdeimlad. Rydym yn ffodus i gael cyfalaf cymdeithasol rhagorol gyda llawer o rwydweithiau cymunedol yn gweithio i gefnogi'r lle y maent yn byw ynddo, fel a ddangosir gan ein cyfradd gwirfoddoli uchel. Rydym wedi parhau i gefnogi ein gwirfoddolwyr gwych ac yn gweithio gyda grwpiau cymunedol i'w helpu i gael mynediad i grantiau bach i ariannu'r prosiectau sydd bwysicaf iddynt.

## Amcan Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle Teg i Fyw

| Lle teg i fyw | | |
|---|---|---|
| Fair place | **Sgôr Gwerthusiad** | Lefel 4 Da – Cryfderau pwysig gyda rhai meysydd i'w gwella – mae pwysau'r dystiolaeth yn dangos fod y llwyddiannau yn fwy na'r meysydd nad ydynt wedi eu cyflawni.<br><br>Rydym wedi cynyddu'r cymorth a roddwn i breswylwyr i wella eu cyfleoedd bywyd a galluogi ein cymunedau i ddatblygu'r lleoedd y maent yn byw ynddynt. Gosodwyd cynlluniau i gyflawni'r rhan fwyaf o'r hyn yr anelwn ei gyflawni. Dengys ein hasesiad fod angen i ni sicrhau fod ein holl ymyriadau i gyflawni'r amcan hwn yn seiliedig ar dystiolaeth, wedi eu targedu, eu cyfathrebu'n glir a'u gwerthuso i asesu effaith. |

**Pam ein bod ni'n canolbwyntio ar hyn?**

Ni ddylai unrhyw un gael ei adael ar ôl yn Sir Fynwy na theimlo nad yw eu llais yn cyfrif. Mae llawer o'n preswylwyr yn ffyniannus ac yn abl iawn i edrych ar ôl eu hunain a'u hanwyliaid. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir i bawb, ac mewn sir wledig mae diffyg cydraddoldeb yn aml yn fwy cudd nag mewn mannau trefol. Byddwn yn cynyddu dwyster ein gwaith i helpu'r rhai sydd angen cymorth i fyw'r bywyd y mae arnynt ei eisiau.

| Pa mor dda ydyn ni'n cyflawni y deilliannau y gwnaethom gytuno arnynt? | Sut ydyn ni yn gwybod hyn? |
|---|---|
| **Yr hyn y dymunwn ei gyflawni: Gwella cyfleoedd bywyd ar gyfer pobl waeth beth fo'u hincwm neu cefndir** | |
| **Cymorth i breswylwyr a theuluoedd ar incwm isel**<br><br>Rydym wedi gweithredu prydau ysgol am ddim i bob un o'r 6,000 plentyn ysgol gynradd yn Sir Fynwy Aethom tu hwnt i'r gofynion statudol ac yn darparu brecwast a phryd o fwyd iach a newydd ei goginio amser cinio gan wella llesiant a dysgu disgyblion. Mae'r defnydd o brydau yn gyffredinol wedi cynyddu o 64% o ddisgyblion yn cael prydau ysgol am ddim ym mis Ebrill 2023 i 75% ym mis Ebrill 2024. Mae hyn wedi amrywio mewn gwahanol rannau o'r sir a bu'n is mewn ardaloedd mwy amddifadus. Mae ysgolion sydd â rhai o'r cyfraddau uchaf o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim (cyfradd gyfartalog o tua 30%) yn gweld y cyfraddau defnydd isaf ar tua 60%, tra bod y rhai gyda'r cyfraddau isaf o gymhwyster am brydau ysgol am ddim (tua 5%) yn gweld y galw uchaf ar dros 80%. Gweithiwn gydag ysgolion, rhieni a dysgwyr i ddeall a dileu unrhyw rwystrau a all fod yn wynebu'r rhai mewn ardaloedd llai amddifadus rhag cael mynediad i brydau ysgol am ddim i bawb. Mae hyn yn cynnwys adolygu sut y caiff prydau bwyd eu harchebu, addasu'r mathau o fwyd a gynigir ac asesu dull optio-allan yn hytrach nag optio-mewn at ddarpariaeth prydau ysgol am dim.<br><br>Rydym wedi parhau i gefnogi'r rhai y mae'r cynnydd mewn costau byw wedi effeithio arnynt drwy amrywiaeth o ddulliau yn cynnwys ymgyrch Money Matters sy'n cyfeirio preswylwyr at ffynonellau cymorth; gweithio gyda Mind Sir Fynwy a Chyngor Ar Bopeth Sir Fynwy i drefnu sesiynau | Ymestyn prydau ysgol am ddim i bawb<br><br>Ymgyrch Money Matters, sesiynau galw heibio, help a chyngor<br><br>Cynllun Gostwng Treth Gyngor |

| | |
|---|---|
| galw heibio cymorth gyda chostau byw ar draws y sir sy'n cynnig cyngor ar sicrhau fod pobl yn cael yr holl arian a budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt; a help a chyngor ar fynd yn ôl i waith neu gyflogaeth gyda mwy o sicrwydd yn ogystal â chymorth emosiynol a llesiant.<br><br>Rydym wedi hyrwyddo'r cyngor a'r cymorth lleol gan ein Gwasanaeth Budd-daliadau ar fudd-dal tai, credyd cynhwysol, taliadau tai ar ddisgresiwn a gostyngiadau yn y dreth gyngor fel bod pobl yn cael yr uchafswm cymorth ariannol mae ganddynt hawl iddo. Bu gostyngiad bach yn nifer yr hawliadau am ostyngiad treth gyngor, sy'n cynyddu'r cymorth ariannol i aelwydydd. Mae rhai aelwydydd yn parhau sy'n dal yn annhebyg o fod yn derbyn yr holl gymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo. | |
| **Yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni: Preswylwyr â gwell mynediad i wasanaethau cyngor a'r cymorth sydd ei angen i fyw bywyd iach** | |
| **Cynnig darpariaeth chwarae cost isel**<br><br>Cefnogwyd disgyblion yn ystod gwyliau ysgol gyda darpariaeth chwarae am ddim neu rad. Yn ystod gwyliau haf 2023, cynigiwyd 3,363 awr o ddarpariaeth chwarae, mynychwyd 10,605 sesiwn gyda 2,821 ohonynt ar gyfer plant oedd yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Roedd y sesiynau hyn yn cynnig cyfleoedd chwara**e** a gweithgaredd corfforol i bobl ifanc. Drwy'r sesiynau, darparwyd 816 pryd bwyd a 413 parsel bwyd i deuluoedd, gan roi mynediad i fwyd drwy wyliau'r haf i rai teuluoedd sydd angen hynny.<br><br>Cyflwynwyd cynlluniau Bwyd a Hwyl mewn pump ysgol gynradd ar draws y sir. Mae'r cynllun yn darparu prydau iach a gweithgareddau ar gyfer plant yn ystod gwyliau'r haf. Mae nifer y mynychwyr wedi cynyddu o 2,005 yn 22/23 i 4,316 yn 23/24 a darparwyd 8,632 o brydau iach. Rhoddodd canolfannau ieuenctid fynediad i brydau iach ar y dyddiau yr oedd y canolfannau ar agor yn ystod yr haf, gyda pharseli bwyd i fynd adre hefyd ar gael ar gyfer y rhai oedd eu hangen. Mae hyn yn rhan o'n hymrwymiad i ostwng ansicrwydd bwyd, gan sicrhau fod gan bob plentyn a pherson ifanc fynediad i bryd o fwyd iach.<br><br>Gweithiwn gyda phenaethiaid ysgol i adnabod y disgybl hynny fydd yn cael y budd mwyaf o ddarpariaeth am ddim neu rad. Rydym wedi cynyddu nifer yr ysgolion y gweithiwn â nhw o 11 yn 22/23 i 21 yn 23/24 ac wedi dechrau darparu darpariaeth mewn ysgolion uwchradd yn ogystal ag mewn ysgolion cynradd. Nid yw pob disgybl a allai gael budd o sesiynau chwarae a phrydau bwyd yn ystod gwyliau ysgol yn manteisio ar hynny. Mae angen i ni ddeall y rhwystrau posibl a datblygu'r cynnig i gynyddu'r defnydd. Rydym hefyd yn adolygu sut i gasglu adborth o'r sesiynau hyn i sicrhau ein bod yn diwallu anghenion y plant sy'n mynychu. | Darpariaeth Chwarae Gwyliau Ysgol<br><br>Cynllun Bwyd a Hwyl |
| **Gweithio gyda phartneriaid i ostwng ansicrwydd bwyd, datblygu gwasanaethau diwylliannol a chymunedol**<br><br>Rydym wedi datblygu ac agor Hyb Cymunedol Magwyr a Gwndy newydd ar gost o £2.9 miliwn mewn partneriaeth gyda phrosiect Hyb Cymunedol Magwyr a Gwndy (MUCH). Roedd y datblygiad yn seiliedig ar ymgyfraniad helaeth gan y gymuned a chafodd ei gynllunio yn seiliedig ar adborth preswylwyr. Mae'r safle y**n** cynnig gofod ar gyfer defnydd y gymuned a digwyddiadau masnachol, yn ogystal â photensial ar gyfer twf busnesau bach. Mae grŵp MUCH yn awr yn defnyddio ac yn rheoli'r hyb cymunedol ar gyfer hyrwyddo defnydd cymunedol yn uniongyrcho**l** yn cynnwys cymdeithasol, diwylliant, hamdden, chwaraeon a gweithgareddau cymunedol eraill. | Dathlu'r Celfyddydau |

| | |
|---|---|
| Fe wnaethom gynnal Dathliad o'r Celfyddydau a ddangosodd sut mae artistiaid, perfformwyr, cerddorion ac eraill yn cyfrannu at ddiwylliant ac economi fywiog Sir Fynwy. Buom yn gweithio gydag artistiaid o bob rhan o'r sir i ddarparu mynediad i gyllid a mannau i ddangos eu gwaith, yn cynnwys datblygu 'Clwstwr Creadigol' o artistiaid lleol. Mae hyn yn cefnogi ein diwydiant creadigol i ddarparu safbwyntiau newydd ar gymunedau, lle a'u hanes, ac mae ganddo rôl hanfodol yn yr economi leol. Mae hyn yn rhan o'n hymrwymiad i greu strategaeth ddiwylliannol newydd. Bydd yr adborth yn llywio ei ddatblygiad. Bydd y strategaeth yn rhoi canolbwynt ar gyfer rhwydweithio, cymorth a chynhwysiant ar gyfer gweithgaredd diwylliannol ar draws ein cymunedau.<br><br>Rydym wedi datblygu dulliau ar gyfer tyfu bwyd lleol a chymunedol, yn cynnwys caffael bwyd a rhwydweithiau gyda chyflenwyr lleol. Mae cegin ym mhob ysgol gynradd lle caiff prydau maethlon eu coginio'n ffres bum diwrnod yr wythnos. Rydym hefyd yn cefnogi partneriaeth Fwyd ar draws y sir. Mae oergelloedd cymunedol yn enghraifft o weithio partneriaeth sy'n rhoi cymorth anuniongyrchol i'r rhai sy'n profi ansicrwydd bwyd. Maent yn gweithredu ar hyn o bryd yn Nhrefynwy, y Fenni, Cil-y-coed, Goetre, Cas-gwent a Magwyr gyda Gwndy. Maent yn rhoi mynediad lleol i fwyd ac mae pob oergell yn arbed tua dwy dunnell fetrig o fwyd rhag mynd i domen lanw bob mis. Mae tua 540 o bobl yn ymweld ag oergell gymunedol bob wythnos, sy'n gynnydd o tua 480 ar y ffigur blaenorol.<br><br>Gwelsom efallai nad yw preswylwyr sy'n defnyddio gwasanaethau tebyg i oergelloedd cymunedol yn derbyn y cymorth cofleidiol maent ei angen. Rydym wedi penodi swyddog ymgysylltu sicrwydd bwyd sy'n cyfeirio teuluoedd at wasanaethau cymorth ariannol ehangach, casglu data ar y galw a gweithio gyda phrosiectau bwyd cymunedol i sicrhau eu bod yn gynaliadwy. Mae angen i ni ddatblygu dull cydlynus, awdurdod cyfan i gynnal effeithiau ein hymyriadau. Mae'n rhaid i ni ganolbwyntio ar gynaliadwyedd hirdymor ein tir a natur ac iechyd a llesiant ein cymunedau. Bydd hwn yn ffocws allweddol yn ein cynllun gweithredu i drechu tlodi ac anghydraddoldeb.<br><br>Rydym wedi datblygu Strategaeth Fwyd Leol sy'n dangos bod y Cyngor yn cydnabod Sir Fynwy fel 'pencadlys bwyd Cymru'. Cafodd y strategaeth ei llywio gan dystiolaeth ac ymgynghoriad gydag arbenigwyr lleol, partneriaid a rhanddeiliaid. Mae ganddi dair thema greiddiol: gwella cadwyni cyflenwi lleol a moesegol, datblygu bwyd fel sector economaidd, bwyd cymunedol: mynediad, addysg, cyfranogiad. Bydd yn galluogi dull gweithredu i'r awdurdod cyfan gyda ffocws ar gynaliadwyedd hirdymor ac iechyd a llesiant. | Datblygu Strategaeth Ddiwylliannol<br><br>Oergelloedd Cymunedol<br><br>Nifer y bobl sy'n defnyddio oergelloedd cymunedol<br><br>Strategaeth Fwyd Leol |
| **Yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni: Dinasyddion yn medru cymryd rhan pan fydd y cyngor a'r gymuned yn gwneud penderfyniadau a chymryd camau gweithredu sy'n eu galluogi i lunio eu dyfodol eu hunain.** | |
| **Grymuso dinasyddion a chymunedau**<br><br>Rydym wedi gweithredu cynllun grantiau bach, Penderfynwch Chi, a gynigiodd £80k i 75 o gynlluniau lleol i ganolbwyntio ar brosiectau y credent oedd yn bwysig i'w hardaloedd lleol. Cymerodd tua 7,000 o ddinasyddion ran a roedd y prosiectau yn cynnwys datblygu ardal tyfu gymunedol fach a mynd i'r afael â newyn bwyd yn ystod y gwyliau. Rydym wedi ymestyn allan i gymunedau o ddiddordeb a chynnig cymorth i feithrin eu cydnerthedd eu hun. Mae hyn yn cynnwys cefnogi ymadawyr gofal a gofalwyr ifanc gyda £25k mewn cyllid a chefnogi cymunedau amrywiol, oedd yn cynnwys aelodau o gymunedau Mwslimaidd ac Wcráinaidd Sir Fynwy, gyda £10k. Buom yn gweithio gyda grwpiau cymunedol presennol sydd â phrofiad o gyrraedd grwpiau 'anodd eu cyrraedd' a darparu £5k i gefnogi gweithgaredd cymunedol yn cynnwys cymorth costau byw a dyddiau hwyl i'r teulu. | Cynllun Penderfynwch Chi |

| | |
|---|---|
| Fe wnaethom gynnal arolwg blynyddol Gwneud eich Marc yn cynnig cyfle i bobl ifanc gael llais a gwneud gwahaniaeth mewn materion sy'n effeithio arnynt. Roedd y materion o gonsyrn a godwyd yn cynnwys costau byw, iechyd a llesiant, newid hinsawdd ac unigrwydd. Mae'r gwasanaeth ieuenctid wedi gweithio gyda phobl ifanc i ddeall ac addasu darpariaeth i ymateb i'r materion a godwyd. Roedd cyfraddau ymateb i'r arolwg yn is na'r targed, gyda 43% o ddisgyblion ysgol uwchradd yn cymryd rhan yn yr arolwg. Rydym wedi dynodi argymhellion i gynyddu'r gyfradd ymateb i'r arolwg nesaf yn cynnwys ymgysylltu gydag ysgolion uwchradd ac opsiynau digidol i gynyddu hygyrchedd.<br><br>Rydym wedi datblygu Canllawiau Arfer Da mewn Gwirfoddoli i hybu twf gwirfoddolwyr, rhoi cymorth parhaus a sicrhau profiad gwirfoddoli ansawdd uchel. Cynhaliwyd digwyddiadau a rhoddwyd cyfleoedd o fewn ein gwasanaethau, tebyg i mewn amgueddfeydd. Cawsom dros 100 ymateb i'n harolwg blynyddol o wirfoddolwyr. Mae hyn wedi ein galluogi i ddynodi beth sy'n gweithio'n dda, pa welliannau y gellir eu gwneud a pha adnoddau ychwanegol y gallwn eu darparu i gynorthwyo ein gwirfoddolwyr yn eu swyddi..<br><br>Mae rhaglenni i wirfoddolwyr yn y sir wedi cyfrannu at ystod o fuddion yn cynnwys gostwng arwahanrwydd, helpu gyda iechyd meddwl, addysgu ymwelwyr i'r sir a darparu sgiliau newydd ar gyfer gwirfoddolwyr. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod tua 39% o breswylwyr yn y sir yn gwirfoddoli mewn rhyw fodd, yr ail ganran uchaf yng Nghymru. Mae hyn yn dangos yr ymrwymiad gan breswylwyr yn sir i roi eu hamser i ystod cyfan o swyddi gwirfoddoli sydd o fudd i bobl, lleoedd a chymunedau. | Arolwg Gwneud eich Marc<br><br>Canllawiau Arfer Da mewn Gwirfoddoli<br><br>Arolwg blynyddol o wirfoddoli<br><br>Canran preswylwyr yn y sir sy'n gwirfoddoli |
| **Hyrwyddo Cydraddoldeb**<br><br>Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer y cyfnod 2024-28. Mae'r cynllun yn gosod amcanion sy'n gwerthfawrogi, ac sy'n anelu i fanteisio i'r eithaf ar, alluoedd a chyfraniadau pawb yn ein cymuned, waeth bynnag beth yw eu hoedran, rhyw, hil, cyfeiriadedd rhywiol neu unrhyw un o'r nodweddion eraill sy'n ein gwneud pwy ydym. Mae'r cynllun yn cynnwys y pethau y byddwn yn eu gwneud i gyfrannu at gynlluniau gweithredu cenedlaethol yn cynnwys: Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru, Cynllun Gweithredu LGBTQ+ Cymru; Cynllun Gweithredu Hybu Cydraddoldeb Rhywedd yng Nghymru a'r Cynlluniau Gweithredu ar Anabledd. Cynhaliwyd digwyddiadau yn Neuadd y Sir yn cynnwys dathliadau Iftar a Mis Hanes Du i hyrwyddo amrywiaeth ein sir a dangos i gydweithwyr a'r gymuned ehangach fod y gweithle yn gynhwysol a chroesawgar.<br><br>Sylweddolwn fod angen i ni gynyddu'r cyfleoedd cyflogaeth o fewn y cyngor ar gyfer pobl anabl. Rydym wedi gwneud yr ymrwymiad hyderus o ran anabledd ac wedi cael achrediad statws Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd (Lefel 2). Mae cynllun gweithredu 3-blynedd Hyderus o ran Anabledd yn eistedd wrth ochr yr achrediad. Caiff hyn ei weithredu a'i fonitro gan y Grŵp Cynhwysiant Hygyrchedd sy'n cwrdd yn chwarterol.<br><br>Fe wnaethom ymrwymo yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 i annog busnesau lleol i ddod yn gyflogwyr gydag achrediad hyderus o ran anabledd. Cynyddodd y nifer o gyflogwyr lleol a wnaeth yr ymrwymiad hyderus o ran anabledd o 24 (Mawrth 2023) i 59 (Ebrill 24). Mae hyn yn helpu i ostwng y diffyg cydraddoldeb a brofir gan bobl anabl wrth gael mynediad i gyflogaeth yn y sir.<br><br>Fe wnaethom basio cynnig ym mis Medi 2023 yn ein hymrwymo yn ffurfiol i ddod yn sir nodded. Rydym wedi cyflwyno cais i rwydwaith Dinas Nodded, sy'n gweithredu ar draws y Deyrnas Unedig, ac yn disgwyl cadarnhad ein bod wedi ateb y meini prawf ar gyfer aelodaeth gydag achrediad. | Statws Sir Nodded<br><br>Cymorth i'r rhai sy'n ffoi o Wcráin<br><br>Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28<br><br>Dathliadau Iftar a Mis Hanes Du<br><br>Ennill statws Lefel 2 Cyflogwr Hyderus o Ran Anabledd<br><br>Nifer cyflogwyr lleol a wnaeth yr ymrwymiad hyderus o ran anabledd |

| | |
|---|---|
| Rydym wedi llwyddo i helpu rhai sy'n ffoi rhag y rhyfel yn Wcráin i ganfod cartrefi yn yr ardal. Mae'r nifer a gaiff eu lletya dan y cynllun Cartrefi i Wcráin wedi parhau'n sefydlog, gyda phreswylwyr yn mynd yr ail filltir gyda'r hyn a ofynnwyd iddynt i ddechrau. Fe wnaethom ragori ar y 'gyfran poblogaeth' o ffoaduriaid a ddynodwyd gan Lywodraeth Cymru. Gan gydnabod yr heriau sy'n wynebu'r gymuned hon, yr ydym wedi sefydlu tîm arbenigol yn cynnwys dau weithiwr atal digartrefedd, dau Swyddog Cymunedol a Llesiant, a ategwyd gan gymorth cyfieithu a gweinyddiaeth arbennig. Mae ein dull gweithredu yn cynnwys cydweithio agos gyda landlordiaid lleol i feithrin rhwydweithiau lleol cryf a mynediad i eiddo, gan fynd i'r afael â phryderon yn gysylltiedig â fforddiadwyedd ac asesiadau ariannol. Mae hyn yn rhan o'n hymrwymiad i sicrhau fod Sir Fynwy yn fan lle mae pawb yn teimlo bod croeso iddynt. | |
| **Cefnogi'r Gymraeg**<br><br>Rydym wedi rhoi cyfleoedd i'n staff i gymryd rhan mewn cyrsiau Cymraeg o lefel dechreuwyr i lefel uwch. Mae gennym 40 aelod o staff sy'n dilyn cyrsiau Cymraeg. Fe wnaethom gynnal arolwg staff i benderfynu ar y sgiliau oedd gan y gweithlu yn y Gymraeg. Dengys hyn fod gan 323 aelod o staff ryw lefel o sgiliau yn y Gymraeg a defnyddiwn hyn i ddarparu gwasanaeth Cymraeg i breswylwyr. Defnyddiwn yr arolwg i dargedu datblygu sgiliau yn y Gymraeg mewn swyddi a gafodd eu dynodi. Mae hyn yn cyfrannu at amcan ein Strategaeth Iaith Gymraeg i gynyddu cyfleoedd i'r disgyblion ryngweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus yn Gymraeg.<br><br>Mae'r data cenedlaethol diweddaraf yn dangos cynnydd yn y canran o'r boblogaeth yn Sir Fynwy a all siarad Cymraeg ar 18.4%, lan o 16.6%. Byddwn yn parhau i werthuso ein rôl wrth ddatblygu defnydd yr iaith yn ein sir yn adroddiad blynyddol 2023/24 ar ein strategaeth ar yr iaith Gymraeg ac yn ei datblygu ymhellach i barhau twf yr iaith. | Nifer staff sy'n cymryd rhan mewn cyrsiau Cymraeg<br><br>Nifer y siaradwyr Cymraeg a gyflogir gan y Cyngor |
| **Meysydd eraill i'w datblygu a ddynodwyd drwy ein hunanasesiad 2023/24** | |
| **Cariwyd ymlaen o hunanasesiad 2022/23:** Sicrhau ymyriadau i gyflawni amcan Lle Teg i Fyw yn seiliedig ar dystiolaeth, wedi eu targedu, eu cyfathrebu'n glir a'u gwerthuso i asesu effaith. | |

**Effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

**Cyfraniad nod y Cyngor i Nodau Llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol**

| Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ | |

***Amcan Llesiant: Lle teg i fyw***

Mae mabwysiadu dulliau gweithredu sydd â ffocws ar y gymuned yn hyrwyddo **cydweithio** fydd yn ei dro yn cefnogi llesiant. Drwy weithio gyda chymunedau, grymuso pobl a sicrhau y gallant gael mynediad i gymorth gobeithiwn **atal** problemau rhag digwydd. Mae digonedd o gyfleoedd yn ein sir, felly mae'n hanfodol y gall pawb **gymyd rhan** i uchaf**u** buddion llesiant. Dylai hyn gael budd **hirdymor** ar gyfer unigolion a chymunedau. Mae gan ein camau gweithredu fudd **integredig** ar gyfer llawer o agweddau o'r Ddeddf, byddant yn hyrwyddo Cymru o gymunedau cydlynus a drwyddi draw, helpu i greu Cymru sy'n fwy cyfartal.

**Mesurau cynnydd**

| **Mesur** | **Blaenorol**[1] | **Diweddaraf**[2] | **Targed 2023/24** | **Golwg Gyflym** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim i bawb[i] | 2,583 | 6,064 (pob plentyn o oedran ysgol gynradd) | Pob plentyn o oedran ysgol gynradd | ↑ | Mae gan bob plentyn o oedran ysgol gynradd nawr fynediad i brydau ysgol am ddim i bawb |
| Nifer yn mynychu Gemau Sir Fynwy[ii] | 4,070 | 4,419 | 4,102 | ↑ | |
| Nifer yn mynychu Bwyd a Hwyl[iii] | 2,005 | 4,316 | 3,840 | ↑ | |
| Nifer yn mynychu Chwarae Egnïol[iv] | 249 | 544 | 312 | ↑ | |
| Canran pobl sy'n teimlo y medrant ddylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol[v] | 20 | 33 | 34 | ↑ | Mae'r ffigur diweddaraf ar gyfer 2021/22 ac mae'r ffigur blaenorol ar gyfer 2018/19 – ni chafodd hyn ei fesur fel rhan o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019/20 na 2022/23. Caiff data 2023/24 ei gynnwys pan fydd ar gael. |
| Canran y disgyblion ysgol uwchradd sy'n cymryd rhan yn arolwg cenedlaethol Gwneud Eich Marc a phleidlais benodol Sir Fynwy[vi] | 71 | 43 | 72 | ↓ | Gellir priodoli'r gostyngiad i gyfyngiadau ar gynnal yr arolwg yn un o'n hysgolion a'r anawsterau wrth sicrhau ymatebion gan fyfyrwyr chweched dosbarth/ |
| Canran y bobl sy'n gwirfoddoli[vii] | 32 | 39 | 40 | ↑ | Y diweddaraf yw 2022/213, y blaenorol yw 2019/20. Caiff data 2023/24 ei gynnwys pan fydd ar gael. |

[1] Y data blaenorol yw 2022/23 os na nodir fel arall.
[2] Y data diweddaraf yw 2023/24 os na nodir fel arall.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer cyflogwyr lleol sy'n gwneud ymrwymiad cyflogwr hyderus o ran anabledd[viii] | 24 | 59 | 50 | ↑ | |
| Canran y boblogaeth a all siarad Cymraeg[ix] | 16.6 | 18.4 | 16.9 | ↑ | Y blaenorol yw 2022/23, y diweddaraf yw'r flwyddyn a ddiweddodd Rhagfyr 2023. Caiff data 2023/24 ei gynnwys pan fydd ar gael. |
| Nifer y siaradwyr Cymraeg a gyflogir gan y Cyngor | 278 | 323 | 303 | ↑ | |

Golwg Gyflym ar y Tueddiad: ↑ Perfformiad yn gwella; ↓ Perfformiad yn gwaethygu; ↔ Dim newid yn y perfformiad

Golwg Gyflym o'r Targed: Gwyrdd – cyflawni'r targed; oren – methu'r targed o ychydig; coch – methu'r targed o gryn dipyn

## Lle gwyrdd i fyw

### Yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni:

- Gweithrediadau'r Cyngor yn sero net erbyn 2030 a chymunedau lleol yn cael eu cefnogi i ostwng eu ôl-troed carbon eu hunain
- Adferiad natur, gwell iechyd yr amgylchedd ac afonydd
- Arferion amaethyddiaeth a ffermio lleol cynaliadwy gyda gwasanaethau cyhoeddus a phreswylwyr yn bwyta ac yfed mwy o gynnyrch lleol a thymhorol

### Asesiad strategol

Y byd naturiol yn ei holl agweddau yw'r cefnlen i fywyd yn Sir Fynwy. Mae angen i ni ddathlu harddwch eithriadol ein sir, ond mae hefyd angen i ni sicrhau y gwnawn bopeth a fedrwn i'w diogelu a'i chadw. Mae'r angen am adfer natur yn Sir Fynwy yn glir; mae 34% o'n rhywogaethau yn dangos gostyngiad yn eu niferoedd. Rydym yn ymroddedig i fynd i'r afael â hyn. Rydym wedi cyflwyno 14 prosiect fel rhan o Natur Wyllt oedd yn gostwng torri gwair ac yn gadael i flodau gwyllt dyfu mewn mannau gwyrdd. Mae iechyd ein afonydd wedi dioddef mewn blynyddoedd diweddar. Mae targedau ffosffad ar gyfer yr Afon Wysg yn methu ar gyfradd o 88% ac yn methu ar gyfradd o 68% ar gyfer yr Afon Gwy. Buom yn gweithio gyda phartneriaid i drin hyn ac mae Dŵr Cymru yn awr yn gosod safleoedd tynnu ffosffadau mewn dwy ardal yn y sir i wella iechyd ein afonydd.

Mae allyriadau carbon fesul pen o'r boblogaeth yn Sir Fynwy yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y Deyrnas Unedig. Rydym eisiau cefnogi preswylwyr i ostwng eu hallyriadau eu hunain. Mae ein prosiectau economi gylchol yn gwneud yn union hynny. Mae ein llyfrgelloedd Benthyg wedi arwain at arbed carbon o 9,755kg i breswylwyr ac yn ystod eleni yn unig mae ein siopau ailddefnyddio wedi dargyfeirio 33 tunnell fetrig o wastraff rhag mynd i domen lanw. Rydym hefyd wedi parhau i ragori ar y cyfraddau targed ar gyfer ailgylchu, a diolch i ymdrechion preswylwyr, fe wnaethom ailgylchu dros 71% o wastraff yn ystod y flwyddyn.

Rydym yn ymroddedig i ddod yn sero net erbyn 2030. Gwyddom fod hon yn her bwysig, ond cymhleth. Gwnaethom amrywiaeth o waith i ddeall yn well beth yw maint y broblem, yn cynnwys comisiynu cynlluniau datgarboneiddio gyda'r costau ar gyfer ein stad. Rydym hefyd wedi diwygio ein Strategaeth Argyfwng Hinsawdd a Natur ac wedi gwahanu hyn yn bedwar cynllun gweithredu clir, yn cynnwys cynllun datgarboneiddio. Mae hyn yn adlewyrchu'n well y gwaith eang sy'n cael ei wneud wrth i ni ymdrechu i gyrraedd ein nod.

## Amcan y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle gwyrdd i fyw

<table>
<tr><th colspan="3">Lle Gwyrdd i Fyw</th></tr>
<tr><td>Green place</td><td>Sgôr Gwerthusiad:</td><td>Lefel 3: Cryfderau yn fwy na gwendidau o ychydig – mae'r dystiolaeth am lwyddiant ychydig yn fwy na'r meysydd nad ydynt yn eu lle. Rhai camau gweithredu yn hwyr a rhai dulliau mesur yn brin o'r targedau a gynlluniwyd<br><br>Rydym wedi cyflwyno prosiectau penodol sy'n cyfrannu at gyflawni ein hamcan, fodd bynnag bydd angen i ni wneud mwy ac yn gyflymach i gyflawni ein huchelgais. Mae'r ystod gwaith a wnawn yn ein helpu i ddeall maint yr her a'r llwybr mae angen i ni ei ddilyn i gyrraedd ein nod. Rydym yn parhau'n uchelgeisiol yn ein nod o gyrraedd sero net erbyn 2030. Fodd bynnag, os nad oes buddsoddiad cyhoeddus sylweddol, mae'r dystiolaeth a gasglwn yn awgrymu y bydd yn heriol iawn i gyrraedd ein targed.</td></tr>
<tr><td colspan="3">Pam ein bod wedi canolbwyntio ar hyn?</td></tr>
<tr><td colspan="3">Rydym yn cydnabod harddwch eithriadol Sir Fynwy. Fel ceidwaid y lle godidog hwn mae arnom angen annog preswylwyr ac ymwelwyr i'w fwynhau, ei warchod a'i gadw. Byd natur yn ei holl agweddau yw'r gefnlen i'n heconomi twristiaeth ac ymwelwyr. Byddwn yn gweithio gydag eraill i hyrwyddo mynediad at ein mannau arbennig gan ddiogelu'r amgylchedd, cefnogi adferiad natur, lleihau ein hallyriadau carbon, lleihau'r risg o lifogydd a hyrwyddo economi gylchol. Rydym yn cydnabod hefyd bod y rhain yn faterion cymhleth ac y bydd yn cymryd degawdau yn hytrach na blynyddoedd i weld effaith llawn y newidiadau yr ydym yn eu gwneud.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Pa mor dda ydyn ni'n cyflawni y deiliannau y gwnaethom gytuno arnynt?</td><td>Sut ydyn ni'n gwybod?</td></tr>
<tr><td colspan="3">Yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni: Gweithrediadau'r Cyngor yn sero net erbyn 2030 a chymunedau lleol yn cael eu cefnogi i ostwng eu ôl-troed carbon eu hunain</td></tr>
<tr><td colspan="2">Gostwng yr allyriadau carbon a gynhyrchir o weithrediadau'r cyngor.<br><br>Rydym wedi gweithredu amrywiaeth o fesurau i ostwng allyriadau o'n safleoedd. Mae enghreifftiau o gynlluniau a gwblhawyd eleni yn cynnwys gosod pyrth ceir solar oedd ar ôl o Gam 1 (132kWp) a datblygu system fawr ar do a osodir fel rhan o brosiect ysgol newydd y Fenni.</td><td>Strategaeth Argyfwng Hinsawdd a Natur</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| Rydym wedi cwblhau arolygon ar nifer o adeiladau i osod goleuadau LED, PV solar a gosod pympiau gwres. Rydym yn datblygu rhan 2 rhaglen Refit ac wedi symud ymlaen gyda cheisiadau am gyllid. Bydd y rhaglen hon o waith effeithiolrwydd ynni ar ein adeiladau cyhoeddus yn gwneud adeiladu dan y cynllun yn fwy effeithiol o ran ynni, gostwng allyriadau carbon ac arbed costau ynni. Rhannwn ddata ar ynni gydag ysgolion a chanolfannau hamdden i fonitro a rhagweld eu defnydd ynni i fod yn sail i newidiadau i ostwng eu defnydd.<br><br>Rydym yn symud i gerbydau allyriadau isel iawn adeg adnewyddu a phan fo angen gwasanaethau a chyllid yn caniatáu hynny. Ar hyn o bryd nid yw'r cyllid ychwanegol sydd ei angen i drosi ein fflyd mor gyflym ag y bwriadem gennym. Rydym wedi comisiynu cynllun datgarboneiddio gyda chostau ar gyfer ein stad adeiledig a throsi fflyd fydd yn ein galluogi i wneud penderfyniadau seiliedig ar dystiolaeth ar ddefnydd asedau a buddsoddiad ariannol i ostwng ein allyriadau carbon.<br><br>Rydym wedi cryfhau'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu gyda'n cadwyni cyflenwi I gefnogi cyflawni ein cynlluniau gostwng carbon. Rydym wedi cydweithio gyda chynghorau ar draws Prifddinas Ranbarth Caerdydd a chytuno ar ddull safonol ar gyfer cwestiynau tendr a ofynnir ar y cam dethol a dyfarnu. Rydym wedi datblygu canllawiau ar ostwng carbon a'u rhannu gyda staff sy'n caffael nwyddau ar gyfer y cyngor.<br><br>Rydym wedi sicrhau gostyngiad o 17.8% yn ein allyriadau ein hunain yn 2022/23 (y data diweddaraf sydd ar gael, yn gyfartal â 44,248 tunnell fetrig o allyriadau CO2) o linell sylfaen 2019/20 (44,248 tunnell fetrig). Mae hyn i raddau helaeth oherwydd gostyngiad mewn gwariant cadwyn gyflenwi; mae amcangyfrifon tebygol yn dangos gostyngiad o 34,547 tunnell fetrig yn 2021/22 i 29,780 yn 2022/23. Ni fydd y dull hwn yn cynnwys unrhyw ymdrechion i ostwng allyriadau cadwyn gyflenwi gan y caiff ffactor gyfartalog ei defnyddio ar gyfer pob grŵp cynnyrch. Cynyddodd allyriadau gweithredol ar gyfer ynni a fflyd rhwng 21/22 a 22/23 (13,889 tunnell fetrig i 14,527 tunnell fetrig). Gellir priodoli hyn i'r cynnydd yn y sylfaen staff a chynnwys categorïau adrodd ychwanegol ar gyfer allyriadau yn deillio o weithio gartref.<br><br>Rydym yn prynu ynni drwy dariff gwyrdd (100% adnewyddadwy). Yn 22/23 fe wnaethom brynu 7,826,198 kWh o ynni a chynhyrchu 4,783,567kwh o ynni adnewyddadwy, gyda 4,217,524kwh o hynny wedi ei allforio i'r grid. Fe wnaethom osgoi 1124 tunnell fetrig o CO2 drwy gynhyrchu ynni adnewyddadwy, o'n paneli solar ar adeiladau cyngor ac o fferm solar y Cyngor yn Fferm Oak Grove yn Crug.<br><br>Rydym wedi datblygu a chytuno ar ddiweddaru'r Strategaeth Argyfwng Hinsawdd a Natur. Mae hyn yn cynnwys diweddaru'r cynllun gweithredu ar sut y byddwn yn gostwng allyriadau carbon y Cyngor. Bydd y Grŵp Llywio Argyfwng Hinsawdd a Natur yn monitro cynnydd yn rheolaidd. Mae ystod y gwaith a wnawn yn ein helpu i ddeall maint yr her a'r llwybr sydd angen i ni ei gymryd i gyrraedd ein nod. Rydym yn parhau'n uchelgeisiol yn ein nod o ddod yn sero net erbyn 2030. Fodd bynnag, os nad oes buddsoddiad cyhoeddus sylweddol, mae'r dystiolaeth a gasglwn yn awgrymu y bydd yn heriol iawn i gyrraedd ein targed. | Data adrodd allyriadau carbon |
| **Cefnogi cymunedau i ostwng eu allyriadau carbon.**<br><br>Rydym wedi cwblhau ymchwil i ddynodi gofynion posibl seilwaith gwefru cerbydau trydan ac asesu opsiynau gwefru ar y stryd. Bydd hyn yn sail i'n cynlluniau yn y dyfodol ar gyfer seilwaith gwefru trydan. Mae'r cynnydd a wnaethom mewn gosod seilwaith gwefru trydan yn gyfyngedig, yn rhannol oherwydd diffyg cytundeb ar y cyd ar y dull gweithredu gorau.<br><br>Rydym wedi cynyddu'r canran o wastraff bwrdeisiol yn y sir a anfonwyd ar gyfer ailgylchu, ailddefnyddio neu gompostio yn 23/24 i 71.7% (data darpariaethol). Mae hyn yn uwch na'r targed statudol o 64% a'n targed ein hunain o 70%. Mae hyn oherwydd bod preswylwyr yn parhau i | Hyfforddiant llythrennedd carbon<br><br>Prosiectau economi gylchol |

| | |
|---|---|
| gymryd rhan mewn ailgylchu gan gartrefi. Mae cyfanswm y gwastraff a gynhyrchir fesul person wedi gostwng o 125kg yn 22/23 i 119kg 23/24 (data darpariaethol). Mae hyn yn dangos ymroddiad ein preswylwyr i ostwng ein heffaith ar yr amgylchedd.<br><br>Mae gennym achrediad efydd fel sefydliad gyda llythrennedd carbon. Rydym wedi cynnig hyfforddiant llythrennedd carbon i staff ac aelodau etholedig, gyda gofodau ychwanegol yn cael eu cynnig i grwpiau cymunedol drwy'r Pencampwyr Hinsawdd Cymunedol. Yn ystod 23/24 fe wnaethom gyflwyno hyfforddiant llythrennedd carbon i 28 o swyddogion, 18 o aelodau etholedig a 5 preswylydd. Nid ydym wedi medru targedu busnesau neu breswylwyr yn ehangach oherwydd cyfyngiad ar gapasiti swyddogion ac adnoddau. Mae angen i ni gynyddu cyrraedd ein llythrennedd carbon i alluogi mwy o staff i gael dealltwriaeth well o ystyr llythrennedd carbon a sefydlu ein hymrwymiad hinsawdd ym mhob maes o'n gwaith. Rydym yn datblygu fideo hyfforddiant llythrennedd carbon i ymestyn ein cyrraedd.<br><br>Rydym wedi parhau i gefnogi rhedeg 3 llyfrgell Benthyg yn y sir. Ers eu hagor, mae'r rhain wedi benthyg 1,636 eitem i breswylwyr, gan arwain at arbediad cost o £18.9k ac arbediad carbon o 9,755kg. Rydym hefyd wedi cefnogi tri Caffe Trwsio a gaiff eu rhedeg gan ein cymunedau a siopau ailddefnyddio a lwyddodd i gadw 33 tunnell fetrig o wastraff rhag mynd i domen lanw yn ystod y flwyddyn. Mae'r prosiectau economi gylchol yma wedi cyfrannu at ein hymroddiad i ostwng yr effaith ar ein hamgylchedd yn y sir. Rydym wedi wynebu heriau yn canfod gwirfoddolwyr allweddo**l** i gefnogi'r prosiectau hyn. Rydym wedi sicrhau cyllid ar gyfer dau Swyddog Prosiect Economi Gylchol i ddatblyg**u**, ehangu a chefnogi ein prosiectau economi gylchol a'r gwirfoddolwyr a'r grwpiau cymunedol sy'n eu gyrru. | Cyfraddau Gwastraff ac Ailgylchu |
| **Yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni: Adfer natur, gwella iechyd yr amgylchedd ac afonydd** | |
| **Gwella adferiad natur a bioamrywiaeth**<br><br>Rydym wedi cyflwyno 14 prosiect ar draws Sir Fynwy ar gyfer Natur Wyllt gan dorri gwair yn llai aml a gadael i flodau gwyllt dyfu mewn mannau gwyrdd. Mae'r dolydd bach yma yn hanfodol ar gyfer cefnogi bioamrywiaeth a rhoi cyfle i breswylwyr brofi natur. Rydym wedi wynebu rhai heriau mewn cyfranogiad mewn adfer natur. Mae angen i ni sicrhau cytundeb ar y cyd ar yr hyn sydd angen ei wneud i gadw a chefnogi natur a bioamrywiaeth yn Sir Fynwy.<br><br>Rydym wedi adolygu a diweddaru ein Strategaeth Argyfwng Hinsawdd a Natur i gynnwys cynllun gweithredu ar fioamrywiaeth ac ecosystemau. Mae hyn yn nodi sut y byddwn yn cynnal a gwella cydnerthedd bioamrywiaeth ac ecosystemau drwy waith y cyngor. Rydym hefyd wedi adolygu ein Strategaeth a Chynllun Cyflenwi Seilwaith Gwyrdd. Mae hyn yn llywio sut y byddwn yn gwella iechyd a llesiant ein preswylwyr drwy gyfoethogi ein mannau gwyrdd.<br><br>Rydym yn parhau i arwain Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwyrdd Gwent. Rydym wedi cyflenwi £1.4m o waith i wella a datblygu seilwaith gwyrdd. Mae'r gwaith hwn yn mynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd. Fe wnaethom gefnogi amrywiaeth o waith yn Ardal Harddwch Naturiol Dyffryn Gwy yn cynnwys hyfforddiant sgiliau gwyrdd a Pharcmyn Ifanc. Rydym yn parhau i arwain Partneriaeth Natur Leol Sir Fynwy i rannu arfer gorau ac adnoddau. Fe wnaeth y bartneriaeth hon ddatblygu Cynllun Gweithredu Adfer Natur Sir Fynwy sy'n rhoi camau gweithredu ymarferol ac y gellir eu cyflawni i helpu gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystem yn y sir. | Prosiect Natur Wyllt<br><br>Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent<br><br>Cynllun gweithredu bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau |
| **Gwelliannau i ansawdd afonydd** | |

| | |
|---|---|
| Rydym wedi datblygu cynllun gweithredu ar sut y byddwn yn gweithi**o** mewn partneriaeth i wella iechyd ein hafonydd a'n moroedd. Bydd y Grŵp Llywio Argyfwng Hinsawdd a Natur yn monitro cynnydd yn rheolaidd.<br><br>Rydym yn aelod o Grŵp Cyngor Technegol Bwrdd Rheoli Maethion Afon Gwy sy'n dynodi a dadansoddi opsiynau ar gyfe**r** sicrhau gwelliannau mewn ansawdd dŵr. Rydym yn parhau ein gwaith gyda Phartneriaeth Dalgylch yr Afon Gwy i ddiogelu ansawdd dŵr, cyfaint dŵr a bioamrywiaeth. Sefydlwyd Grŵp Creiddiol Partneriaeth Afon Wysg. Rydym wedi cwblhau Astudiaeth Cwmpasu Ymgysylltu Ffermydd Dalgylch Afon Wysg ac adolygiad o adnoddau partner i lywio'r cynllun gweithredu. Sefydlwyd hyb gwybodaeth gyda dau ecolegydd o'r cyngo**r** yn cymryd rhan. Rydym yn parhau i asesu cynigion Systemau Draeniad Cynaliadwy (SuDS) yn gysylltiedig gyda datblygiadau newydd sydd angen cymeradwyaeth Corff Cymeradwyo SuDS, gyda Safonau Cenedlaethol SuDS Llywodraeth Cymru.<br><br>Mae gan gyhoeddiad Cyfoeth Naturiol Cymru am broblemau ansawdd dŵr mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol, yn cynnwys yr Afon Gwy a'r Afon Wysg, oblygiadau sylweddol ar gyfer datblygiad y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i drin y mater hwn, sydd wedi achosi oedi sylweddol a chyfyngiadau sylweddol ar ddatblygiad o fewn y sir. Mae gwaith lliniaru strategol ar ffosffadau yn mynd rhagddo ar wedd gosod safle tynnu ffosffadau yn y Fenni a Threfynwy i wasanaethu eu haneddiadau. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i ganiatáu datblygiad priodol o fewn yr ardaloedd hyn lle'r oedd wedi ei gyfyngu yn flaenorol. Cafodd adolygiad cynhwysfawr o Ganiatâd Amgylcheddol triniaethau dŵr gwastraff ar draws Sir Fynwy ei gwblhau; bydd hyn yn galluogi caniatáu cynigion pellach am ddatblygu. B<br><br>yddwn yn sicrhau na fydd y safleoedd ymgeisiol a gynigiwyd yn y Cynllun Adnau yn cael effaith niweidiol ar ansawdd dŵr o fewn yr Afon Gwy na'r Afon Wysg. | Cynllun gweithredu afonydd a moroedd<br><br>Partneriaethau afonydd |
| **Lliniaru llifogydd**<br><br>Rydym wedi parhau i gefnogi ein cymunedau sydd mewn risg o lifogydd. Rydym wedi datblygu a diweddaru cynlluniau ymateb argyfwng i lifogydd ar gyfer safleoedd niferus ar draws y sir. Rydym yn parhau i ymateb i ac ymchwilio problemau'n ymwneud â draenio tir a llifogydd yn ddyddiol ac yn gwneud cais i Lywodraeth Cymru am gyllid grant i gyflenwi cynlluniau lliniaru llifogydd yn yr ardaloedd sydd fwyaf mewn risg, gyda chynlluniau diweddar wedi eu cwblhau yn Nhyndyrn, Llantrisant, Llangwm, Llanbadog, Drenewydd Gellifarch a Brynbuga. Rydym yn cysylltu'n rheolaidd gyda'n cymunedau drwy sesiynau un-i-un a chyfarfodydd cymunedol.<br><br>Anelwn fod ag ymagwedd ragweithiol yn hytrach nac ymatebol i reoli llifogydd. Gweithiwn gyda phartneriaid tebyg i Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu rheolaeth naturiol ar lifogydd mewn tri safle blaenoriaeth uchel yn yr Afon Trothi. Rydym hefyd yn cynnal arolygiadau rhagweithio**l** ar ddraeniad tir a rhagweld/ymateb i lifogydd llanw rheolaidd yn Nhyndyrn. Mae hyn yn helpu i gyfyngu effaith llifogydd ar ein cymunedau.<br><br>Rydym yn datblygu strategaeth a chynllun gweithredu Rheoli Risg Llifogydd Lleol. Bydd hyn yn asesu risg llifogydd yn defnyddio dull gweithredu seiliedig ar ddalgylch a bydd yn dynodi Ardaloedd Strategol Risg Llifogydd. Bydd y strategaeth yn cynnwys cynllun gweithredu i'r sir gyfan yn ogystal â chamau gweithredu penodol ar gyfer pob ardal risg llifogydd strategol. Bydd y dull gweithredu hwn sy'n seiliedig ar ddalgylchoedd yn galluogi cydweithio agosach gyda phartneriaid rheoli risg llifogydd ehangach tebyg i Cyfoeth Naturiol Cymru. | |
| **Yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni: Arferion amaeth a ffermio lleol cynaliadwy gyda gwasanaethau cyhoeddus a phreswylwyr yn bwyta ac yfed mwy o gynnyrch lleol a thymhorol** | |

| | |
|---|---|
| **Hyrwyddo tyfu cymunedol a mynediad i gynnyrch lleol**<br><br>Rydym wedi llunio Strategaeth Fwyd Lleol; mae'r cynllun gweithredu ategol yn nodi sut y byddwn yn hwyluso mynediad i dir y cyngor ar gyfer tyfu bwyd, yn cynnwys parhau i weithio gyda chymdeithasau rhandiroedd i ddod â lleiniau gwag yn ôl i ddefnydd a chreu lleiniau newydd drwy'r Grant Cymorth i Randiroedd. Fe wnaethom greu 32 llain rhandir yn y flwyddyn drwy ein tir ein hun a thrwy safleoedd preifat. Mae angen i ni sicrhau y caiff gwerthoedd ein Strategaeth Fwyd Lleol eu sefydlu ar draws y cyngor. Er enghraifft, yn ddiweddar fe wnaethom aildendro ein contract ar gyfer llaeth ysgol pan na fedrem sicrhau holl nodau ein polisi amgylcheddol drwy gydweithio gyda chynghorau eraill.<br><br>Fe wnaethom ddyfarnu 10 grant fel rhan o ail gylch grantiau bach Partneriaeth Fwyd Sir Fynwy ar gyfer tyfu cymunedol. Mae'r rhain yn rhoi adnoddau i grwpiau cymunedol i gyflawni eu huchelgais. Mae hyn yn cynnwys darparu bwyd am gost isel, addysg a datblygu sgiliau a gweithgaredd awyr agored a darpariaeth llesiant.<br><br>Rydym wedi lansio gwefan Partneriaeth Fwyd Sir Fynwy, sy'n adnodd gwybodaeth cynhwysol ar y system fwyd leol a gweithgaredd ar draws y sir. Cynhaliwyd Ffair Fwyd Wanwyn ym mis Mawrth a fynychwyd gan tua 20 o fasnachwyr lleol a thua 1500 aelod o'r cyhoedd, gan hyrwyddo cynnyrch lleol sydd ar gael yn y sir. | Strategaeth Fwyd Lleol<br><br>Partneriaeth Fwyd Sir Fynwy |
| **Cefnogi ffermwyr i fabwysiadu arferion ffermio cynaliadwy**<br><br>Rydym yn ymroddedig i drawsnewid ein amaethyddiaeth i fod yn fwy adfywioll a chynaliadwy. Rydym yn cefnogi cynllun mentora Regen Ben, gyda thair fferm yn derbyn mentoriaeth. Mae hyn yn helpu ffermwyr sy'n cymryd rhan i ddatblygu cynllun i symud eu gweithgareddau i fod yn fwy adfywiol, meithrin iechyd y pridd a gwella ansawdd dŵr. Mae Talk Farm Regen Monmouthshire yn pahau i ddenu cefnogaeth gan wirfoddolwyr yn y gymuned ffermio leol.<br><br>Rydym wedi gweithio gyda ffermwyr lleol fel rhan o gynllun peilot Llysiau o Gymru mewn Ysgolion i ddod â mwy o gynnyrch lleol i ysgolion. Mae hyn wedi cynnig bwyd lleol maethlon i ddisgyblion yn y 10 ysgol sy'n cymryd rhan, beth bynnag eu cefndir economaidd-gymdeithasol. Roedd y prosiect hefyd yn cefnogi datblygu safonau diogelwch newydd a logisteg newydd. Mae tyfwyr yn ehangu eu mentrau a ffermwyr newydd yn arallgyfeirio i arddwriaeth organig er mwyn cymryd rhan.<br><br>Fe wnaethom barhau i gydweithio gyda Phrifysgol Hartpury fel rhan o'u prosiect Cronfa Ffyniant Gyffredin TalK UK sy'n cefnogi busnesau amaethyddol i gynyddu cynhyrchiant drwy dechnoleg amaethyddol. Derbyniodd 94 busnes gymorth drwy'r proseict hwn yn ystod 2023/24. | Cynllun peilot Llysiau o Gymru mewn Ysgolion<br><br>Cydweithio technoleg amaethyddol gyda Phrifysgol Hartpury |
| **Meysydd pellach ar gyfer eu datblygu a ddynodwyd drwy ein hunanasesiad 2023/24** | |
| | |

**Effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

**Cyfraniad nod y Cyngor at Nodau Llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol**

| Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ |

***Amcan Llesiant: Lle gwyrdd i fyw***

Mae Sir Fynwy yn lle hardd, gydag amgylchedd naturiol ac adeiledig godidog. Mae gennym gyfrifoldeb ar y cyd i sicrhau fod hyn ar gael ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol i'w mwynhau felly mae'n rhaid i'n cynlluniau ganolbwyntio ar yr **hirdymor** a mynd ati i **atal** problemau rhag digwydd mewn blynyddoedd i ddod. Mae angen **cymryd rhan** gyda phartneriaid a chymunedau i uchafu potensial yr amgylchedd o fewn y sir. Gall **cydweithio** gyda sefydliadau a all gyfoethogi ein hamgylchedd roi arbenigedd ym mhob agwedd o'n gwaith, er enghraifft bydd hyn yn ein galluogi i fwynhau gofynion **integreiddio** yr amcan hwn gan fod yr amgylchedd o fewn Sir Fynwy yn rhan bwysig o gyflawni ystod o nodau.

**Mesurau cynnydd**

| **Mesur** | **Blaenorol** | **Diweddaraf** | **Targed 2023/24** | **Golwg Gyflym** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|---|
| Allyriadau carbon ($kgCO_2e$) o asedau a gweithrediadau'**r** Cyngor[x] | 48,576 | 44,248 | 40,500 | ↑ | Y ffigur diweddaraf yw 2022/23, mae'r ffigur diweddaraf ar gyfer 2021/22. Caiff data 2023/24 ei gynnwys pan fydd ar gael. |
| Capa**siti** (MW) offer ynni adnewyddadwy a osodwyd ar stad y cyngor | 6.224 | 6.598 | 6.640 | ↑ | Y ffigur diweddaraf yw 2023/24,mae'r ffigur blaenorol ar gyfer 2021/22. Caiff data 2023/24 ei gynnwys pan fydd ar gael.. |
| Canran gwastraff bwrdeisiol a anfonwyd ar gyfer ailgylchu, ailddefnyddio neu gompostio[xi] | 70.0 | 71.7 | 70 | ↑ | Y ffigur diweddaraf yw data darpariaethol ar gyfer 2023/24 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y lleiniau rhandir a gafodd eu creu gan y cyngor a drwy safleoed**d** preifat a gefnogwyd gan y cyngor | Mesur newydd | 32 | 31 | ↔ | Rydym wedi ailffocysu'r mesur hwn i roi eglurdeb ar ble y gall y cyngor weithredu |

Golwg Gyflym ar y Tueddiad: ↑ Perfformiad yn gwella; ↓ Perfformiad yn gwaethygu; ↔ Dim newid yn y perfformiad
Golwg Gyflym o'r Targed: Gwyrdd – cyflawni'r targed; oren – methu'r targed o ychydig; coch – methu'r targed o gryn dipyn



## Lle sy’n ffynnu ac yn uchelgeisiol

### Yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni:

- Canol trefi bywiog sy’n dod â phobl ynghyd ac yn denu buddsodded
- Pobl o bob oed a chefndir â’r sgiliau i wneud yn dda yn y gwaith neu ddechrau eu busnes eu hunain
- Trafnidiaeth a seilwaith cynaliadwy

### Asesiad strategol

Mae gan Sir Fynwy economi leol gref ac mae mewn sefyllfa dda ar gyfer twf yn nhermau Cymru. Mae cyflogaeth yn ein sir yn gryf, gyda chyfradd cyflogaeth o 76.2%, sy’n uwch nag yn y DU (75.7%) a hefyd yng Nghymru (74.1%). Mae gennym hefyd boblogaeth gyda chymwysterau uchel, gyda dros hanner poblogaeth oedran gwaith Sir Fynwy â chymwysterau i lefel NVQ4 ac uwch. Fodd bynnag, mae diffyg sefydliadau addysg uwch yn y sir, ynghyd â phrisiau eiddo a rhenti uchel, yn golygu bod llawer o bobl ifanc yn gadael y sir. Rydym yn meithrin perthynas gydag ysgolion, colegau lleol a busnesau lleol i alluogi mwy o’n hymadawyr ysgol i symud ymlaen i gyfleoedd gyda busnesau lleol, yn cynnwys drwy brentisiaethau. Mae sicrhau bod pobl ifanc yn ymuno â’r farchnad lafur gyda’r sgiliau y maent eu hangen yn hanfodol i lwyddiant ein heconomi. Mae hyn yn ffocws allweddol yn ein Strategaeth Economi, Cyflogaeth a Sgiliau.

Mae ein trefi a’r stryd fawr wedi wynebu llawer o heriau mewn blynyddoedd diweddar, yn cynnwys yr argyfwng costau byw. Mae cyfradd yr adeiladau gwag yng nghanol ein trefi yn 13% ar hyn o bryd. Rydym yn ymroddedig i gefnogi ein busnesau lleol drwy’r heriau hyn a hyrwyddo creu busnesau newydd; fe wnaethom roi cymorth i 165 o fusnesau cyn-cychwyn a busnesau presennol drwy gydol eleni. Mae’n bwysig ein bod yn cefnogi’r cyfleusterau sy’n denu pobl i’n trefi. Rydym wedi parhau i wneud gwelliannau i wneud ein safleoedd ymwelwyr yn fwy hygyrch fel rhan o’n Strategaeth Treftadaeth, ac yn gweithio i ddeall a mynd i’r afael â’r rhwystrau ar gyfer y rhai nad ydynt yn mynychu.

Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig yn y sir. Mae hyn yn arwain at orddibyniaeth ar geir, sy’n creu rhwystrau i gael mynediad i hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer y rhai nad ydynt yn gyrru. Rydym wedi datblygu Strategaeth Trafnidiaeth Leol sy’n gosod uchelgais glir ar gyfer seilwaith trafnidiaeth yn Sir Fynwy. Rydym hefyd yn parhau i ddatblygu a gwella ein rhwydwaith teithio lleol, gyda mynediad i ganol trefi a chyrchfannau allweddol ar draws Sir Fynwy yn ganolog iddo.

## Amcan y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle sy’n ffynnu ac yn uchelgeisiol

| **Lle sy’n ffynnu ac yn uchelgeisiol** | | |
|---|---|---|
|   | **Sgôr gwerthusiad:** | Lefel 4 – Da - Cryfderau pwysig gyda rhai meysydd ar gyfer gwella – mae pwysau’r dystiolaeth yn dangos fod y llwyddiannau yn fwy na’r meysydd na chafodd eu chyflawni.<br><br>Rydym wedi datblygu ein strategaethau i gyflawni’r amcan. Rydym wedi rhoi cymorth i breswylwyr a busnesau i ennill sgiliau newydd, datblygu a thyfu a chyflenwi prosiectau i wella cysylltedd. Rydym yn adeiladu o sylfaen economaidd a sgiliau cryf. Dengys ein asesiad fod angen i ni dyfu’r sylfaen yma a rhoi cymorth a phrosiectau wedi eu targedu ar gyfer pobl, busnesau a’r mannau sydd fwyaf eu hangen. |

| **Pam ein bod ni’n canolbwyntio ar hyn?** |
|---|
| Mae ein man dechrau yn un cymharol gryf. Mae gan Sir Fynwy economi leol gref ac mae mewn sefyllfa dda ar gyfer twf yn nhermau Cymru. Mae cryfder mewn nifer o sectorau allweddol a gaiff eu hamlygu a’u cefnogi ar lefel genedlaethol. Mae cyfraddau cyflogaeth yn uchel, a felly hefyd lefelau cymwysterau. Ond gellir gwneud mwy. Gall Sir Fynwy fod yn fwy bywiog. Mae’r amodau yn bodoli i gyflawni hyn. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i gynyddu buddsoddiad, gwella cysylltedd a pharhau i ddatblygu economi sy’n llewyrchus, uchelgeisiol a mentrus. |

| **Pa mor dda ydyn ni’n cyflawni y deiliannau y gwnaethom gytuno arnynt?** | **Sut ydyn ni’n gwybod?** |
|---|---|
| **Yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni: canol trefi bywiog sy’n dod â phobl ynghyd ac yn denu buddsoddiad** | |
| **Cefnogi canol trefi bywiog**<br><br>Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda chynghorau tref a rhanddeiliaid allweddol eraill i yrru a goruchwylio datblygiad cynlluniau creu lle yn Nhrefynwy, y Fenni a Magwyr gyda Gwndy. Cynhaliwyd trafodaethau dechreuol gyda rhanddeiliaid lleol am gynllun creu lle newydd ar gyfer Cil-y-coed. Cafodd cyllid ei sicrhau o raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru i gefnogi datblygiad y cynlluniau. Mae her yn parhau i gael adnoddau ar gyfer cyflawni uchelgeisiau llawn y cynlluniau hyn. Mae ein ffocws ar gyflenwi prosiectau penodol, mewn cytundeb gyda phartneriaid, o fewn yr adnoddau sydd ar gael.<br><br>Fe wnaethom gynnal archwiliad manwl o adeiladau gwag yng nghanol trefi Cas-gwent a Threfynwy i ddeall y ffactorau sy’n effeithio ar gyfraddau uwch yn yr ardaloedd hyn a’r ffordd orau i’r cyngor a phartneriaid roi cymorth i leihau lleoedd gwag. Canfu hyn fod 13% o adeiladau yn wag. Rydym yn gweithio i ostwng y ffigur hyn drwy gynllun grant gwella adeiladau canol tref a ddefnyddir i helpu dod ag adeiladau gwag/sy’n cael eu tanddefnyddio yn ôl i ddefnydd. Rydym hefyd yn gweithio gyda Chyngor Tref Brynbuga i ddatblygu cynigion ar gyfer gwelliannau i’r parth cyhoeddus yn Stryd y Bont a Sgwâr Twyn. | Cynlluniau creu lleoedd<br><br>Archwiliad o adeiladau gwag yng nghanol trefi |

| | |
|---|---|
| Mae'r tir cyflogaeth sydd ar ôl o fewn ein Cynllun Datblygu Lleol presennol yn gyfyngedig. Mae hyn yn cyfyngu'r cyfleoedd sydd ar gael i fusnesau setlo a thyfu yn Sir Fynwy. Rydym wedi dyrannu 43 hectar o dir cyflogaeth o fewn ein Cynllun Datblygu Lleol Newydd i sicrhau ac annog twf busnes a chyfle o fewn y sir. | |
| **Parhau i gefnogi'r sector twristiaeth**<br><br>Rydym yn gweithredu ein Strategaeth Treftadaeth. Fel rhan o hyn yr ydym yn ymroddedig i wella hygyrchedd ein safleoedd. Rydym wedi comisiynu archwiliad hygyrched**d** o atyniadau a safleoedd ymwelwyr MonLife ac wedi lansio rhaglen grantiau bach i gefnogi gwelliannau mynediad mewn atyniadau a digwyddiadau ymwelwyr yn Sir Fynwy. Rydym hefyd yn datblygu gwybodaeth mynediad cyn ymweld ar gyfer holl atyniadau MonLife i'w gwneud yn haws i bobl gydag anghenion mynediad penodol i wirio os yw safle neilltuol yn hygyrch iddynt.<br><br>Mae angen i wneud mwy i ddenu ymwelwyr i'n safleoedd treftadaeth. Rydym wedi cwblhau arolwg ymwelwyr i ddeall sut y gallwn wneud y profiad yn well ar gyfer y rhai sy'n mynychu a deall y rhwystrau pam nad yw rhai yn mynychu. Bydd hyn yn sail i weithredu yn y dyfodol. Rydym yn parhau i ddarparu prisiau rhatach yn ein atyniadau, yn cynnwys ar gyfer gofalwyr maeth, i ostwng y rhwystrau ariannol i fynychu.<br><br>Rydym wedi cefnogi ein busnesau economi ymwelwyr i gael mynediad i deithio grŵp ac aelodau masnach teithio yn y DU a thramor i'w helpu wastatau brigau a chafnau mewn galw a rhoi ffynhonnell o archebion ymlaen llaw a gwarant incwm. Mae nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn a gefnogir gan dwristiaeth wedi cynyddu gan 7.6% rhwng 2019 a 2022 (3,356); mae nifer ymwelwyr hefyd wedi cynyddu gan 2.3% (2.34m) a chynyddodd effaith economaidd twristiaeth gan 3.7% (£285m). Mae hyn yn dangos fod y sector twristiaeth wedi parhau i dyfu tu hwnt i heriau'r pandemig a phwysigrwydd y sector twristiaeth wrth gefnogi cyflogaeth a'r economi yn ein sir. Mae angen i ni barhau i gynorthwyo'r sector twristiaeth drwy gyfnodau economaidd anodd a sicrhau profiad rhagorol i ymwelwyr. | Strategaeth Treftadaeth<br><br>Archwiliad hygyrchedd<br><br>Arolwg ymwelwyr<br><br>Data effaith twristiaeth |
| **Yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni: Pobl o bob oedran a chefndir â'r sgiliau i wneud yn dda mewn gwaith neu ddechrau eu busnes eu hunain** | |
| **Darparu cymorth a chyngor cyflogaeth i fusnesau**<br><br>Rydym wedi parhau i ddarparu cymorth i unrhyw un sydd â diddordeb mewn dechrau eu busnes eu hunain drwy Brosiect Busnes Sir Fynwy, gan baratoi ein preswylwyr yn well ar gyfer yr heriau a rhoi'r wybodaeth iddynt y maent ei hangen i ddechrau busnes. Rhoddwyd cymorth i 165 o fusnesau cyn-cychwyn a phresennol yn 23/24, yn uwch na'n targed cyfun o 160. Mae hyn yn cynnwys 80 o ddarpar entrepreneuriaid, oedd yn uwch na'n targed o 30, a 85 o fusnesau presennol yn y sir, sy'n is na'r targed o 130. Rydym wedi gwella ein cystadleuydd cymharol, a gaiff ei fesur gan Fynegai Cystadleurwydd y DU, gan gynyddu o 94.6 yn 2019 i 96.3 yn 2023.<br><br>Mae nifer y bobl hunangyflogedig yn ein sir yn gostwng; mae'r gyfradd hunangyflogaeth gyfredol yn 9.4%, o gymharu gyda 14.1% cyn y pandemig. Mae angen i ni gynyddu defnydd cymorth ar gyfer y rhai sy'n dymuno dechrau neu dyfu eu busnes eu hunain i sicrhau economi lleol ffyniannus. Rydym yn datblygu system rheoli perthynas cwsmeriaid fydd yn ein galluogi i gryfhau ein perthynas gyda busnesau cyn-cychwyn lleol a busnesau presennol a sicrhau eu bod yn gwybod am yr ystod cymorth sydd ar gael a sut y gallant gael mynediad iddo. | Cymorth entrepreneur a busnes<br><br>Cyfradd hunangyflogaeth<br><br>Cymorth cyflogaeth |

| | |
|---|---|
| Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i hyrwyddo arloesedd a rhannu arfer gorau. Mae Arweinydd a Phrif Weithredwyr ein cyngor yn parhau i fod yn weithgar yn y Porth Gorllewinol. Mae'r bartneriaeth hon yn ein helpu i gydweithio gyda llywodraeth leol, busnes a phartneriaid academaidd i yrru'r economi leol a hyrwyddo ein nod ar y cyd o sero net. Mae'r Arweinydd hefyd yn goruchwylio materion yn ymwneud ag ymchwil ac arloesedd fel rhan o Brifddinas Rhanbarth Caerdydd. Mae ystod o brosiectau ar draws nifer o'r rhain hefyd yn cael eu cyflwyno drwy Bartneriaeth Gororau Ymlaen, yn cynnwys datblygu a'r economi ymwelwyr, a gaiff ei arwain gan Sir Fynwy.<br><br>Rydym wedi darparu cymorth cyflogaeth i unigolion sy'n economaidd anweithgar, yn barod am waith neu'r rhai mewn gwaith sy'n dymuno uwchsgilio; cafodd 115 o bobl eu cefnogi i gyflogaeth drwy gydol y flwyddyn. Mae Parod am Waith (Cymunedau am Waith+) wedi cefnogi 108 o bobl i waith a 36 o bobl i ennill cymwysterau, sydd wedi gwella eu cyfleoedd economaidd. Rydym hefyd wedi darparu cwnsela ar gyfer 38 o breswylwyr sy'n economaidd anweithgar ac yn wynebu rhwystrau iechyd meddwl i waith. Yn dilyn cymorth mae angen i ni wella'r llwybr i gyfleoedd cyflogaeth. Mae hyn yn ffocw**s** yn ein Strategaeth Economi, Cyflogaeth a Sgiliau.<br><br>Rydym yn parhau i gefnogi rhwydwaith busnes bwyd a diod Sir Fynwy ac yn hwyluso digwyddiadau rhwydweithio bob 8 wythnos. Dywedodd busnesau'n mynychu eu bod yn gwerthfawrogi'r sgyrsiau a'r cyfleoedd rhwydweithio i rannu heriau a dysgu ac i wneud cysylltiadau newydd. Fe wnaethom roi cymorth i 54 menter yn ystod 23/24, ac mae 50 o bobl wedi mynychu hyfforddiant neu sesiynau gwybodaeth gyda ffocws ar gydweithio, twf busnes a llwybrau i'r farchnad. | |
| **Cefnogi preswylwyr i ennill y sgiliau maent eu hangen**<br><br>Rydym yn parhau i gefnogi ein preswylwyr i ennil**l** y sgiliau maent eu hangen: yn ystod eleni, cyflawnodd 720 sgiliau newydd neu gynyddu eu sgiliau. Mae rhaglen Lluosi wedi helpu 146 o gyfranogwyr i ennill sgiliau rhifyddol newydd ac ar hyn o bryd mae'n cefnogi 40 o unigolion i ennill cymhwyster TGAU mathemateg. Rydym hefyd wedi canolbwyntio ar hyfforddiant alwedigaethol, gan sefydlu sesiynau galw heibio wythnosol i gefnogi'r rhai sy'n dymuno cael cerdyn Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (CSCS) – yr ydym wedi cefnogi 30 o bobl i ennill un drwy gydol y flwyddyn. Mae cyfyngiadau ar y gyllideb yn cyfyngu cyrsiau pellach y gallwn eu hariannu i ateb y galw. Rydym yn cryfhau perthynas gyda darparwyr hyfforddiant i sicrhau y gall preswylwyr gael mynediad i fwy o gyfleoedd hyfforddi yn y sir. Mae angen i ni wella'r llwybr i gyflogaeth mewn sectorau sy'n wynebu heriau recriwtio rheolaidd tebyg i adeiladu. Mae hyn yn ffocws allweddol yn ein Strategaeth Economi, Cyflogaeth a Sgiliau.<br><br>Rydym yn meithrin perthynas gydag ysgolion a busnesau i alluogi mwy o'n hymadawyr ysgol i symud ymlaen i gyfleoedd gyda busnesau lleol, yn cynnwys drwy brentisiaetha**u**. Rydym wedi datblygu strategaeth STEM sy'n tynnu ynghyd y cwricwlwm STEM newydd gydag anghenion sgiliau busnesau cyfredol a darpar fusnesau, ac yn gweithio gyda nhw i ddatblygu cyfleoedd a llwybrau galwedigaethol ymhellach. Rydym wedi datblygu Canllawiau Pontio Ôl-16 i'w rhannu gyda'n hysgolion sy'n rhoi trosolwg o bontio ar gyfer pob person ifanc yn Sir Fynwy ac sy'n cynnwys syniadau am weithgareddau pontio ôl-16 y gall ysgolion a lleoliadau ôl-16 eu gwneud i gyfoethogi profiad ein pobl ifanc. Mae'r canllawiau yn anelu i helpu i atal pobl ifanc rhag dod yn NEET (heb fod mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth).<br><br>Rydym wedi diwygio ein Dull Dynodi Cynnar, sy'n ein helpu i ddynodi'r disgyblion hynny sydd mewn mwyaf o risg o ddod yn NEET ac sy'n traws-gyfeirio pobl ifanc risg uchel ar draws llwythi achos i sicrhau fod darpariaeth a chymorth yn ei le. Cafodd hyn ei rannu gydag ysgolion a gyda thimau yn cefnogi dysgwyr bregus. Rydym wedi parhau i weithio gyda Coleg Gwent i gefnogi ein partneriaeth atal NEET leol, y Grŵp Cadw mewn Cysylltiad. | Rhaglenni sgiliau<br><br>Strategaeth NEET |

| | |
|---|---|
| Rydym wedi ymgysylltu gyda phob coleg lleol fel rhan o'n cyfrifoldebau Ymgysylltu a Chynnydd Ieuenctid. Mae gan Sir Fynwy nifer sylweddol o golegau fel cyrchfannau ôl-16; mae angen i ni ddatblygu perthynas gref gyda phartneriaid i gefnogi pontio ôl-16. Ni fu newid yn y canran o ymadawyr ysgol heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar 1.8%, ychydig yn uwch na'n targed o 1.6%. Mae angen i ni ddefnyddio yr hyn y gwnaethom ei ddysgu i ddatblygu ein strategaeth NEET.<br><br>Mae ein gweithwyr cymorth ymadawyr gofal yn mynychu cyfarfodydd Cadw mewn Cysylltiad yn rheolaidd i sicrhau y gall unrhyw ymadawyr gofal nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac sydd angen cymorth gael mynediad i hynny drwy raglenni atal NEET. Roedd y canran o ymadawyr gofal sydd wedi cwblhau o leiaf 3 mis olynol o gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant ers gadael gofal yn 52.5% yn 23/24. Byddwn yn gwella ein cyswllt gydag ymadawyr gofal i ostwng y nifer sy'n dod yn NEET. | |
| **Yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni: Trafnidiaeth a Seilwaith Cynaliadwy** | |
| **Cefnogi datblygu system trafnidiaeth gynaliadwy**<br><br>Rydym wedi datblygu Strategaeth Trafnidiaeth Leol sy'n nodi uchelgais clir ar gyfer seilwaith trafnidiaeth yn Sir Fynwy dros y pum mlynedd nesaf. Byddwn yn datblygu rhwydwaith trafnidiaeth integredig parod i'r dyfodol sy'n diwallu anghenion trafnidiaeth ein cymunedau mewn ffordd gynaliadwy, gydag anghenion ein preswylwyr a hefyd yr amgylchedd yn ganolog. Gwyddom fod cael system drafnidiaeth sy'n diwallu anghenion ein cymunedau yn hanfodol wrth fynd i'r afael â'r ynysigrwydd a'r diffyg cydraddoldeb a all ddigwydd fel canlyniad i natur wledig ein sir.<br><br>Rydym yn gwella seilwaith safleoedd bws wrth i gyllid ddod ar gael, gyda'r nod o ddarparu gwasanaethau bws creiddiol aml a gynlluniwyd i weddu ein trefi yn y ffordd orau. Rydym eisiau sicrhau gwasanaethau sy'n ddibynadwy ac uniongyrchol gyda gwell amserau teithio i gael pobl i ble mae angen iddynt fod. Caiff gwasanaethau eilaidd llai aml, ar alw a chymunedol eu ffurfio o amgylch y rhwydwaith creiddiol hwn.<br><br>Rydym yn lobio Network Rail i wneud gorsafoedd trenau yn hygyrch yn gorfforol i bawb, gan gefnogi cynigion Metro De Cymru, ac yn parhau i ymgyrchu dros gynyddu amlder gwasanaethau. Fe wnaethom gymeradwyo cynigion ar gyfer gorsaf newydd ym Magwyr ac amlder gwasanaethau i ddau dren yr awr i Gas-gwent. Rydym hefyd yn gweithio ar gynigion i wella mynediad ar fws i'r orsafoedd y Fenni, Cas-gwent a Chyffordd Twnnel Hafren.<br><br>Rydym yn gweithio gyda darparydd i ymchwilio opsiynau gweithredu cynllun peilot car cronfa fydd yn gwella mynediad i geir cronfa. Mae gwaith caffael yn mynd rhagddo i lansio cynllun dechreuol o 10 cerbyd trydan/hybrid. Bydd y cynllun hwn yn helpu i ostwng yr allyriadau carbon a gynhyrchir yn y sir a helpu'r rhai sy'n wynebu anawsterau mewn teithio o amgylch y sir.<br><br>Rydym wedi parhau i gynnal a chaw ein priffyrdd allweddol sicrhau fod gan y cyhoedd sy'n teithio rwydwaith ffyrdd strategol diogel ac effeithiol. Drwy gydol eleni, sicrhawyd 100% o'r gwaith cynnal a chadw a gynlluniwyd yn y rhaglen. Mae nifer o bwysau ôl-groniad yn parhau i fod ar gyfer ein seilwaith priffyrdd na fedrwn fforddio eu hariannu yn ein cyllideb gyfalaf. Bu lefelau amrywiol o risg yn gysylltiedig â nhw ac effaith ar gyflwr ein rhwydwaith ffyrdd. Caiff asesiadau annibynnol o gyflwr seilwaith priffyrdd allweddol eu cwblhau fel sydd angen yn dibynnu ar y cyflwr, ac mae'r rhain yn llywio blaenoriaeth y gyllideb gyfalaf sydd ar gael i ariannu cynnal a chadw. | Strategaeth Trafnidiaeth Leol<br><br>Rhaglen wedi ei chynllunio ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd |

| Datblygu llwybrau teithio llesol | |
|---|---|
| Rydym wedi ehangu ein rhwydwaith teithio llesol eleni drwy ddefnyddio £500k o gyllid craidd a sicrhau £6.9m ychwanegol o gyllid drwy'r Gronfa Teithio Llesol. Dyma'r ail flwyddyn yn olynol i ni sicrhau'r swm mwyaf o gyllid yng Nghymru. Gwnaethom ddefnyddio hwn i wneud gwelliannau o amgylch y sir, yn cynnwys gosod cyrbin isel i wella'r rhwydwaith teithio llesol. Rydym hefyd wedi creu neu wella 20 llwybr teithio llesol drwy gydol y flwyddyn, gan ragori ar ein targed o 18. Ar hyn o bryd mae gennym 100 llwybr teithio llesol ar waith a 20 yn cael eu datblygu. Mae hyn yn cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio teithio llesol yn y sir a chefnogi preswylwyr ac ymwelwyr i gerdded a seiclo.<br><br>Mae dangosfwrdd cyfrif teithio llesol byw yn awr yn llwyr weithredol, gyda 6 safle cyfrif byw yn lanlwytho gwybodaet**h** ddwywaith y dydd. Mae gennym bellach fesuriadau data llinell sylfaen a byddwn yn medru monitro defnydd ein rhwydwaith I gymharu â hynny. Cafodd dull cyfrif cefn gwlad hefyd eu cynnwys I roi un ffynhonnell o draffig troed a seiclo o fewn MonLife. Rydym yn gweithio i sicrhau fod gan safleoedd yng Nghynllun Datblygu Lleol y dyfodol y potensial mwyaf posibl ar gyfer teithio llesol, gyda mynediad i ganol trefi a chyrchfannau allweddol ar draws Sir Fynwy wrth galon datblygu teithio llesol. | Nifer y llwybrau teithio llesol a gaiff eu creu neu eu gwella |
| **Meysydd pellach i'w datblygu a ddynodwyd drwy ein hunanasesiad 2023/24** | |
| | |

**Effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

| **Cyfraniad nod y Cyngor at Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru sy'n fwy cyfartal7 | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

***Amcan llesiant: Lle sy'n ffynnu ac sy'n uchelgeisiol***

Anelwyd y nod hon at hyfywedd **hirdymor** Sir Fynwy fel lle llewyrchus i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef. Mae lleoliad Sir Fynwy fel y porth i Dde Ddwyrain Cymru yn golygu fod yn rhaid ni gofleidio gweithio gydag ardaloedd cyfagos i gynyddu cyfleoedd i'r eithaf. Mae cadw Sir Fynwy yn llewyrchus a gyda chysylltiadau yn hyrwyddo **integreiddio** ac yn effeithio ar les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y sir. Mae hyn yn galw am **gydweithio** gyda busnesau lleol a sefydliadau eraill, ac **ymgyfraniad** y gymuned leol i uchafu cyfleoedd. Mae hefyd yn bwysig ystyried llesiant byd-eang Cymru ac mae ffocws y nod hon ar sicrhau y caiff penderfyniadau eu gwneud gyda chenedlaethau'r dyfodol mewn sylw ac yn cymryd dull **ataliol** i gefnogi cadw pobl ifanc.

| Mesurau cynnydd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mesur** | **Blaenorol** | **Diweddaraf** | **Targed 2023/24** | **Golwg Gyflym** | **Sylwadau** |
| Effaith economaidd blynyddol twristiaeth (£)[xii] | 182.79m | 285.08m | 3.8% twf pa | ↑ | Y diweddaraf yw 2022, y blaenorol yw 2021. Caiff data 2023 ei ychwanegu unwaith y bydd ar gael. |
| Nifer busnesau cyn-cychwyn a busnesau presennol a gafodd gymorth yn ystod y flwyddyn gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid. | 55 | 165 | 160 | ↑ | Mae hyn yn adlewyrchu ffigurau blynyddol ac yn gysylltiedig gyda'r cyllid sydd ar gael bob blwyddyn a maint a graddfa y prosiectau a gyflwynwyd. |
| Nifer y bobl oedran gwaith a gefnogwyd i gyflogaeth yn ystod y flwyddyn drwy weithredu gan yr awdurdod lleol. | 142 | 115 | 90 | ↓ | Mae hyn yn adlewyrchu ffigurau blynyddol ac yn gysylltiedig gyda'r cyllid sydd ar gael bob blwyddyn a maint a graddfa y prosiectau. |
| Canran ymadawyr ysgol heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant[xiii] | 1.8 | 1.8 | 1.6 | ↔ | |
| Canran pobl ifanc gyda phrofiad o ofal sydd wedi cwblhau o leiaf dri mis mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. | - | 52.5 | 74.5 | Mesur newydd ei adolygu | Diwygiwyd y mesur yn unol â Fframwaith Gwella Perfformiad Llywodraeth Cymru i gynnwys ymadawyr gofal hyd at 21 oed o 19 Caiff y targed ei ddiwygio yn unol â'r newid. |
| Canran fflyd cerbydau awdurdod lleol sydd yn allyriadau isel iawn | 8.4 | 10.2 | 9 | ↑ | |
| Nifer llwybrau teithio llesol a gafodd eu creu neu eu gwella | 17 | 20 | 18 | ↑ | Mae hyn yn adlewyrchu ffigurau blynyddol ac yn gysylltiedig â'r cyllid sydd ar gael bob blwyddyn a maint a graddfa y prosiectau a gyflenwyd. |
| Nifer y llwybrau teithio llesol sy'n cael eu datblygu[xiv] | 16 | 20 | 16 | ↑ | |

Golwg Gyflym ar y Tueddiad: ↑ Perfformiad yn gwella; ↓ Perfformiad yn gwaethygu; ↔ Dim newid yn y perfformiad
Golwg Gyflym o'r Targed: Gwyrdd – cyflawni'r targed; oren – methu'r targed o ychydig; coch – methu'r targed o gryn dipyn

## Lle diogel i fyw



### Yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni:

- Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy ansawdd da
- Gostwng nifer y bobl sy'n dod yn ddigartref
- Stoc tai mwy effeithiol o ran ynni gydag ôl-troed carbon is
- Cymunedau lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel ac yn parchu ei gilydd

## Asesiad strategol

Mae Sir Fynwy yn lle gwirioneddol dda i fyw, ond sylweddol nad yw hynny'n wir i bawb. Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i wneud yn siŵr fod gan bawb le diogel i fyw. Mae prisiau tai yma ymysg yr uchaf yng Nghymru, gyda phris cyfartalog tai dros £350k sy'n naw gwaith yr enillion cyfartalog yn y sir. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i brynu neu rentu yn Sir Fynwy. Dyna pam fod fforddiadwyedd wrth galon ein huchelgais yn ein Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer ein sir. Mae'r oedi wrth fabwysiadu'r cynllun hwn wedi cyfyngu ar y cynnydd a wnaethom yn cynyddu cyflenwad cartrefi fforddiadwy.

Mae prisiau tai uchel, prinder llety rhent preifat fforddiadwy a'r cynnydd mewn costau byw i gyd wedi cyfrannu at broblem gynyddol gyda digartrefedd yn y sir. Gan gydweithio gyda phartneriaid tai, yr ydym wedi gweithredu rhaglen Ailgartrefu Cyflym. Mae hyn wedi cynyddu atal digartrefedd. Rydym wedi gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol a phreifat a dechrau ailbwrpasu ein heiddo ein hunain i gynyddu nifer y cartrefi dros dro a sefydlog sydd ar gael ar gyfer aelwydydd digartref ac arweiniodd hynny at ostwng y defnydd o lety Gwely a Brecwast.

Rydym eisiau i bawb deimlo'n ddiogel yn Sir Fynwy. Mae preswylwyr wedi mynegi pryderon am ddiogelwch a bu cynnydd bach yn y cyfraddau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Rydym wedi gweithio gyda phobl ifanc i drin eu pryderon am droseddau cyllyll ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol ac wedi ymestyn gorchmynion diogelu mannau cyhoeddus i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol. Rydym wedi gweithio gyda'r heddlu a phartneriaid ar draws y rhanbarth i ddatblygu strategaeth sy'n anelu i atal y mathau mwyaf difrifol o drais ledled Gwent.

## Amcan y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle diogel i fyw

<table>
<tr><th colspan="3">Amcan: Lle diogel i fyw</th></tr>
<tr><td>
</td><td>Sgôr Gwerthusiad:</td><td>Lefel 4 – Cryfderau pwysig gyda rhai meysydd i'w gwella – mae pwysau'r dystiolaeth fod y llwyddiannau yn fwy na'r meysydd na chafodd eu cyflawni.<br><br>Rydym wedi llunio ein huchelgais ar gyfer datblygiad yn y sir ac wedi gweithredu prosiectau i gefnogi cyflawni ein amcan. Dengys ein asesiad fod yr oedi mewn symud ymlaen â'n cynlluniau wedi cyfyngu'r effaith a gawsom i gyflawni ein hamcan yn y tymor byr.</td></tr>
<tr><td colspan="3">Pam ein bod ni'n canolbwyntio ar hyn?</td></tr>
<tr><td colspan="3">I'r rhan fwyaf o bobl, mae Sir Fynwy yn lle gwirioneddol da i fyw, ond nid i bawb. Mae angen i hyn newid. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i greu lle diogel y mae pobl yn falch i'w alw'n gartref, cynyddu'r tai fforddiadwy ansawdd uchel sydd ar gael, gostwng digartrefedd a hyrwyddo dulliau i helpu perchnogion tai i wella effeithiolrwydd ynni a gostwng allyriadau carbon.</td></tr>
</table>

| Pa mor dda ydyn ni'n cyflawni y deilliannau a gytunwyd? | Sut ydyn ni yn gwybod? |
|---|---|
| **Yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni: cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy ansawdd da** | |
| **Llunio Cynllun Datblygu Lleol Newydd**<br><br>Rydym wedi llunio ein Cynllun Datblygu Lleol Newydd fydd yn gosod yr uchelgais ar gyfer datblygu o fewn ein sir. Rydym wedi sicrhau fod tai fforddiadwy yn ganolog i'r cynllun drwy ddyrannu 50% o dai fforddiadwy ar bob safle a chyflwyno polisïau galluogi fydd yn caniatáu mwy o ddatblygiadau tai fforddiadwy. Mae hyn yn cynnwys hwyluso mwy o lety person sengl yn y sir sydd yn gyfyngedig tu hwnt ar hyn o bryd ac yn ffactor sy'n cyfrannu at ddigartrefedd.<br><br>Rydym wedi adfywio Asesiad Marchnad Tai Leol 2022-37 sydd wedi dynodi angen net am 499 o dai fforddiadwy ychwanegol bob blwyddyn hyd at 2027. Mae'r oedi parhaus mewn cynyddu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd wedi golygu y cafodd cyflenwi tai fforddiadwy ei gyfyngu yn y tymor byr oherwydd fod faint o dir datblygu sydd ar ôl yn gyfyngedig; dim ond 46 o gartrefi fforddiadwy a gymeradwywyd yn ystod 23/24. Mae ein ffocws ar sicrhau y gall y Cynllun Datblygu Lleol Newydd fynd i'r afael â chymaint o'r anghenion hyn a ddynodwyd ag sy'n bosibl oherwydd cyfyngiadau polisi ehangach, gan hefyd fod yn ddigon hyblyg i addasu i anghenion y farchnad wrth iddynt addasu .<br><br>Mae risg na fyddwn yn medru symud ymlaen gyda'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd Adnau os na chaiff safleoedd priodol eu dynodi ar gyfer Sipsiwn Roma a Theithwyr. Mae'r Cabinet wedi dynodi safleoedd posibl ar gyfer ymgynghori yn dilyn asesiadau gan swyddogion ar dir y mae'r cyngor yn berchen arno. Caiff penderfyniad y Cabinet ar ba rai o'r safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr eu cynnwys yn y Cynllun Adnau a chânt eu llywio gan ganfyddiadau yr ymgynghoriad cyhoeddus manwl. | Drafft Gynllun Datblygu Lleol Newydd<br><br>Adfywio'r Farchnad Tai Leol 2022-37 |

| | |
|---|---|
| **Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu mwy o eiddo gwag yn ôl i ddefnydd**<br><br>Rydym wedi cynyddu gweithredu i ostwng nifer yr eiddo gwag ar draws y sir ac wedi gweithredu dull sy'n mynd ati mewn modd cadarnhaol i gysylltu gyda pherchnogion i gynnig cyngor a chymorth i helpu a'u hannog i ddod â'u cartref yn ôl i ddefnydd. Mae hyn yn cynnwys llythyrau yn rhoi gwybodaeth am wahanol grantiau a benthyciadau sydd ar gael, yn cynnwys y Grant Cartrefi Gwag. Mae'r ymdrechion hyn wedi arwain at 36 cais am y Grant Cartrefi Gwag a phedwar ymholiad ar brydlesu eiddo fel llety dros dro i'r digartref. Rydym hefyd wedi cyflwyno dulliau mwy ffurfiol i helpu mynd i'r afael â nifer uchel o eiddo gwag o fewn y sir. Mae hyn yn cynnwys premiwm Treth Gyngor ar eiddo gwag hirdymor. Drwyddi draw, mae ein dull gweithred**u** wedi gostwng y nifer o gartrefi gwag hirdymor a gofnodwyd o 541 i 447 fel ar gam bilio 2024/25: o'r rhain cofnodwyd y bu 366 yn wag am dros 12 mis a byddant yn awr yn gorfod talu'r premiwm Treth Gyngor. | Nifer y ceisiadau a gafwyd am y Grant Cartrefi Gwag a defnydd tai dros dro<br>Nifer o gartrefi gwag hirdymor |
| **Yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni: Gostwng nifer y bobl sy'n dod yn ddigartref** | |
| **Atal digartrefedd drwy ailgartrefu cyflym**<br><br>Drwy Ailgartrefu Cyflym yr ydym wedi hwyluso mwy o adnoddau i atal digartrefedd, er enghraifft drwy staffio ychwanegol ac argaeledd y Gronfa Atal Digartrefedd. Rydym yn gweithio gydag asiantaethau partner fel yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r SRS i gefnogi mwy o pobl sydd mewn risg o ddod yn ddigartref. Rhoddwyd cyfanswm o 261 dyfarniad yn ystod blwyddyn ariannol 2023-2024 i aelwydydd mewn risg o fod yn ddigartref i helpu mynd i'r afael ag ôl-ddyledion/dyledion a hefyd aelwydydd sy'n ddigartref i'w galluogi i aros yn eu llety presenno**l** neu gael mynediad i lety arall.<br><br>Rydym wedi ailfodelu ein gwasanaeth Cymorth Tai i gynnwys cymorth penodol ar gamddefnyddio sylweddau, cymorth llety dros dro a chymorth ail-setlo. Mae hyn wedi cynnwys cymorth arbennig ar gyfer pobl ifanc gydag angen uwch drwy ehangu cynllun Tai yn Gyntaf gyda Pobl yn ddiweddar a chyflwyno MoYo – cymorth tai fel y bo angen ar gyfer pobl ifanc. Cyfrannodd y cynlluniau hyn at y cynnydd yn y canran o geisiadau digartref a gaiff eu hatal yn llwyddiannus rhag dod yn ddigartref o 50% ar ddiwedd blwyddyn 22/23 i 71% ar ddiwedd blwyddyn 23/24. Mae galw am fwy o gymorth, yn arbennig ar gyfer pobl ifanc a'r rhai sydd ag anghenion iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.<br><br>Mae angen i ni fynd i'r afael â'r heriau sydd ar ôl yn cynnwys diffyg llety dros dro, llety â chymorth a llety parhaol. Bydd ffocws y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar ddarpariaeth tai fforddiadwy yn ein helpu i fynd i'r afael â pheth o'r angen hwn, yn arbennig y galw am lety i bobl sengl, y mae cyflenwad cyfyngedig ohono. Rydym yn ymdrechu i ddarparu mwy o lety sefydlog ar gyfer y nifer cynyddol o aelwydydd digartref mewn llety dros dro, gyda 161 ohonynt ar ddiwedd blwyddyn 23/24.<br><br>Rydym yn cydweithio ar draws gwasanaethau'r cyngor i atal ymadawyr gofal rhag dod yn ddigartref. Cynhaliwn Banel Rhianta Corfforaethol yn rheolaidd gydag ystod o dimau o bob rhan o'r sefydliad sy'n cydlynu a darparu cymorth i ymadawyr gofal. Mae rhai ymadawyr gofal yn dal i brofi digartrefedd. Yn ystod y flwyddyn, bu 8 o ymadawyr gofal yn ddigartref o fewn 12 mis o adael gofal, cynnydd o 5 y flwyddyn flaenorol. | Nifer grantiau a ddyfarnwyd<br><br>Data digartrefedd |
| **Gostwng y defnydd o lety Gwely a Brecwast**<br><br>Rydym yn cynyddu'r cartrefi dros dro a hefyd sefydlog sydd ar gael ar gyfer aelwydydd digartref drwy amrywiaeth o ddulliau yn cynnwys partneriaethau gyda landlordiaid preifat drwy Monmouthshire Lettings a mwy o gartrefi drwy ddatblygiadau adeiladu newydd a chaffaeliadau. | Data digartrefedd |

| | |
|---|---|
| Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid mewn cymdeithasau tai i ddarparu mwy o dai cymdeithasol anghenion cyffredinol ar gael ar gyfer aelwydydd digartref, ac mae'r gyfran wadi cynyddu o 47% yn 2021/22 i 57% ar ddiwedd blwyddyn 23/24. Mae angen i ni benderfynu faint o gwmpas sydd i ddyrannu mwy o dai cymdeithasol i ymgeiswyr digartref heb effeithio'n ormodol ar grwpiau eraill sydd ag angen tai.<br><br>Rydym wedi dechrau sicrhau llety ar gyfer defnydd llety dros dro a rhoddwyd y gymeradwyaeth gyntaf i ailbwrpasu eiddo amaethyddol y mae'r cyngor yn berchen arno. Rydym wedi datblygu cynnig i ailbwrpasu cartref preswyl Severn View ar gyfer llety dros dro. Mae'r cymorth cynyddol ar gyfer y rhai sydd mewn risg o ddigartrefedd, ynghyd â'r cynnydd yn y llety dros dro a hefyd y llety sefydlog sydd ar gael wedi cyfrannu at ostwng y defnydd o lety gwely a brecwast. Gostyngodd nifer yr aelwydydd digartref mewn llety gwely a brecwast o 92 ar ddiwedd blwyddyn 22/23 i 46 ar ddiwedd blwyddyn 23/24. Mae nifer y bobl ifanc 16 a 17 oed mewn llety gwely a brecwast wedi parhau yn sero ar gyfer 23/24. | |
| **Yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni: Stoc tai mwy effeithiol o ran ynni gyda llai o ôl-troed carbon** | |
| **Gweithio gyda phartneriaid I wella effeithiolrwydd ynni stoc tai**<br><br>Rydym yn parhau i gefnogi aelwydydd incwm isel i gael mynediad i gyllid grant i wella effeithiolrwydd ynni eu cartrefi. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo Eco4, cynllun sy'n darparu cyllid i alluogi aelwydydd incwm isel ac unigolion sy'n byw gyda chyflyrau meddygol a gaiff eu gwaethygu gan leithder neu oerfel i gael mynediad i welliannau effeithiolrwydd ynni. Rydym wedi cwblhau cylch cyntaf caffael gosodwyr ac yn ystod 23/24 fe wnaethom ddarparu 10 datganiad Eco4 yn cadarnhau cymhwyster ar gyfer y cynllun. Rydym yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i ddynodi problemau gyda chlefydau anadlu neu imiwnedd cyfyngedig a all fod yn gymwys am y cynllun hwn i sicrhau y gallant gael yr uchafswm cymorth y mae ganddynt hawl iddo.<br><br>Rydym wedi llunio'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd fydd yn gosod yr uchelgais ar gyfer datblygu o fewn ein sir. Bydd pob cartref a ddatblygwyd dan y cynllun hwn yn sero net o ran carbon. Yn ogystal â helpu i ostwng ein allyriadau carbon bydd hyn hefyd yn helpu i ostwng costau ynni ar gyfer ein preswylwyr. | Nifer y bobl a gefnogwyd i gael mynediad i Eco4 |
| **Yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni: Cymunedau lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel ac yn parchu ei gilydd** | |
| **Gweithio gyda phartneriaid i ostwng ymddygiad gwrthgymdeithasol**<br><br>Rydym yn gweithio i wella'r berthynas rhwng pobl ifanc a heddlu lleol drwy wahodd heddlu yn rheolaidd i'n canolfannau ieuenctid i ymgysylltu gyda phobl ifanc a deall yr hyn sy'n bwysig iddynt. Buom yn gweithio gyda phobl ifanc yn Nhrefynwy i drin pryderon am droseddau cyllyll ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal: sicrhawyd £10k o gyllid grant gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i dargedu pobl ifanc sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae cyfradd digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth wedi cynyddu o 10.6 i 13.1.<br><br>Fe wnaethom ymestyn tri Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus ym Mharc Bailey, y Fenni Isaf a Threfynwy i fynd i'r afael ymhellach ac atal ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal i sicrhau fod ein trefi yn amgylcheddau diogel a chroesawgar. | Strategaeth Atal Trais Difrifol Gwent<br><br>Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol |

| | |
|---|---|
| Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid I ddatblygu Strategaeth Atal Trais Difrifol Gwent 2024/25. Mae hyn wedi helpu i ddynodi a mynd I'r afael â blaenoriaethau trais difrifol ar draws Sir Fynwy Mae Grŵp Sir Fynwy Ddiogelach yn gweithio gyda phartneriaid ac asiantaethau allweddol i sicrhau y caiff ymyriadau a gweithgaredd eu cyflenwi ar draws y sir. Mae hyn yn cynnwys deall achosion trais difrifol I'n galluogi I ganolbwyntio ar atal trais. Mae bylchau data a gwybodaeth sydd wedi cyfyngu datblygu'r cynllun cyflenwi. Mae mynd i'r afael â hyn yn flaenoriaeth a chaiff y strategaeth ei hadnewyddu ar gyfer 2025 ymlaen, wedi seilio gan dystiolaeth bellach a gasglwyd.<br><br>Datblygwyd a chytunwyd ar strategaeth rhanbarthol Gwent ar drais yn erbyn menywod, trais domestig a thrais rhywiol. Mae'r strategaeth yn cael ei gweithredu yn awr drwy drefniadau partneriaeth. | |
| **Gweithio gyda chymunedau i gadw ein sir yn lân**<br><br>Fe wnaethom ni, ynghyd â chynghorau tref a chymuned, gynnal diwrnod ymwybyddiaeth baw cŵn yn y Fenni a'r Goetre i gyfnerthu'r negeseuon i berchnogion cŵn i lanhau ar ôl eu hanifeiliaid anwes. Datblygwyd ac ymgynghorwyd ar Orchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus ar faw cŵn sy'n rhoi nifer o fesurau i ddiogelu mwynhad pawb o fannau agored a'r holl dir cyhoeddus yn Sir Fynwy. Yn seiliedig ar yr ymgynghoriad, yr ydym wedi cytuno a chyflwyno mesurau mwy llym ar ofodau cyhoeddus ar draws y sir i helpu mynd i'r afael â baw cŵn. Mae'r rhain yn cefnogi ein mannau cyhoeddus i fod yn lân, gydag effaith gyfyngedig ar eu hamgylchedd.<br><br>Ymchwiliwyd 619 o ddigwyddiadau diogelu'r amgylchedd (baw cŵn, taflu sbwriel, tipio anghyfreithlon ac yn y blaen) yn ystod 2023/24 ac ymatebodd I 84% ohonynt mewn 3 diwrnod. Roedd hyn yn cynnwys ymchwilio 276 achos o dipio anghyfreithlon a llywio gweithredu rhagweithiol i ostwng tipio anghyfreithlon sy'n effeithio ar ein hamgylchedd lleol. Arweiniodd tystiolaeth a gasglwyd at un hysbysiad cosb sefydlog ac achos erlyn traws-ffin oedd yn cynnwys pedwar digwyddiad tipio anghyfreithlon yn Sir Fynwy.<br><br>Buom yn gweithio gyda grwpiau cymunedol a Cadwch Gymru'n Daclus i roi cymorth ar gyfer helfeydd sbwriel lleol a gweithredu hybiau casglu sbwriel. Buom yn gweithio gydag ymgyrch Cadwch y Fenni yn Daclus yn targedu busnesau yn y Fenni; llofnododd chwe busnes i ddod yn Barth Dim Sbwriel. | Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus<br><br>Digwyddiadau diogelu'r amgylchedd |
| **Meysydd pellach i'w datblygu a ddynodwyd drwy ein hunanasesiad 2023/24** | |

**Effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

**Cyfraniad nod y Cyngor at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

| **Cymru lewyrchus** | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ |

***Amcan Llesiant: Lle Diogel i Fyw***

Mae'n bwysig fod y cyngor yn **cydweithio** gyda phartneriaid ac yn **integreiddio** gyda'u cynlluniau i ostwng digartrefedd a sicrhau y gall pobl aros yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain lle bynnag sy'n bosibl. Mae **cynnwys** a gweithio gyda phartneriaid ac aelodau'r gymuned yn hanfodol i ddatblygu cymunedau lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel ac yn parchu ei gilydd. Mae gan y Cynllun Datblygu Lleol newydd ffocws ar yr **hirdymor** ac mae tai fforddiadwy a datblygiad carbon sero net gyda chysylltiadau da yn ganolog iddo. Mae ffocws ar **atal** problemau rhag digwydd yn hanfodol i greu lle diogel y mae pobl yn falch i'w alw'n gartref.


**Mesurau cynnydd**

| **Mesur** | **Blaenorol** | **Diweddaraf** | **Targed 2023/24** | **Golwg Gyflym** | **Sylw** |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer cartrefi fforddiadwy a gafodd ganiatâd cynllunio yn ystod y flwyddyn | 50 | 46 | N/A | ↓ | Mae hwn yn darged blynyddol gyda'r ffigur diweddaraf yn dangos argaeledd tir yn y Cynllun Datblygu Lleol gwaddol a chyfyngiadau fel canlyniad i ffosffadau. Mae'r targed yn cael ei adolygu ar hyn o bryd i sicrhau ei fod yn gydnaws gyda'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. |
| Amser cyfartalog (misoedd) y mae aelwydydd digartref yn ei dreulio ym Mand 1 gyda dyletswydd digartref cyn symud ymlaen i lety sefydlog/parhaol | 10.2 | 11.5 | <10 | ↓ (coch) | |
| Canran ceisiadau digartref a gaiff eu hatal yn llwyddiannus rhag dod yn ddigartref | 50 | 71 | 55 | ↑ (gwyrdd) | |
| Nifer aelwydydd digartref mewn llety gwely a brecwast | 92 | 46 | 75 | ↑ (gwyrdd) | Data fel ar 31 Mawrth |
| Nifer pobl ifanc 16 a 17 oed mewn llety gwely a brecwast | 0 | 0 | 0 | ↔ (gwyrdd) | Data fel ar 31 Mawrth |
| Nifer aelwydydd digartref mewn llety dros dro | 117 | 161 | 176 | ↓ (gwyrdd) | Data fel ar 31 Mawrth |

Golwg Gyflym ar y Tueddiad: ↑ Perfformiad yn gwella; ↓ Perfformiad yn gwaethygu; ↔ Dim newid yn y perfformiad

Golwg Gyflym o'r Targed: Gwyrdd – cyflawni'r targed; oren – methu'r targed o ychydig; coch – methu'r targed o gryn dipyn

## Lle cysylltiedig gyda phobl sy'n gofalu



### Yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni:

- Gofal cymdeithasol ansawdd uchel sy'n galluogi pobl i fyw eu bywydau ar eu telerau eu hunain
- Sir Fynwy iach ac egnïol lle caiff unigrwydd ac arwahanrwydd eu gostwng, y caiff llesiant ei hyrwyddo, ac y caiff pobl eu diogelu
- Gweithlu gofal cymdeithasol proffesiynol ac angerddol

## Asesiad strategol

Mae gan Sir Fynwy hanes llwyddiannus o ddulliau gweithredu arloesol a gwaith partneriaeth cyfoethog mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gweithio yn y ffordd hon yn parhau'n hanfodol i ateb pwysau ar wasanaethau a fydd yn sicr o dyfu gyda'r cynnydd a ragwelir yn y boblogaeth hŷn yn Sir Fynwy. Rydym wedi gweithio i sicrhau y caiff pobl eu rhyddhau o'r ysbyty yn brydlon, wedi helpu pobl hŷn fregus i adennill eu hannibyniaeth, wedi datblygu strategaeth tymor hirach ar gyfer gofal yn y cartref ac agor cartref gofal arbenigol pwrpasol newydd. Mae hyn eisoes wedi cynyddu'r gofal sydd ar gael ar gyfer preswylwyr sydd ei angen a gosod ein llwybr ar gyfer strategaeth tymor hirach i ateb galw cynyddol. Rydym hefyd wedi datblygu strategaeth recriwtio a chadw i gynnal y gweithlu gofal cymdeithasol yr ydym ei angen.

Mae help cynnar yn hanfodol i atal plant rhag dod i ofal yr awdurdod lleol. Dyna pam ein bod wedi sefydlu dull gweithredu cydlynus at ymyriad cynnar mewn gwasanaethau cymdeithasol plant a goruchwylio gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. Rydym wedi cynhyrchu strategaeth newydd i ddatblygu mwy o leoliadau preswyl a llety â chymorth yn y sir. Bydd hyn yn sicrhau y gall plant gadw cysylltiadau lleol a sefydlogrwydd sydd ei fawr angen yn eu bywydau.

Mae pobl yn byw yn hirach ac yn iachach yma nag yn y rhan fwyaf o leoedd eraill yng Nghymru. Mae disgwyliad oes iach yn uwch na'r cyfartalog ar gyfer Cymru a'r Deyrnas Unedig. Mae hyn yn cuddio diffyg cydraddoldeb ar lefel leol gyda bwlch mewn disgwyliad bywyd iach rhwng y rhai sy'n byw yn y rhannau mwyaf a lleiaf llewyrchus o'r sir. Gwyddom fod llawer o ffactorau eraill sy'n effeithio ar ein hechyd a'n llesiant. Oherwydd hyn, yr ydym wedi ymroi i weithio gydag eraill ar draws Gwent a'r Sefydliad Tegwch Iechyd i fynd i'r afael â hyn drwy ddod yn hyn a elwir yn Ranbarth Marmot. Rydym wedi parhau i gyflwyno cynlluniau i gefnogi preswylwyr i fod yn gorfforol egnïol a bwyta bwyd iach, wedi'u targedu'n neilltuol at y rhai sydd fwyaf ei angen.

## Amcan y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle cysylltiedig gyda phobl sy’n gofalu

<table>
<tr><th colspan="3">Lle cysylltiedig gyda phobl sy’n gofalu</th></tr>
<tr><td>Connected place</td><td>Sgôr Gwerthusiad:</td><td>Lefel 4 – Da – Cryfderau pwysig gyda rhai meysydd ar gyfer gwella – mae pwysau’r dystiolaeth yn dangos bod y llwyddiannau yn fwy na’r meysydd na chafodd eu cyflawni.<br><br>Rydym wedi cynyddu mynediad i ofal a chymorth yn y sir ac wedi darparu gwasanaethau i gefnogi iechyd a llesiant preswylwyr. Dengys ein tystiolaeth ein bod yn cefnogi lefelau uwch o alw a galw mwy cymhleth. Mae sicrhau adnoddau ar gyfer y dulliau ataliol sydd eu hangen tra’n diwallu galw presennol yn her wrth gyflawni ein hamcan.</td></tr>
<tr><td colspan="3">Pam ein bod yn canolbwyntio ar hyn?</td></tr>
<tr><td colspan="3">Bydd Sir Fynwy yn lle fydd yn gwerthfawrogi cyfraniadau pobl, eu bod yn teimlo’n rhan o gymuned ac wedi cysylltu gydag eraill. Mae’r system iechyd a gofal cymdeithasol yn wynebu heriau sylweddol ac mae gwasanaethau statudol ar draws y Deyrnas Unedig yn ei chael yn anodd ymdopi gyda maint a chymhlethdod y galw. Mae gan Sir Fynwy hanes o lwyddiant mewn darparu dulliau gweithredu arloesol a gweithio partneriaeth cyfoethog. Sylweddolwn fod llesiant yn ymwneud â llawer mwy na thrin pobl pan maent yn mynd yn wael. Gall llawer o ffactorau effeithio ar ein hiechyd yn cynnwys yr amgylchedd, tai, pa waith a wnawn, faint a enilliwn, ein ffyrdd o fyw, trafnidiaeth a chydlyniaeth gymunedol. Gall penderfynyddion ehangach iechyd, a elwir weithiau y penderfynyddion cymdeithasol, effeithio ar iechyd corfforol a iechyd meddwl mewn naill ai ffordd gadarnhaol neu negyddol.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Pa mor dda ydyn ni’n cyflawni y deilliannau a gytunwyd gennym?</th><th>Sut ydyn ni’n gwybod?</th></tr>
<tr><th colspan="2">Yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni: Gofal cymdeithasol ansawdd uchel sy’n galluogi pobl i fyw eu bywydau ar eu telerau eu hunain</th></tr>
<tr><td>Darparu help cynnar a gwasanaethau ataliol i deuluoedd<br><br>Rydym wedi sefydlu ymagwedd gydlynus at ymyriad ac ataliaeth gynnar mewn Gwasanaethau Cymdeithasol Plant gan roi cymorth i blant a theuluoedd sydd ei angen cyn gynted ag sy’n bosibl. Mae ein trefniadau panel aml-asiantaeth yn rhoi dull cydlynus ar gyfer atgyfeiriadau. Mae’r cymorth a gynigir yn cynnwys gwasanaethau cymunedol tebyg i gwnsela mewn ysgolion a’r timau Teuluoedd a Chymunedau gyda’i Gilydd Integredig. Mae cymorth hefyd yn cynnwys llwybr clir i gael mynediad i gymorth emosiynol a iechyd meddwl ar gyfer pobl. Dynododd Arolwg Gwerthuso Perfformiad diweddar gan Arolygiaeth Gofal Cymru fod dull cydlynus at help cynnar ac atal i gefnogi plant a theuluoedd. Mae hyn yn galluogi teuluoedd i dderbyn cymorth a rhoi’r gofal, cefnogaeth a gofal mae plant eu hangen. Cafodd gwasanaethau eu datblygu sy’n cyfoethogi’r cymorth sydd ar gael ar gyfer plant, pobl ifanc a’u teuluoedd. Mae’r adroddiad hefyd yn dynodi rhai meysydd i gael eu gwella i gryfhau atal mewn gwasanaethau plant.<br><br>Mae’r galw yn parhau’n uchel ar draws pob gwasanaeth help cynnar. Rydym wedi rhoi ymdrech sylweddol i ostwng amserau aros. Mae hyn yn cynnwys defnyddio gwirfoddolwyr a myfyrwyr i feithrin gallu a chydnerthedd, a defnyddio gwaith grŵp i gyrraedd mwy o bobl ifanc. Rydym wedi cynyddu capasiti a gostwng amserau aros. Er enghraifft, mae Adeiladu Teuluoedd Cryfach wedi gostwng y rhestr aros o tua 6 mis i ychydig wythnosau. Mae gwerthuso ac adborth o wasanaethau cymorth teulu yn dangos canlyniadau clir a chadarnhaol ar gyfer teuluoedd. Er enghraifft, yn ystod 2023/24, dywedodd 100% o deuluoedd iddynt gael canlyniad cadarnhaol yn dilyn ymyriad tîm Adeiladu Teuluoedd Cryfach.</td><td>Gwerthusiadau gwasanaeth help cynnar<br><br>Arolwg Gwerthusiad Perfformiad Arolygiaeth Gofal Cymru o wasanaethau plant</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau help cynnar yw sylfaen ein strategaeth hirdymor i atal a gostwng yr angen i blant ddod i ofal. Gwelsom ostyngiad parhaus yn nifer y plant sy'n derbyn gofal sy'n dangos effaith bosibl gwasanaethau atal. Caiff llawer o'n gwaith atal ei ariannu gan grant. Rydym yn parhau i adolygu galw a gweithi**o** gyda phartneriaid ii ddarparu cymorth help cynnar hygyrch a chydlynus. | |
| **Cynyddu'r lleoliadau sydd ar gael ar gyfer plant sydd angen cymorth**<br><br>Rydym wedi cynhyrchu Strategaeth Datblygu Lleoliad sy'n nodi ein cynlluniau ar gyfer ehangu a datblygu lleoliadau preswyl plant a llety cymorth 16+ o fewn y sir. Mae'r strategaeth yn seiliedig ar ddadansoddiad o angen cyfredol ac angen a ragwelir. Mae hyn yn nodi ein cynllun i gefnogi symud i ofal nid-er-elw ar gyfer plant yng Nghymru a'n hymateb i'r risgiau a'r heriau cysylltiedig, yn cynnwys prinder cenedlaethol o leoliadau preswyl.<br><br>Mae nifer y plant a gaiff eu lleoli tu allan i'r sir yn cynyddu. Mae angen i ni gefnogi plant i aros yn nes at eu cymunedau. Rydym yn adolygu'r galw am leoliadau yn gyson. Fe wnaethom ragweld ein bod angen 32 o leoedd ychwanegol mewn gofal preswyl a llety â chymorth yn seiliedig ar y galw cyfredol. Rydym wedi comisiynu dau gartref preswyl plant eleni a chartref preswyl arall ar gyfer rhai 16-18 oed i gefnogi eu hannibyniaeth. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y gall plant a phobl ifanc aros yn agos at eu cymunedau a'r manteision a ddaw hyn ar gyfer cadw cysylltiadau lleol. Mae prinder yn parhau o leoliadau addas ar gyfer plant sydd eu hangen, yn arbennig y rhai sydd angen cymorth ychwanegol neu na ellir eu gosod gyda gofalwyr maeth.<br><br>Fe wnaethom recriwtio 7 gofalwr maeth newydd yn ystod 2023/24. Rydym wedi gwella ein cynnig I ofalwyr maeth drwy alinio ein lwfansau gydag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru a drwy gynnig mwy o gymorth ariannol. Fodd bynnag, mae ein cynnig yn parhau'n is nag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Gall hyn ei gwneud yn heriol i gynyddu nifer y gofalwr maeth mewnol yn Sir Fynwy. Bu gostyngiad yn y ganran o leoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gyda gofalwyr maeth mewnol I 36.5%. Mae angen i ni newid ein syniadau am yr hyn mae gofalwyr maeth ei angen nawr a hefyd yn y dyfodol fel rhan integrol o ddarparu lleoliadau yn y sir.<br><br>Cydnabu Arolwg Gwerthuso Perfformiad diweddar o wasanaethau plant gan Arolygiaeth Gofal Cymru ein bod yn datblygu mwy o gyfleoedd ar gyfer lleoliadau preswyl a llety â chymorth a'n bod yn gweithio i recriwtio a chadw gofalwyr maeth. | Strategaeth Datblygu Lleoliad<br><br>Data perfformiad Gofal Cymdeithasol Plant<br><br>Arolwg Gwerthuso Perfformiad Arolygiaeth Gofal Cymru ar wasanaethau plant |
| **Cefnogi oedolion i ddychwelyd ac aros gartref**<br><br>Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid mewn iechyd sylfaenol ac iechyd eilaidd i atal pobl rhag gorfod mynd i ysbyty heb fod angen a chefnogi pobl i fynd gartref o'r ysbyty yn amserol. Mae tîm rhanbartho**l** Home First yn darparu cymorth ar ddrws blaen ysbyty lle bynnag sy'n bosibl. Rydym wedi ymestyn hyn yn Sir Fynwy ac wedi peilota dull ymarfer integredig rhwng staff wardiau ac ymarferwyr cymunedol i hyrwyddo cynllunio rhyddha**u** yn gynharach ar daith y claf ar ôl eu derbyn. Rydym yn gweithio gyda Age Cymru Gwent i beilota model newydd ar gyfer rhyddhau o ysbyty sy'n canolbwyntio ar ymyriad tymor byrrach, gan geisio galluogi unigolion i ddychwelyd i fyw gartref heb gymorth (neu ar yr un lefel o gymorth ag oedd ganddynt cyn mynd i'r ysbyty). Mae'r model hwn yn helpu i ostwng ail-dderbyn diangen ac osgoi oedi mewn rhyddhau o ysbyty, gan hefyd alluogi'r rhai sy'n gadael yr ysbyty i adennill eu hannibyniaeth.<br><br>Er y mesurau hyn, mae sicrhau rhyddhau wedi cydlynu'n dda ac amserol ar gyfe**r** rheoli'r pwysau o fewn y system ysbyty yn parhau'n heriol. Rydym yn cynnull cyfarfodydd amlddisgyblaeth wythnosol i geisio dynodi a datrys oedi pan maent yn digwydd. Mae nifer y cleifion sy'n aros am gael mynd | Gwybodaeth monitro rhyddhau o ysbyty<br><br>Gwybodaeth perfformiad gwasanaeth ailalluogi |

| | |
|---|---|
| gartref o ysbyty am resymau gofal cymdeithasol yn amrywio yn ystod y flwyddyn. Ym mis Mawrth 2024, roedd 15 claf yn aros, yr un nifer ag ym mis Mawrth 2023.<br><br>Rydym yn cynyddu'r defnydd o ailalluogi lle bynnag sy'n bosibl i gefnogi pobl i ailddysgu sut i wneud gweithgareddau beunyddiol a gostwng eu hangen am fwy o gymorth. Mae ailalluogi yn rhoi ymyriadau tymor byr dwys i gefnogi pobl i gadw eu hannibyniaeth. Rydym yn darparu 331 pecyn ailalluogi drwy gydol eleni, cynnydd sylweddol ar 184 ar gyfer 22/23. O'r pecynnau a gyflwynwyd y llynedd, fe wnaeth bron 70% o'r achosion ostwng liniaru angen person am gymorth, fe wnaeth 14.2% ostwng yr angen am gymorth ta gwnaeth 55.3% liniaru'r angen am gymorth. | |
| **Sicrhau fod cymorth amserol ar gael ar gyfer oedolion sydd angen cymorth**<br><br>Mae gennym weithwyr proffesiyno**l** aml-ddisgyblaeth ar gael fel y pwynt mynediad cyntaf ar gyfe**r** pobl sy'n cysylltu â gofal cymdeithasol oedolion. Cawsom ostyngiad bach yn nifer yr adroddiadau ar gyfer gofal cymdeithasol (8,085) cyswllt y llynedd, er fod hyn yn parhau'n uchel. Roedd bron dri chwarter ohonynt (5,951) gan bobl nad oeddent eisoes yn derbyn gofal a chymorth. Rhoddodd gweithwyr proffesiynol gyngor a chymorth i 3,635 o gysylltiada**u** neu, lle'n briodol, gwnaed penderfyniad i gynnal asesiad pellach i'w gynnal gan yr ymarferydd mwyaf perthnasol. Dengys adborth gan wasanaethau gofal cymdeithasol oedolion fod 77.6% o oedolion wedi dweud iddynt gael yr wybodaeth neu gyngor cywir pan oeddent ei hangen; mae hyn yn gynnydd o 755 ar gyfer 22/23.<br><br>Rydym wedi canolbwyntio ar ostwng yr oriau o angen na chaiff ei ddiwallu yn Gofal Cymdeithasol Oedolion drwy amrywiaeth o weithgareddau a chymorth gan weithio gyda darparwyr gofal a'n partneriaid. Er enghraifft, yr ydym wedi datblygu prosiect micro-ofal i gynyddu argaeledd gofal yn y sir. Mae'r prosiect yn cefnogi gofalwyr hunangyflogedig i ddatblygu eu busnes yn ogystal â rhoi cyfle am fwy o drosolwg a llywodraethiant o weithwyr gofal hunangyflogedig sy'n gweithredu yn Sir Fynwy. Mae nifer micro-ofalwyr yn cynyddu'n gyson. Ar hyn o bryd mae 24 o ofalwyr wedi cofrestru (cynnydd 0 9 yn flaenorol). Maent yn cefnogi 81 o bobl yn eu cymunedau lleol, gan ddarparu cyfanswm o 368 awr o ofal a chymorth bob wythnos.<br><br>Bu gostyngiad sylweddol yn oriau yr angen na chaiff ei ddiwallu o 804 awr ym Mawrth 2023 i 306 awr ym Mawrth 2024 (mae hyn yn gyfartal â 3.5% o'r 8,714 awr o ofal a ddarperir bob wythnos). Mae'r gostyngiad hwn oherwydd cyfuniad o'n gweithgareddau a ffactorau allanol yn arwain at alw a marchnad am ofal yn y cartref yn sefydlogi ar draws y rhanbarth. Mae hyn wedi gwella mynediad i ofal a chymorth ar gyfer y rhai sydd ei angen. Mae adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion yn dangos cynnydd yn y canran o oedolion sy'n hapus gyda'u gofal a chymorth o 83.5% yn 22/23 i 84.6% yn 23/24. Mae heriau yn parhau i ymateb i holl anghenion gofal a chymorth pobl mewn modd mor amserol ag yr hoffem wneud oherwydd y pwysau parhaus ar draws y system gofal cymdeithasol ac iechyd.<br><br>Rydym wedi dadansoddi'r trefniadau gofal yn y cartref a gomisiynwyd eisoes, asesu angen y dyfodol ac ymchwilio opsiynau'r dyfodol ar gyfer datblygu. Mae gan Sir Fynwy boblogaeth sy'n heneiddio gyda risg uwch o gydafiachedd fydd yn achosi heriau i ddiwallu a chyllido'r galw am ofal yn y dyfodol. Oherwydd hyn, yr ydym wedi datblygu strategaeth 10 mlynedd ar gyfer comisiynu gofal yn y cartref. Mae ein ffocws ar gefnogi'r farchnad darparwyr ac ar yr un pryd sicrhau lle bynnag sy'n bosibl y caiff ein darpariaeth fewnol ei chefnogi ar gyfer ailalluogi gan mai dyma lle defnyddiwn ein harbenigedd i gefnogi preswylwyr i gadw annibyniaeth. Mae'r strategaeth yn cefnogi datblygu gofal seiliedig ar le drwy ateb y gwahanol ofynion | Gwybodaeth perfformiad oedolion<br><br>Prosiect micro-ofal<br><br>Strategaeth comisiynu gofal yn y cartref<br><br>Fy Niwrnod, Fy Mywyd |

| | |
|---|---|
| mewn gwahanol ardaloedd. Nod hyn yw cefnogi gofalwyr a'r rhai sy'n derbyn gofal i ymgysylltu mwy yn eu cymuned leol. Bydd angen adolygu'r strategaeth yn rheolaidd.<br><br>Rydym wedi cwblhau adolygiad o wasanaeth Fy Niwrnod, Fy Mywyd i lywio sut y cefnogwn aelodau gyda diagnosis o anabledd dysgu i gael mynediad i gyfleoedd a gweithgareddau dydd. Fe wnaethom ddefnyddio'r argymhellion o adroddiad yr arolwg, y sylwadau gan bobl sy'n ymwneud â'r gwasanaeth a'r cyhoedd yn ehangach i ddatblygu gweledigaeth a chynllun gweithredu ar gyfer datblygu gwasanaeth Fy Niwrnod, Fy Mywyd yn y dyfodol. Cafwyd ymateb cryf gan breswylwy**r** yn rhoi sylw i'r angen am, a phwysigrwydd, gwasanaethau a chymorth ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu a phobl eraill fregus. Mae'r newidiadau yn cael eu gweithredu gyda phobl gydag anableddau gyda'u teuluoedd yn ganolog i sut y caiff gwasanaetha**u** eu datblygu. Rydym wedi ymrwymo y bydd gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth fynediad i sylfaen cartref a dewis llawn o gyfleoedd dydd ystyrlon. Rydym wedi cytuno ar ganolfan newydd ar gyfer gwasanaet**h** Fy Niwrnod, Fy Mywyd yn Nhrefynwy a'r Fenni. | |
| **Yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni: Sir Fynwy iach ac egnïol lle caiff unigrwydd ac arwahanrwydd eu gostwng, lle caiff llesiant ei hyrwyddo, ac y caiff pobl eu diogelu** | |
| **Cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia**<br><br>Ym mis Mawrth 2024 fe wnaethom agor Severn View Park, cartref gofal arbenigol ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia. Mae'r cartref yn darparu 32 ystafell wely ar gyfer cymorth tymor hir a thymor byr ar wedd seibiant yn seiliedig ar fodel gofal sy'n canoli ar berthynas. Mae'r cartref gofal newydd yn anelu i gynnal cysylltiadau gyda'r gymuned o amgylch. Drwy greu cyfleoed**d** ar gyfer y preswylwyr drwy ddigwyddiadau a rhannu gofod, gall preswylwyr gadw ymdeimlad o hunaniaeth bersonol a chynhwysiant.<br><br>Fe wnaethom gyflwyno dwy raglen fel rhan o gynllun cenedlaethol Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff i gefnogi llesiant pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr. Rydym wedi hyfforddi 12 o wirfoddolwyr cymunedol i ddarparu caffes hel atgofion ar gyfer pobl hŷn a phobl sy'n byw gyda dementia. Mae hyn wedi helpu i ostwng teimladau o unigrwydd ac wedi cynyddu hunan-dyb a hyder rhai sy'n byw gyda dementia.. | Cartref Gofal Severn Park View<br><br>Cymryd rhan yn y Cynllun Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff |
| **Gweithio gyda rhieni i ddatblygu penderfynyddion cymdeithasol iechyd**<br><br>Rydym ni, fel aelod o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent, wedi cytuno'n ffurfiol i ddod yn 'Ranbarth Marmot' ac i weithio mewn partneriaeth gyda'r Sefydliad Tegwch Iechyd (IHE) i ddefnyddio dull penderfynyddion cymdeithasol iechyd fel y sail ar gyfer yr ymateb i ddiffyg cydraddoldeb mewn llesiant ac iechyd yng Ngwent. Mae'r Bwrdd wedi mabwysiad**u** wyth Egwyddor Marmot fel y fframwaith ar gyfer gweithredu i ostwng diffyg cydraddoldeb fel rhan o'i Gynllun Llesiant**.** | Adroddiad Adeiladu Gwent Decach<br>Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent. |
| **Datblygu cynnig blynyddoedd cynnar y sir**<br><br>Rydym yn ehangu ein cynnig blynyddoedd cynnar i sicrhau y gall teuluoedd gael mynediad i ofal plant ansawdd da. Ers mis Ebrill 2023, cofrestrwyd tri darparydd gofal dydd llawn newydd yn cynnig 109 lle ychwanegol ar gyfer plant dan 5. Mae dau o'r lleoliadau hyn wedi cofrestru gyda Dechrau'n Deg ac yn cynnig lleoedd a gaiff eu hariannu ar gyfer plant dwyflwydd oed cymwys. Mae llawer o'n lleoliadau presennol hefyd wedi cofrestru i gynnig lleoedd gofal plant ac ar hyn o bryd mae gennym bedwar lleoliad a gynhelir, 28 lleoliad nas cynhelir a 6 gofalwr plant wedi eu cymeradwyo i gynnig lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg ar draws Sir Fynwy. | Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant |

| | |
|---|---|
| Mae'r cynnydd hwn yn y ddarpariaeth wedi golygu y gall yr holl blant sy'n gymwys am ofal plant Dechrau Deg sy'n dymuno manteisio ar y cynnig fedru cael mynediad i ofal plant mewn lleoliad o'u dewis. Mae hefyd yn golygu y gall teuluoedd mewn gwaith yn awr gael mynediad i ddarpariaeth Dechrau'n Deg mewn meithrinfeydd dydd, gan eu alluogi i gymryd darpariaeth a pharhau/dychwelyd i waith. Yn aml gall plant aros yn yr un lleoliad ar gyfer eu haddysg gynnar a gofal plant cofleidiol gan arwain at lai o newid. Byddwn yn parhau i gynyddu'r cynnig hwn i gadw lan gyda'r cynnydd yn y galw. | |
| **Hyrwyddo bywydau iachach a chynyddu gweithgaredd corfforol.**<br><br>Rydym wedi datblygu a gweithredu cynlluniau i gefnogi preswylwyr i fod yn gorfforol egnïol a chael mynediad i fwyd iach ar gyfer y rhai sydd ei angen. Mae Cynllun Cenedlaethol Atgyfeirio Cleifion am Ymarfer Corff wedi rhoi llwybrau i ddewisiadau cadarnhaol am ffordd o fyw ac ymarfer. Dangosodd astudiaethau achos y rhai a gymerodd ran effaith gadarnhaol, gydag adroddiadau am fwy o symudedd, gwellia hwyliau a gostyngiad mewn pryder. Gwnaed 1,084 atgyfeiriad i'r cynllun yn ystod y flwyddyn; manteisiodd 72% o'r rhai a atgyteiriwyd ar y cynllun a dengys y data diweddaraf fod 64% o'r bobl a fu ar y cynllun wedi parhau tan yr adolygiad 16-wythnos. Mae cyfradd defnydd a chyfranogiad parhaus yn y cynllun wedi amrywio yn y flwyddyn. Nid ydym wedi medru cwblhau mwy o ymryiadau i gynyddu cyfranogiad yn y cynllun oherwydd cyfyngiadau capasiti. Byddwn yn parhau i weithio gyda gweithwyr proffesiynol gofal iechyd i ymchwilio ffyrdd o gynyddu cyfranogiad yn y cynllun.<br><br>Fe wnaethom gefnogi dros 145 aelod ar y rhaglen 60+ yn Sir Fynwy gydag aelodaeth FIT4LIFE sy'n cynnwys campfa, dosbarthiadau ffitrwydd a nofio. Dywedodd yr aelodau ar y rhaglen 60+ eu bod wedi gwneud ffrindiau a chreu rhwydweithiau cymdeithasol drwy fynychu, yn ogystal â gwella eu hiechyd.<br><br>Darparwyd 91 sesiwn gwasanaeth ieuenctid drwy gydol yr haf gan sicrhau 407 awr o ymgysylltu. Yn y sesiynau hyn, oedd yn cynnwys sesiynau mynediad agored yn un o'n pedair canolfan ieuenctid, tripiau, digwyddiadau, sesiynau preswyl ac allgymorth, gwnaeth y Gwasanaeth Ieuenctid 2598 cyswllt. Mae'r gwasanaeth yn rhoi cyfle i bobl ifanc, yn cynnwys pobl ifanc fregus, i feithrin cysylltiadau cymdeithasol, rhoi cynnig ar sgiliau newydd a chanfod hobïau newydd. | Cymryd rhan yn y Cynllun Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff<br><br>Aelodaeth FIT4LIFE<br><br>Mynychu'r cynllun Bwyd a Hwyl<br><br>Darpariaeth Gwasanaeth Ieuenctid |
| **Cefnogi angenion gofalwyr a gofalwyr ifanc**<br><br>Rydym yn cefnogi cyfanswm o 168 o ofalwyr a gofalwyr ifanc ac yn parhau i weithio gyda nhw i ddeall eu hanghenion a'r ffordd orau i'w cefnogi. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol ar draws Gwent fel rhan o raglen Pontio'r Bwlch Gwent i ddarparu gwasanaeth seibiant tymor byr i ofalwyr; mae nifer yr atgyfeiriadau wedi cynyddu, yn arbennig ymysg rhieni sy'n ofalwyr a gofalwyr ifanc, yn rhannol oherwydd mwy o hyrwyddo ar y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn galluogi gofalwyr o bob oed i gael seibiant byr o'u cyfrifoldebau gofalu.<br><br>Mae angen i ni wneud mwy i ymgysylltu gyda'n gofalwyr ifanc, yn arbennig y rhai dan 14 oed na all dderbyn negeseuon e-bost yn uniongyrchol ac felly heb fod yn derbyn gwybodaeth neu fanylion digwyddiadau. Byddwn yn defnyddio pob math o gyfryngau cymdeithasol sydd ar gael i ni i hyrwyddo ein digwyddiadau i ofalwyr ifanc i sicrhau ein bod yn cyrraedd y nifer fwyaf bosibl o ofalwyr ifanc. | Gwasanaeth Gofalwyr a Gofalwyr Ifanc |
| **Yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni: Gweithlu gofal cymdeithasol proffesiynol ac angerddol** | |

| | |
|---|---|
| **Datblygu ein gweithlu gofal cymdeithasol**<br><br>Rydym wedi datblygu strategaeth recriwtio a chadw ar gyfer ein gweithlu gofal cymdeithasol. Mae gan hyn ffocws neilltuol ar drin meysydd lle mae galw uchel. Mae'r farchnad gweithlu yn parhau'n gyfnewidiol; fodd bynnag, buom yn llwyddiannus wrth ostwng nifer y swyddi gwag ar draws gofal cymdeithasol o 53 ym Mawrth 2023 i 23 ym Mawrth 2024. Rydym yn rhoi blaenoriaeth I recriwtio ar gyfer swyddi hanfodol mewn gofal cymdeithasol, er fod recriwtio i swyddi gofal cymdeithasol mewn gwasanaethau cymdeithasol oedolion a hefyd wasanaethau gofal cymdeithasol plant yn parhau'n her. Rydym yn cyfrannu at ddatblyg**u** strategaeth gweithlu Gwent, ac i ategu hynny yr ydym yn datblygu cynllun gweithlu pum mlynedd ar gyfer Sir Fynwy. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau fod gennym weithlu i gyflenwi'r gofal y mae ein preswylwyr ei angen. | Strategaeth recriwtio a chadw gweithlu gofal cymdeithasol |
| **Cynyddu ffioedd ar gyfer darparwyr gofal**<br><br>Rydym wedi darparu cynnydd mewn ffioedd i ddarparwyr gofal fel rhan o'n proses gosod cyllideb i gynyddu nifer y lleoliadau sydd ar gael ar gyfer pobl sydd angen gofal. Dyrannwyd £2.7 miliwn i gydnabod y pwysau cyllideb o'r adolygiad o ffioedd darparwyr gofal ar draws gofal cymdeithasol Plan**t** ac Oedolion. Mae hyn yn sicrhau y gall darparwyr barhau i dalu'r cyflog byw gwirioneddol i ddenu a chadw staff allweddol i ateb y galw cynyddol. Mae angen i ni sicrhau fod ein cyfran ffioedd yn parhau'n opsiwn hyfyw a deniadol ar gyfer darparwyr cartrefi gofal. Nod hyn yw sicrhau fod preswylwyr yn cael cyfle i ddewis y cymorth gorau iddynt. Mae angen i ni werthuso os gall preswylwyr hael mynediad i'r gofal maent ei angen. | Ffioedd ar gyfer darparwyr gofal |
| **Meysydd pellach i'w datblygu a ddynodwyd drwy ein hunanasesiad 2023/24** | |
| Sicrhau y gall gwasanaethau help cynnar ac atal fod yn effeithlon wrth ateb y galw cyfredol ac atal, cyn belled ag sy'n bosibl, y galw yn y dyfodol. | |
| Cynyddu ffocws gwasanaethau'r cyngor ar wella penderfynyddion cymdeithasol iechyd. | |

**Effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

**Cyfraniad nod y Cyngor ar Nodau Llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol**

| Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ✓ | ✓ | ✓ | | |

***Amcan Llesiant: Lle cysylltiedig lle mae pobl yn gofalu***

Mae mabwysiad**u** dulliau gweithredu gyda ffocws ar y gymuned yn hyrwyddo **cydweithio** fydd yn ei dro yn cefnogi llesiant. Drwy weithi**o** gyda chymunedau, gobeithiwn **atal** problemau rhag digwydd. Mae cyfleoedd niferus yn ein sir, felly mae'n hanfodol y gall pawb **gymryd rhan** i gynyddu buddio**n** i lesiant i'r eithaf. Dylai hyn fod â budd **hirdymor** ar gyfer unigolion a chymunedau. Bydd gan ein camau gweithredu fudd **integredig** ar gyfer llawer agwedd o hyrwyddo Cymru iachach. Byddant yn hyrwyddo Cymru o gymunedau cydlynol ac yn gyffredinol helpu i greu Cymru sy'n fwy cyfartal. Mae hefyd integreiddiad cryf gyda'n cyfrifoldebau dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

**Mesurau cynnydd**

| Mesur | Blaenorol | Diweddaraf | Targed 2023/24 | Golwg Gyflym | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran defnyddwyr gwasanaethau oedolion a gafodd yr wybodaeth neu gyngor cywir pan oeddent ei angen [xv] | 75 | 77.6 | 77.5 | ↑ | |
| Canran asesiadau plant a gwblhawy**d** o fewn amserlenni statudol | 92.3 | 95.9 | 92 | ↑ | |
| Canran teuluoedd yn adrodd canlyniad cadarnhaol yn dilyn ymyriad gan y tîm Adeiladu Teuluoedd Cryfach | 87.5 | 100 | 88.1 | ↑ | |
| Nifer gofalwyr maeth o fewn y sir a recriwtiwyd yn ystod y flwyddyn | 1 | 7 | 5 | ↑ | |
| Canran lleoliadau plan**t** sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol a wnaed gyda gofalwyr maeth o fewn y sir | 42.2 | 36.5 | 42.9 | ↓ | |
| Nifer cleifion sy'n aros i gael eu rhyddhau o ysbyty am resymau gofal cymdeithasol (a fesurwyd ar ddyddiad cyfrifiad a gytunwyd bob mis) | 15 | 15 | 14 | ↔ | Fel ar ddyddiad y Cyfrifiad |
| Canran y bobl a gwblhaodd y cynllun atgyfeirio i gael ymarfer ar wythnos 16[xvi] | 48 | 64 | 50 | ↑ | |
| Canran defnyddwyr gwasanaethau oedolion sy'n hapus gyda'r gofal a'r cymorth a gawsant[xvii] | 83.5 | 84.6 | 90 | ↑ | |
| Canran pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a wnaeth liniaru'r angen am gymorth/a gafodd canlyniad cadarnhaol | 57.6 | 55.3 | 60 | ↓ | |

Golwg Gyflym ar y Tueddiad: ↑ Perfformiad yn gwella; ↓ Perfformiad yn gwaethygu; ↔ Dim newid yn y perfformiad

Golwg Gyflym o'r Targed: Gwyrdd – cyflawni'r targed; oren – methu'r targed o ychydig; coch – methu'r targed o gryn dipyn

## Lle i ddysgu



**Yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni:**

- Gwella presenoldeb mewn ysgolion a gostwng lefelau allgau sy’n dileu rhwystrau dysgu ar gyfer disgyblion bregus
- Manteision y cwricwlwm newydd yng Nghymru yn cael eu cynyddu i’r eithaf drwy addysgu a dysgu rhagorol
- System addysgol wirioneddol gynhwysol sy’n cydnabod mannau dechrau, cryfderau ac anghenion addysgol dysgwyr
- Parhau ein rhaglen o foderneiddio ysgolion

### Asesiad strategol

Dylai Sir Fynwy fod yn fan lle mae pawb yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd ac yn cael cyfle i ddysgu, gan ddatblygu’r sgiliau a’r wybodaeth y byddant eu hangen i gyflawni eu potensial. Tarfodd y pandemig yn sylweddol ar addysg ein disgyblion. Rydym yn dal i weld canlyniadau hyn heddiw. Mae presenoldeb mewn ysgolion wedi gostwng ers y pandemig. Mae ein Swyddogion Lles Addysg wedi gweithio gyda dysgwyr bregus ac mae gennym raglen benodol wedi’i thargedu at y rhai gyda lefelau presenoldeb isel iawn.

Gwelwn gynnydd yn yr angen am gymorth gyda iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc. Bu cynnydd mewn ymddygiad heriol yn ein hysgolion, gyda gwaharddiadau parhaol yn dod yn fwy cyffredin. Mae hyn wedi golygu y bu’n rhaid i ni esblygu a thyfu cymorth dysgu a llesiant ar gyfer ein plant a’n pobl ifanc. Rydym wedi ailstrwythuro ein gwasanaetha cynhwysiant addysg ac wedi gweithio gyda phob ysgol gyda hyfforddiant wedi’i dargedu a sesiynau Cwestiwn ac Ateb rheolaidd.

Darparwn fonitro a gwerthuso addysgu a dysgu. Caiff dysgwyr yn ein hysgolion uwchradd sgôr uwch na rhannau eraill o Gymru. Mae ein dysgwyr difreintiedig yn parhau i gael cyrhaeddiad is na’r rhai llai difreintiedig, bwlch cyrhaeddiad a waethygwyd gan y pandemig. Rydym wedi datblygu cymorth wedi ei dargedu ar gyfer y dysgwyr hyn gan ymgynghorwyr addysg a dull gweithredu ehangach gyda ffocws ar y gymuned mewn ysgolion. Nod hyn yw sicrhau y gall pob disgybl lwyddo beth bynnag yw eu cefndir economaidd-gymdeithasol.

Mae’r amgylchedd y mae plant a phobl ifanc yn dysgu yno yn bwysig i’w datblygiad a llesiant. Buom yn adeiladu ysgol 3-19 oed newydd yn y Fenni, a hefyd wedi datblygu cynlluniau a sicrhau cyllid i gynyddu ein darpariaeth o addysg Gymraeg.

## Amcan y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle i ddysgu

<table>
<tr><th colspan="3">Lle i ddysgu</th></tr>
<tr><td>
</td><td>Sgôr Gwerthusiad</td><td>Lefel 4 – Da – Cryfderau pwysig gyda rhai meysydd i'w gwella – mae pwysau'r dystiolaeth yn dangos fod y llwyddiannau yn fwy na'r meysydd na chafodd eu cyflawni<br><br>Rydym wedi datblygu ein dulliau gweithredu a chynyddu ein cymorth i ysgolion a disgyblion i gyflawni ein hamcan. Dengys ein tystiolaeth fod y galw a chymhlethdod y cymorth mae plant a phobl ifanc ei angen, yn arbennig ddysgwyr bregus, wedi cynyddu. Mae ein asesiad yn dynodi'r angen i addasu ymhellach, datblygu a thargedu ein cymorth i gyflawni ein nod.</td></tr>
<tr><td colspan="3">Pam ydyn ni'n canolbwyntio ar hyn?</td></tr>
<tr><td colspan="3">Bydd Sir Fynwy yn fan lle mae pawb yn profi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd ac yn cael y cyfle i ddysgu, gan ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth y byddant eu hangen i gyflawni eu potensial. Cafodd y pandemig effaith sylweddol ar ysgolion a disgyblion. Mae'n anochel y bydd y ddwy flynedd o ansicrwydd a tharfu sylweddol ar ddysgu wedi gadael gwaddol. Cyn y pandemig gwyddem nad oedd ein dysgwyr difreintiedig yn cyflawni'r deilliannau y byddem yn ddymuno. Gwaethygodd y pandemig brofiadau dysgu llawer o fyfyrwyr bregus tebyg i'r rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Effeithiwyd yn aml ar lesiant emosiynol a meddyliol disgyblion, gyda llawer yn profi mwy o ansicrwydd, pryder ac unigrwydd. Yn unol â'n egwyddorion arweiniol, mae'n hanfodol ein bod yn datblygu mwy o gyfleoedd i wrando a dysgu gan ein disgyblion a myfyrwyr. Ers i ysgolion ail-agor mae'r system addysg yng Nghymru wedi parhau i esblygu gyda diwygiadau a datblygiadau yn cynnwys y cwricwlwm newydd i Gymru a chyflwyno Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd.</td></tr>
<tr><th colspan="2">Pa mor dda ydyn ni'n cyflawni y deilliannau y cytunwyd arnynt?</th><th>Sut ydyn ni'n gwybod</th></tr>
<tr><th colspan="3">Yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni: Gwella presenoldeb mewn ysgolion a gostwng lefelau gwahardd sy'n dileu rhwystrau i ddysgu ar gyfer disgyblion bregus</th></tr>
<tr><td colspan="2">Gwella presenoldeb a gostwng nifer gwaharddiadau<br><br>Bu ein ffocws ar wella presenoldeb mewn ysgolion yn dilyn dirywiad oherwydd y pandemig. Rydym wedi gweithredu ystod o fesurau i wella presenoldeb ar draws ein hysgolion. Er enghraifft, mae ein swyddogion lles addysg yn gweithio gyda disgyblion bregus i ddod â nhw yn ôl i'r lleoliad addysgol, lle'n bosibl, ac yn cynnal ymgynghoriadau ar bresenoldeb gydag ysgolion yn rheolaidd i hyrwyddo presenoldeb a darparu cymorth pwrpasol i deuluoedd. Rydym yn parhau i dyfu Ysbrydoli Allgymorth i gyflwyno cymorth i bobl ifanc y dynodwyd fod ganddynt bresenoldeb o lai na 50%. Rydyn ni hefyd wedi cefnogi 17 disgybl drwy gydol y flwyddyn drwy'r rhaglen Re-engage, a arweiniodd at welliannau mewn presenoldeb ar gyfer 92% o'r disgyblion a gymerodd ran.<br><br>Mae hyn wedi arwain at welliant cyffredinol yn y lefel presenoldeb sy'n golygu fod mwy o blant a phobl ifanc yn cael dysgu a chymorth o fewn ein hysgolion. Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd yn cynyddu'n gyson; roedd presenoldeb yn 92.9% yn 22/23. Ar ddiwedd tymor y Gwanwyn 2024, roedd presenoldeb lan i 93.9%. Mae hyn yn agos at y lefel cyn y pandemig; anelwn gynyddu hyn ymhellach. Mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn parhau yn is na lefelau cyn y pandemig ac nid yw wedi cynyddu yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Roedd presenoldeb yn ystod 22/23 yn 88.4%. Ar ddiwedd tymor y Gwanwyn 2024 roedd yn 89.1%. Mae hyn yn sylweddol is na'r ffigur cyn y pandemig o 95.1%. Mae angen i ni werthuso ein cymorth presenoldeb a datblygu ein gweithgaredd i wella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd.</td><td>Gwasanaeth Lles Addysg<br><br>Presenoldeb a gwaharddiadau ysgolion</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| Cafodd y pandemig hefyd effaith sylweddol ar ffigurau presenoldeb ar gyfer y rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Yn ystod 22/23 roedd presenoldeb disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim 5.7 pwynt canran yn is nag oeddent cyn y pandemig mewn ysgolion cynradd a 11.3 pwynt canran yn is mewn ysgolion uwchradd. Mae Estyn wedi dynodi fod presenoldeb isel rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim fel maes o gonsyrn yn un o'n dwy ysgol uwchradd. Mae angen i ni gynyddu presenoldeb y disgyblion hyn i sicrhau na chaiff neb ei adael ar ôl.<br><br>Rydym wedi penodi swyddog arweiniol dysgwyr bregus i ddarparu cynnig cyffredinol gyda mwy o ffocws ar gyfer cyngor, arweiniad a monitro i reoli gwaharddiadau a chefnogi dysgwyr sydd mewn risg o gael eu gwahardd a chefnogi eu cynhwysiant a derbyn. Mae angen i ni ddatblygu a rhoi adnoddau ymhellach i'r cynnig i sicrhau dull gweithredu cyson i gefnogi dysgwyr bregus sydd mewn risg o gael eu gwahardd, er mwyn atal gwaharddiadau cyn belled ag sy'n bosibl. Mae'r nifer o waharddiadau parhaol yn cynyddu. Yn ystod 22/23 roedd 12 gwaharddiad parhaol yn ein hysgolion uwchradd a chynradd, cynnydd o 5 y flwyddyn flaenorol. | |
| **Cefnogi llesiant disgyblion**<br><br>Rydym wedi gweithredu'r dull ysgol gyfan at lesiant emosiynol a meddyliol sy'n helpu ysgolion i ddeall sut y gallant hyrwyddo llesiant yn y ffordd orau. Rydym wedi cyflwyno hyn mewn dull gweithredu mewn camau ac wedi cynyddu nifer yr ysgolion sy'n cynnal y dull o 43% i 74%. Mae hyn yn cefnogi'r cymorth sydd ar gael ar gyfer anghenion llesiant ein disgyblion a chafodd effaith sylweddol ar bresenoldeb a chyflawniad plant yn yr ysgol. Mae pob ysgol a lleoliad yn cymryd rhan gyda Chynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol ac ar hyn o bryd mae gennym 67 o'r cynorthwywyr hyn sy'n cael mynediad i oruchwyliaeth reolaidd, gan weithredu ar draws pob ysgol heblaw un yn y sir, gan gael effaith gadarnhaol ar lythrennedd emosiynol disgyblion.<br><br>Rydym wedi cyflwyno hyfforddiant ysgolion ystyriol o drawma i dros 500 o staff yn ystod eleni. Mae'r dull hwn yn canolbwyntio ar ddeall plant/pobl ifanc sy'n dangos ymddygiad sy'n peri pryder, a chodi ymwybyddiaeth a gallu oedolion sy'n cefnogi disgyblion bregus. Rydym hefyd wedi datblygu rhannu y polisi ar blant sy'n derbyn gofal a phlant a arferai fod yn derbyn gofal gydag ysgolion i sicrhau eglurdeb yn ein dull o gefnogi dysgwyr sy'n blant sy'n derbyn gofal. Mae'r rhain yn ein helpu i ddyfnhau ein dealltwriaeth o'r hyn mae dysgwyr bregus ei angen ac i sicrhau dull cydnaws a chryfach i'w cefnogi. Bu cynnydd mewn digwyddiadau o ymddygiad sy'n herio mewn ysgolion fel canlyniad i barhad tueddiadau a ddaeth i'r amlwg gyntaf yn ystod y pandemig. Mae hyn yn her i ysgolion, staff a dysgwyr. Mae risg y bydd hyn hefyd yn arwain at waethygu cyrhaeddiad addysgol. Mae angen i ni barhau i ddatblygu ac esblygu ein cymorth i ostwng ac atal ymddygiad sy'n herio. | Dull gweithredu ysgol gyfaun at lesiant emosiynol a meddyliol<br><br>Hyfforddiant ysgolion ystyriol o drawma |
| **Yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni: Uchafu manteision y cwricwlwm newydd yng Nghymru drwy addysgu a dysgu rhagorol** | |
| **Cefnogi addysgu a dysgu rhagorol**<br><br>Rydym wedi gweithio gyda'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) i ddarparu her, monitro a gwerthuso mewn addysgu a dysgu mewn ysgolion. Caiff pob ysgol becyn cymorth pwrpasol sy'n ategu'r blaenoriaethau hyn a ddynodwyd o fewn eu Cynlluniau Datblygu Ysgolion eu hunain, yn unol â'r lefelau cymorth maent ei angen. Caiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd a chaiff cymorth ei addasu os oes angen.<br><br>Mae dysgwyr yn ein hysgolion uwchradd yn cael sgôr uwch na mannau eraill yng Nghymru. Ar gyfartaledd, mae 26% o ddisgyblion ar draws Sir Fynwy yn ennill 5 neu fwy TGAU ar lefel A*-A, o gymharu gyda 20.3% ar gyfer Cymru. Mae gennym hefyd lai o ddisgyblion yn gadael yr ysgol heb unrhyw gymwysterau, ar 0.8%, o gymharu gyda 1.4% o ddisgyblion ar draws Cymru. Pan mae ysgolion yn gwerthuso eu perfformiad eu hunain, | Data cyrhaeddiad<br><br>Cynlluniau Datblygu Ysgolion |

| | |
|---|---|
| maent yn asesu hyn o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae hyn yn asesiad sy'n rhoi mwy o wybodaeth fanwl ar gyrhaeddiad a chynnydd ehangach, o gofio am faint tebyg a darpariaeth ieithyddol ar draws Cymru, mae dwy ysgol yn perfformio'n well nag ysgolion tebyg ym mhob categori, a mae un yn perfformio'n well yn y rhan fwyaf o gategorïau (yn cynnwys llythrennedd, rhifedd, gwyddoniaeth, dim cymwysterau, 5+ A*-A). Mae un o'n hysgolion yn tanberfformio yn y rhan fwyaf o gategorïau o gymharu gydag ysgolion tebyg.<br><br>Buom yn gweithio gyda dwy o'n hysgolion a gafodd eu rhoi mewn categorïau statudol yn dilyn adolygiadau Estyn yn 22/23. Canfu adolygiadau dilynol a gynhaliwyd yn ystod 23/24 fod y ddwy ysgol wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth drin yr argymhellion a nodwyd gan Estyn a bellach wedi eu tynnu o'r categorïau statudol. Cafodd dwy o'r ysgolion a arolygwyd eu dewis i baratoi astudiaethau achos i'w lledaenu gan Estyn, yr ysgol gyntaf ar ei dull o ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru ac integreiddio'r ganolfan adnoddau arbenigol, a'r ail ysgol ar hyrwyddo'r Gymraeg o fewn cymuned yr ysgol a thu hwnt.<br><br>Sylweddolwn bwysigrwydd gwrando a dysgu gan ein disgyblion. Rydym yn datblygu polisi a phecyn cymorth cyfranogiad i gynnwys plant a phobl ifanc a'u rhieni a'u gwarcheidwaid yn llawn mewn datblygiadau, cynlluniau a gwerthusiadau ADY. Sefydlwyd Panel Disgyblion ym mhob ysgol uwchradd a chwblhawyd gweithgareddau ymgysylltu â rhieni. Mae'r rhain yn cefnogi disgyblion i gyfrannu at ddulliau addysgu a dysgu mewn ysgolion. | Adroddiadau arolygon Estyn<br><br>Polisi a phecyn cymorth cyfranogiad<br><br>Panel Disgyblion |
| **Datblygu cyfleoedd i blant a phobl ifanc i ddysgu a siarad Cymraeg**<br><br>Rydym yn gweithio gyda darparwyr gofal plant i ehangu argaeled**d** darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg. Rydym wedi gwella ystod ac ansawdd yr wybodaeth sydd ar gael ar fuddion addysg Gymraeg, i alluogi rhieni i wneud penderfyniadau mwy gwybodus. Rydym wedi gweithi**o** gyda lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg yn Sir Fynwy i ddarparu lleoedd Dechrau Deg ar gael yn Gymraeg ym mhob lleoliad. Mae hyn wedi ehangu'r cynnig i rieni. Mae angen i ni ehangu cyrraedd ein hyrwyddiad ar fanteision y Gymraeg a'r cyfleoedd sydd ar gael i'n pobl ifanc.<br><br>Sefydlwyd dosbarth trochi yn Ysgol y Ffin a sicrhawyd cyllid i dyfu'r ddarpariaeth hon ar draws y sir dros y tair blynedd nesaf. Drwy agor addysg cyfrwng Cymraeg i bob disgybl oedran cynradd drwy ddarparu dosbarth trochi, gall rhieni ddewis addysg Gymraeg yn hyderus ar gyfer eu holl blant gan wybod y cânt eu cefnogi'n dda i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg. Ar ddiwedd mis Ebrill 2024, roedd 23 o ddisgyblion wedi manteisio o ddarpariaeth trochi cyfrwng Cymraeg. Mae'r dosbarth trochi hwn hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar nifer y geisiadau i ysgolio**n** Cymraeg. Ym mis Ebrill 2024, dyrannodd Ysgol y Ffin 26 disgybl i'r dosbarth derbyn, y nifer uchaf ar gyfer yr ysgol.. | Hyrwyddo'r Gymraeg<br><br>Lleoedd Dechrau'n Deg |
| **Yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni: system addysgol wirioneddol gynhwysol sy'n adnabod mannau dechrau, cryfdera**u **ac anghenion addysgol plant** | |
| **Cefnogi pob dysgwr i gyflawni eu potensial**<br><br>Rydym wedi ailstrwythuro ein gwasanaethau cynhwysiant i greu Tîm Cynhwysiant ehangach. Mae hyn wedi cefnogi cyflenwi'r Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), sy'n anelu i adeiladu darpariaeth gynaliadwy a chydnerth. Cafodd ein cymorth Cynhwysiant yn awr ei sefydlu fel rhan o strategaethau rhyng-gysylltiedig a phecynnau cymorth, adnoddau a pholisïau cysylltiedig ar gyfer ADY, cydberthynas, plant sy'n derbyn gofal a gostwng gwaharddiadau. Rydym hefyd wedi cydweithio i sicrhau fod pob ysgol a lleoliad blynyddoedd cynnar wedi paratoi ar gyfer eu cyfrifoldebau newydd dan y Ddeddf ADY drwy hyfforddiant wedi ei dargedu a sesiynau cwestiwn ac ateb rheolaidd ar-lein. Mae fframwaith yn cael ei datblygu ar gyfer rheoli darpariaeth canolfannau adnoddau arbenigol fydd yn sicrhau dull gweithredu cyson a theg ar draws pob lleoliad. | Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) |

| | |
|---|---|
| Rydym yn datblygu ein Strategaeth Cynhwysiant. Bydd hyn yn amlinellu ein hegwyddorion, dulliau gweithredu a cynnig gwasanaeth ar y cyd a bydd yn ein helpu i sicrhau y caiff gwasanaetha**u** cynhwysiant ansawdd uchel eu cynnig ar draws Sir Fynwy.<br><br>Rydym wedi sefydlu system Sicrwydd Ansawdd ADY ar gyfer ysgolion prif ffrwd i gefnogi arfer rhagorol wrth adnabod a rheoli disgyblion gyda ADY. Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen, cytunwyd ar brotocolau a darparwyd hyfforddiant. Mae angen i ni ddatblygu cysondeb darpariaeth ADY ymhellach ar draws y sir. | |
| **Gwella deilliannau ar gyfer plant sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim**<br><br>Rydym wedi gweithio gyda'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) i gynnig her, monitro a gwerthuso addysgu a dysgu mewn ysgolion. Mae gan hwn ffocws neilltuol ar ddysgwyr bregus, sy'n cynnwys y rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae bwlch mewn cyrhaeddiad yn parhau rhwng y disgyblion hynny sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys amdanynt. Dengys y data diweddaraf  ar gyfartaledd bod disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn perfformio'n is na'u cyfoedion nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim gan dros 1.5 gradd TGAU. Mae hwn yn fwlch sylweddol. Mae angen i ni wneud mwy i gefnogi disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a sicrhau fod gan bob disgybl gyfle cyfartal i lwyddo beth bynnag yw eu cefndir economaidd-gymdeithasol.<br><br>Mae ein harweinydd Ysgolion Bro yn parhau i fod â rôl hanfodol wrth weithio gydag ysgolion a phartneriaid i ddatblygu gweithgareddau a chydberthynas er budd holl gymuned yr ysgol. Mae hyn wedi cynnwys meithrin cydberthynas, cyfeirio at gymorth a hawl i fudd-daliadau, ysgolion atal tlodi a darparu cymorth gyda chostau byw. Rydym yn gweithio gyda EAS i fynd i'r afael â phob agwedd o dlodi a datblygu strategaeth awdurdod cyfan ar gefnogi dysgwyr difreintiedig. | Data cyrhaeddiad<br><br>Cynlluniau Datblygu Ysgolion<br><br>Ysgolion Bro |
| **Gwella hygyrchedd cyrsiau addysg oedolion**<br><br>Rydym yn gostwng rhwystrau ariannol i'n cyrsiau addysg oedolion i'w gwneud yn fwy hygyrch i'n preswylwyr. Rydym wedi datblygu ein model cyllido cyrsiau ac wedi symud i fodel gyda chymhorthda**l** grant; mae hyn yn awr golygu fod ein holl gyrsiau addysg gymunedol yn cael cymhorthdal uniongyrchol. Rydym hefyd wedi parhau ein partneriaeth gyda Choleg Gwent i gynnig dysgu lefel sylfaen cost isel, ar gost o £10 ar gyfer mynediad i bob cwrs ffransais a ddarperir yn Sir Fynwy. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd dileu unrhyw rwystrau i ymgyfraniad mewn addysg oedolion a'r effaith y gall hynny ei gael ar oedolion sy'n ennill sgiliau a gwybodaeth newydd. Yn 23/24, ymrestrodd 937 o ddysgwyr ar ein cyrsiau addysg gymunedo**l**, cynnydd o 377 ar 22/23 ac yn uwch na'n targed o 718. | Cymryd rhan mewn cyrsiau adding oedolion |
| **Yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni: Parhau ein rhaglen o foderneiddio ysgolion** | |
| **Adeiladu ysgol 3-19 newydd yn y Fenni**<br><br>Rydym yn symud ymlaen gyda gwaith adeiladu ysgol pob oed newydd Brenin Harri VIII yn y Fenni. Bydd yr adeilad newydd yn  sero-net yn unol â'n hymrwymiad i ddatgarboneiddio ein gweithgaerddau. Mae'r ysgol yn cymryd lle Ysgol Gynradd Deri View ac Ysgol Gyfun Brenin Harri VIII a bydd ganddi le ar gyfer 1,200 o ddisgyblion oedran ysgol uwchradd, 420 o ddisgyblion oedran ysgol gynradd a 200 lle ar gyfe**r** addysg ôl-16. Bydd hefyd ddarpariaeth ar gyfer 71 disgybl gydag anghenion niwroddatblygiadaol a chymhleth o fewn yr ysgol. Rhagwelir y bydd y datblygiad yn gostwng nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgol uwchradd tu allan i'r sir. Disgwylir y bydd yr ysgol fod yn barod erbyn mis Ebrill 2025. | Ysgol pob oed Brenin Harri VIII |

| | |
|---|---|
| **Cynyddu darpariaeth ysgol gynradd Gymraeg**<br><br>Rydym yn ehangu ein darpariaeth o addysg Gymraeg. Rydym wedi sicrhau safle newydd ar gyfer Ysgol y Fenni fydd yn cynyddu capasiti yr ysgol o 210 i 420 disgybl. Rydym wedi sicrhau cyllid a safle yn Nhrefynwy ar gyfer ysgol gynradd Gymraeg newydd. Rydym wedi parhau â datblygiad yr ysgol yma fydd ar agor i ddisgyblion meithrin, dosbarth derbyn a blwyddyn 1 ym mis Medi 2024. Nid oedd modd i ni agor dosbarth ategol ym mis Medi 2023 oherwydd nifer isel ceisiadau ac anawsterau yn sicrhau staff, yn arbennig bennaeth i'r ysgol. I barhau ehangu ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg, mae angen i ni fod â ffocws ar hyrwyddo addysg Gymraeg a sicrhau staff priodol i sicrhau addysg ansawdd uchel ar gyfer ein pobl ifanc. | Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg |
| **Datblygu adolygiad strategol bob ysgol a'u dalgylchoedd**<br><br>Rydym wedi datblygu dalgylchoedd ysgolion uwchradd a ddefnyddiwyd ar gyfer y cylch derbyn diweddaraf, ac yn cynnal adolygiad o ddalgylchoedd ysgolion cynradd ar draws y sir. Arweiniodd y ddau adolygiad at i bobl ifanc ym Mrynbuga gael mynediad gwell i fynychu ysgol gynradd ac uwchradd o fewn y sir.<br><br>Rydym wedi ymgysylltu â staff a disgyblion i ganfod y ffordd fwyaf priodol i ddatblygu addysg yn ardal Cas-gwent. Rydym wedi datblygu prif gynllun ar gyfer y stad addysg yng Nghas-gwent, a gydag adborth gan y rhai sy'n mynychu, yr ydym wedi creu gweledigaeth ar gyfer adeilad newydd ar safle Ysgol Cas-gwent fel rhan o'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu. Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd gyda phenaethiaid ysgol Cas-gwent i adolygu opsiynau i gael eu hystyried a byddwn hefyd yn cysylltu gyda phreswylwyr i ddeall eu sylwadau ar ddarpariaeth addysg yn y dyfodol. | Dalgylchoedd ysgolion |

| **Meysydd pellach i'w datblygu a ddynodwyd drwy ein hunanasesiad 2023/24** |
|---|
| Datblygu'r cynnig cymorth ar gyfer ysgolion i ostwng ac atal gwaharddiadau. |
| Datblygu'r cynnig cymorth ar gyfer dysgwyr difreintiedig i gyflawni eu potensial. |

**Effaith Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

**Cyfraniad nod y Cyngor ar Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

| **Cymru lewyrchus** | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ | |

***Amcan Llesiant: Lle i ddysgu***

Mae natur **hirdymor** y nod hon yn gynhenid i'w llwyddiant. Bydd gweithio gyda a **chynnwys** plant a phobl ifanc cyn gynted ag sydd modd, i ddynodi eu hanghenion yn rhoi'r cyfle gorau o gyflawni eu potensial mwyaf. Bydd **atal** problemau cyn iddynt ddechrau yn rhoi'r cyfle gorau i bobl ifanc ddatblygu. Mae defnyddio dull **cydweithiol** ac alinio yn rhoi adnodd crwn sy'n gweithio mewn cytgord ar gyfer y person ifanc. Drwyddi draw, mae'r dull hwn yn **integreiddio** anghenion ein pobl ifanc, gan sicrhau eu bod yn cael y cyfle gorau o gyflawni eu nodau.

| Mesurau cynnydd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mesur** | **Blaenorol** | **Diweddaraf** | **Targed 2023/24** | **Golwg Gyflym** | **Sylwadau** |
| Canran presenoldeb disgyblion ar lefel gynradd (caiff y ffigur ar gyfer y rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim ei ddangos mewn cromfachau) | 91.8 (88.1) | 92.9 (89.3) | 94.6 (92.6) | ↑ | Mesurir y data mewn blynyddoedd academaidd. Y blaenorol yw blwyddyn academaidd 2021/22. Y diweddaraf yw blwyddyn academaidd 2022/23/<br>Mae'r targed ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23. |
| Canran presenoldeb disgyblion ar lefel uwchradd (dangosir y ffigur sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim mewn cromfachau) | 88.4 (80.9) | 87.7 (78.7) | 91.2 (82.4) | ↓ | Mesurir y data mewn blynyddoedd academaidd. Y blaenorol yw blwyddyn academaidd 2021/22. Y diweddaraf yw blwyddyn academaidd 2021/22. Erbyn Gwanwyn 2024 roedd presenoldeb yn 89.1%.<br>Mae'r targed ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23. |
| Nifer y gwaharddiadau parhaol ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd. | 5 | 12 | <5 | ↓ | |
| Cyfanswm nifer ymrestriadau gan oedolion sy'n ddysgwyr ar gyrsiau addysg gymunedol yn cynnwys cyrsiau ffransais Coleg Gwent | 560 | 937 | 718 | ↑ | |

Golwg Gyflym ar y Tueddiad: ↑ Perfformiad yn gwella; ↓ Perfformiad yn gwaethygu; ↔ Dim newid yn y perfformiad
Golwg Gyflym o'r Targed: Gwyrdd – cyflawni'r targed; oren – methu'r targed o ychydig; coch – methu'r targed o gryn dipyn

# Defnyddio ein Adnoddau

Mae angen i'r cyngor barhau yn berthnasol a hyfyw ar gyfer y genhedlaeth nesaf, gan barhau i fodloni anghenion preswylwyr, ymwelwyr a busnesau yn y presennol. Er mwyn cefnogi cyflawni ein nodau, rhaid i ni sicrhau bod pob agwedd o'r cyngor yn gweithio'n effeithiol, effeithlon ac yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy a nodir yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r Ddeddf yn nodi meysydd craidd mewn sefydliad sydd angen addasu i fodloni'r gofynion ar ein gwasanaethau sy'n newid a sicrhau eu hirhoedledd a'u cynaliadwyedd. Rydym wedi gwerthuso ein trefniadau ar gyfer y meysydd hyn a chynnwys digidol a data fel galluogydd pwysig y modd yr ydym yn cyflawni gwasanaethau'r cyngor. Y meysydd yr ydym wedi eu hasesu yw:

- Cynllunio corfforaethol, perfformiad a rheoli risg
- Cynllunio ariannol
- Cynllunio gweithlu (pobl)
- Caffael
- Asedau
- Digidol a Data
- Democratiaeth a Chraffu

**Datganiad Llywodraethu Blynyddol**

Mae gan y cyngor fframwaith llywodraethu, ein Cod Llywodraethu Corfforaethol, am y flwyddyn hyd ddiwedd Mawrth 2024. Mae'r fframwaith yn cynnwys y systemau a'r prosesau, a diwylliant a gwerthoedd, y mae'r Awdurdod yn cael ei arwain a'i reoli ganddynt a'r gweithgareddau y mae'n atebol i'r gymuned amdanynt, yn ymgysylltu â'r gymuned ac yn ei harwain. Mae'n galluogi'r Awdurdod i fonitro a yw wedi cyflawni ei amcanion strategol ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at gyflawni gwasanaethau addas, cost effeithiol.

Rydym wedi cynhyrchu Datganiad Llywodraethu Blynyddol am y flwyddyn 2023/24 sy'n dangos bod gennym drefniadau llywodraethu priodol yn eu lle i fodloni'r egwyddorion llywodraethu a bod adolygiad wedi ei gynnal i asesu effeithiolrwydd y trefniadau hynny. Cyflwynwyd y datganiad drafft i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Gorffennaf 2024. Mae'r hunan-asesiad hwn o'n hadnoddau yn integreiddio gyda chanfyddiadau'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a bydd hefyd yn cynnwys camau ac argymhellion yn ymwneud â'r trefniadau hyn.

**Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Rheoli Risg –** Sgôr Gwerthusiad: Lefel 4 Da

| Pa mor effeithlon yw cynllun corfforaethol? | Sut ydyn ni'n gwybod? |
|---|---|
| Rydym wedi datblygu a chytuno ar Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28. Mae hyn yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer y cyngor. Canfu adolygiad gan Archwilio Cymru ar gyfer ein gosod amcanion yng N[‘ghynllun Cymunedol a Chorfforaethol bod y cyngor wedi gosod ei amcanion llesiant yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy ac mae'n alinio ei strategaethau a chynlluniau busnes allweddo**l** i gefnogi eu cyflenwi, ond gallai gryfhau ei ddull gweithredu ymhellach drwy gynyddu amrywiaeth ymgyfraniad dinasyddion yn y dyfodol.<br><br>Rydym wedi datblygu fframwaith mesur perfformiad ategol. Mae hyn yn ein galluogi i fesur ein perfformiad ar feysydd y gall y cyngor effeithio'n uniongyrchol arnynt a chynnydd deilliannau ehangach nad ydynt yn uniongyrchol dan reolaeth y cyngor. Rydym wedi gosod targedau yn erbyn y mesurau hyn sy'n dangos uchelgais y cyngor ar gyfer preswylwyr. Mae hyn yn ein galluogi i gael ein dal i gyfrif am berfformiad ac yn dynodi lle nad yw gwasanaetha**u** yn perfformio fel y bwriadwyd. Mae angen i ni ddatblygu'r fframwaith mesur i gynyddu'r ffocws ar ddeilliannau, lle'n bosibl. Canfu adolygiad Archwilio Cymru ar ein defnydd o wybodaeth perfformiad ein bod yn darparu peth gwybodaeth perfformiad i alluogi uwch arweinwyr i ddeall safbwynt defnyddwyr dysgu ond bod gwybodaeth ar ddeilliannau yn gyfyngedig gan gyfyngu eu gallu i reoli eu perfformiad yn effeithio**l**.<br><br>Mae strategaethau cefnogi a galluogi yn cael eu datblygu i sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac yn cefnogi'r nodau ac amcanion polisi newydd a nodir yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol. Bydd y rhain yn bwysig i alluogi cyflawni uchelgais y cynllun. Mae angen i ni sicrhau fod dulliau a threfniadau clir i fonitro effaith y strategaethau hyn a gwerthuso perfformiad yn rheolaidd o gymharu gyda deilliannau. | Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022028 a fframwaith mesur<br><br>Adroddiadau Archwilio Cymru<br><br>Strategaethau galluogi |
| **Pa mor effeithlon yw rheoli perfformiad?** | **Sut ydym ni'n gwybod?** |
| Mae cymeradwyo'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol wedi sicrhau fod cyfeiriad clir ar gyfer y cyngor. Mae hyn wedi sefydlu yn ein fframwaith rheoli perfformiad. Mae adroddiadau rheolaidd yn sicrhau atebolrwydd ar bob lefel ac yn dangos cynnydd i breswylwyr. Cafodd y broses hunanasesu ei sefydlu yn fframwaith rheoli perfformiad y cyngor. Mae'r broses hunanasesu wedi hwyluso cwblhau gwerthusiad cadarn ar berfformiad. Mae'r trefniadau rheoli perfformiad yma wedi helpu i ddynodi meysydd cynnydd a meysydd datblygu yn glir. Cafodd perfformiad amcanion y cyngor eu hasesu fel ‘da' ar gyfer pump amcan a ‘digonol' ar gyfer un amcan.<br><br>Mae egwyddorion cynllunio busnes gwasanaeth, yn cefnogi templedi ac arweiniad yn eu lle a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Mae cynlluniau busnes gwasanaeth yn hwyluso gwasanaethau i gynllunio ar gyfer y tair blynedd nesaf, asesu'r hyn a aeth yn dda, dysgu o'r hyn nad aeth yn dda a mesur yr effaith a gafodd eu gwasanaeth ar bobl a lleoedd yn Sir Fynwy. Mae cyfraddau ac ansawdd cwblhau cynlluniau busnes gwasanaeth wedi gwella er bod hyn yn parhau'n amrywiol ac angen eu gwella. Mae'r monitro diweddaraf yn dangos y cafodd 50% eu diweddaru o fewn amserlenni ac mae cynnydd mewn cydymffurfiaeth gydag egwyddorion. Mae sicrwydd ansawdd ar gynlluniau busnes gwasanaeth wedi dangos nad yw rheolwyr bob amser yn gweithredu ffordd hunanwerthusol o feddwl | Adroddiad Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol<br><br>Drafft adroddiad hunanasesu<br><br>Cynlluniau gwasanaeth busnes a sicrwydd ansawdd |

| | |
|---|---|
| yn gyson wrth ddiweddaru cynlluniau busnes gwasanaeth. Bydd cryfhau hunanwerthusiad o fewn cynlluniau yn hanfodol i gasglu gwybodaeth i lywio'r adroddiad hunanasesu. | |
| **Pa mor effeithlon yw rheoli risg?** | **Sut ydyn ni'n gwybod?** |
| Rydym wedi datblygu a diweddaru polisi a chanllawiau ar reoli risg strategol. Mae hyn yn diffinio'r dull, proses a chyfrifoldeb am reoli risg strategol yn y cyngor. Mae hyn hefyd yn diffinio goddefiant risg a pharodrwydd i dderbyn risg ar gyfer y cyngor. Cafodd y polisi diwygiedig gymeradwyaeth gadarnhaol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Caiff y polisi ei weithredu mewn camau i ddatblygu a chryfhau trefniadau rheoli risg.<br><br>Caiff y gofrestr risg strategol ei diweddaru'n gyson ac mae ar gael i bob aelod a swyddog ei gweld ar unrhyw amser. Mae trefniadau i adolygu'r holl gofrestr risg strategol yn ffurfiol ac adrodd arni bob chwe mis i craffu, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cabinet. Mae hyn yn hwyluso ac yn dangos fod rheoli risg wedi ei sefydlu yn y cyngor ac mae risgiau strategol sy'n wynebu'r cyngor yn cael eu dynodi a'u rheoli mewn modd cadarn. Ni chaiff yr asesiad risg mewn cynlluniau busnes gwasanaeth ei orffen yn llawn bob amser. Mae hyn yn cyfyngu gallu gwasanaethau i ddefnyddio eu cynlluniau busnes gwasanaeth i reoli'n gadarn a lliniaru risgiau a gall effeithi**o** ar gynydd risgiau i'r gofrestr risg strategol. | Polisi strategol rheoli datganiad a chanllawiau parodrwydd i dderbyn risg.<br><br>Cofrestr risg strategol |
| **Sut y cafodd y maes ar gyfer ei ddatblygu o'r adroddiad ddiwethaf ei drin?**<br>Ymwreiddio cyflenwi'r ymrwymiadau yng Nghynllun Cymunedol a Chorfforaethol 202228 o fewn fframwaith perfformiad y cyngor. | **Sut ydyn ni'n gwybod?** |
| Mae cymeradwyo'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol wedi sicrhau fod cyfeiriad clir ar gyfer y cyngor. Mae ein hunanasesiad o'r fframwaith perfformiad yn dangos y cafodd y rhan fwyaf o'r camau gweithredu yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol eu hymwreiddio yn y fframwaith rheoli perfformiad. Mae hyn hefyd yn dangos fod angen cryfhau yr aliniad ymhellach mewn rhai cynlluniau gwasanaeth busnes. | Adroddiad cynnydd Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol<br><br>Cynlluniau gwasanaeth busnes a sicrwydd ansawdd |
| **Meysydd eraill i gael eu datblygu a ddynodwyd drwy ein hunanasesiad 2023/24** | |
| Cynyddu'r ffocws ar ddeilliannau yn fframwaith mesur y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol | |

**Cynllunio Ariannol** – Sgôr Gwerthusiad: Lefel 4 Da

| Pa mor effeithlon yw monitro ariannol? | How do we know? |
|---|---|
| Rydym wedi monitro ein cyllid yn agos ar gyfnodau rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Cafodd y Cabinet ddiweddariad ariannol cynnar ym mis Gorffennaf 2023 yn nodi pwysau sylweddol ar y gyllideb o £2.6 miliwn. Fe wnaethom weithredu dull gweithredu wedi eu strwythuro i fynd i'r afael â'r diffyg drwy gynigion adfer cyllideb a ddatblygwyd gan wasanaethau.<br><br>Dangosodd ein monitro ariannol ym Mis 9 fod gorwariant o £314k, oherwydd cyfuniad o ddiffyg mewn gwasanaethau yn medru cyrraedd y cynigion oedd yn y gyllideb a phwysau ar draws cyfarwyddiaethau rheng-flaen. Mae gwelliannau yn sefyllfa cyllidebau gwasanaethau, a gafodd ei yrru gan weithredu adfer y gyllideb gan wasanaethau yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â gwelliant yng nghostau cyllido cyfalaf wrth i feysydd o'r rhaglenni cyfalaf brofi oedi, wedi arwain at warged cyllideb refeniw net ar alldro o ychydig o dros £1.7m. Mae hyn wedi golygu y bu'n rhaid tynnu llai o gronfeydd wrth gefn i gefnogi'r gyllideb nag oedd yn y gyllideb.<br><br>Mae meysydd sylweddol o bwysau cost yn parhau o fewn Gofal Cymdeithasol Oedolion, Anghenion Dysgu Ychwanegol Plant, Gwastraff a Digartrefedd/Tai. Cofnododd y gwasanaethau hyn orwariant cronnus o £5m am y flwyddyn, ac er fod darpariaeth ar gyfer agwedd sylweddol o'r pwysau cost hyn yng nghyllideb 2024/25, mae hyn yn barhau i fod yn faes o risg ariannol parhaus ar gyfer y cyngor yn y flwyddyn ariannol newydd..<br><br>Ar all-dro, ni wnaeth unrhyw gynlluniau cyfalaf adrodd gorwariant na thanwariant sylweddol sydd angen cyllido ychwanegol o adnoddau'r cyngor ei hun. Roedd ceisiadau llithriad cyfalaf yn gyfanswm o dros £28m. Canfu adolygiad gan Archwilio Cymru o reolaeth ein rhaglen cyfalaf fod ein trefniadau monitro yn canolbwyntio ar gyllideb ac amserlenni gyda ystyriaeth gyfyngedig i effaith na dysgu.<br><br>Mae safon ein monitro a rhagolygon cyllid yn amrywio ar draws meysydd gwasanaeth. Nid ydym bob amser wedi cwblhau adroddiadau rhagolygon cyllideb mewn ffordd amserol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn wedi effeithio ar effeithlonrwydd ein rheolaeth cyllideb yn y flwyddyn. | Adroddiadau monitro ariannol<br><br>Adroddiadau Archwilio Cymru |
| **Pa mor effeithlon yw cynllunio ariannol?** | **How do we know?** |
| Fe wnaethom sefydlu proses ac amserlen clir i osod cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. Dynododd ein modelu ariannol fod bwlch cyllideb dechreuol o £14.4m oedd angen ei drin. Datblygwyd ystod o gynigion yn unol â set o egwyddorion cyllideb. Bu ymgysylltu â'r cyhoedd ar y cynigion ynghyd â chraffu trwyadl ac asesiad o'u heffaith bosibl. Llywiodd hyn ddatblygu cynigion y gyllideb derfynol,<br><br>Arweiniodd y cynllunio hyn at i ni osod cyllideb gytbwys ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 oedd yn cynnwys darparu ar gyfer £13.5 miiwn o bwysau cyllideb, gwneud £10.8 miliwn o arbedion a gynlluniwyd a chyflwyno cynnydd o 7.80% yn y dreth gyngor. | Adroddiadau gosod cyllideb 2024/24<br><br>Adroddiadau Archwilio Cymru |

| | |
|---|---|
| Mae ein cynllunio cyfalaf wedi ei seilio ar broses flaenoriaethu a sefydlwyd wedi ei llywio gandystiolaeth ac asesiad o risg i ddatblygu rhaglen o fewn y cyfyngiadau ariannol ar y cyngor. Rydym wedi adolygu a chytuno ar ragen cyfalaf cyfredol ac ymlaen am £35 miliwn o wariant ar gyfer 2024/25. Caiff y rhaglen cyfalaf craidd ei chynnal ac mae'n gosod buddsoddiad a gynlluniwyd yn y seilwaith y cyngor. Mae nifer sylweddol o bwysau ôl-groniad yn parhau sy'n eistedd tu allan i'r rhaglen cyfalaf craidd. Mae gan y rhain lefelau amrywiol o risg yn gysylltiedig. Canfu adolygiad Archwilio Cymru o'n rheoli rhaglen cyfalaf fod trefniadau cynllunio yn gyffredinol gadarn, ond nad oes gan y rhaglen gyfalaf ddeilliannau clir.<br><br>Er gosod cyllideb gytbwys, mae pwysau cyfredol a dyfodol ar y gyllideb yn achosi risg i'r gallu i gyflenwi ein hamcanion yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol. Mae defnydd unwaith yn unig o gronfeydd wrth gefn refeniw i gefnogi cyllideb 2023/24 yn golygu fod ein cronfeydd wrth gefn ar yr isafswm lefelau darbodus i ddarparu gorchudd digonol. Mae angen i ni gryfhau ein modelu ariannol a datblygu ein cynllunio ariannol dros y tymor canol. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i ddatblygu cynllun rhagweithiol i fynd i'r afael â phwysau parhaus ar y cyllideb ac alinio ein cyllideb, cyn belled ag sy'n bosibl, gyda'n hamcanion.. | |
| **Sut y cafodd y maes datblygu o'r adroddiad diwethaf ei drin?**<br><br>Datblygu strategaeth ariannol a Chynllun Ariannol Tymor Canol cadarn sy'n dynodi sut y byddwn yn trin y diffyg o £23m yn y gyllideb erbyn 2026/27 | **Sut ydyn ni'n gwybod** |
| Rydym wedi datblygu Strategaeth Ariannol Tymor Canol sy'n alinio gyda chyflenwi ein hymrwymiadau a nodwyd yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol. Cyflwynwyd hyn i'r Cyngor ei gymeradwyo ym mis Gorffennaf 2024. Wedyn caiff y cynllun ariannol tymor canol i gyflenwi'r strategaeth ei ddatblygu a bydd yn sail i'r broses o osod cyllideb 2025/26. | Strategaeth Ariannol Tymor Canol |
| **Meysydd pellach ar gyfer eu datblyg**u **a ddynodwyd drwy ein hunanasesiad 2023/24** | |

**Cynllunio Gweithlu –** Sgôr Gwerthuso: Lefel 3 Digonol

| **Pa mor effeithlon yw rheoli gweithlu?** | **S**ut ydyn ni'n gwybod**?** |
|---|---|
| Mae gennym weithlu teyrngar, ymroddedig a thalentog sy'n parhau i gyflenwi ein gwasanaethau ac amcanion ar gyfer preswylwyr. Caiff hyn ei ddangos gan ein perfformiad yn 2023/24 ac adborth a gawsom wrth ymgysylltu ar ein strategaeth pobl yn ddiweddar.<br><br>Mae gennym set o bolisi a gweithdrefnau wedi eu sefydlu sy'n llywio ein gwaith Adnoddau Dynol. Mae'r rhain yn cefnogi safonau ac ymddygiad y disgwyliwn i gyflogeion eu cyflawni. Maent hefyd yn caniatáu hyblygrwydd a chyfle i'n gweithlu ddatblygu eu gyrfaoedd yn Sir Fynwy. Os nad yw cyflogeion yn cyrraedd y safonau hyn, mae gennym drefniadau i reoli a datrys y materion hyn.<br><br>Mae gennym gynnig llesiant cryf, yn cynnwys y grŵp 'Mynd Ato', Cwestiyna**u** ac Atebion Arweinwyr, Cwtch Digidol, cwnsela am ddim a gwasanaeth iechyd galwedigaethol gydag enw da. Cawsom adborth bod hyn yn cefnogi llesiant y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn. Ni fu llawer o newid yn ein ffigurau salwch mewn blynyddoedd diweddar, er eu bod ychydig yn uwch na chyfartaledd y diwydiant. Roedd 25% o absenoldebau oherwydd iechyd meddwl yn 2019-20 o gymharu â 24% yn 2022.23. Mae angen | Strategaeth Pobl<br><br>Data rheoli gweithlu |

| | |
|---|---|
| i ni ddeall os yw ein gwasanaethau llesiant yn cael eu defnyddio gan bawb sydd eu hangen. Mae hefyd angen i ni sicrhau fod ein cymorth rheoli gweithlu wedi ei dargedu ac yn cael ei weithredu'n gyson i gefnogi ein cydweithwyr.<br><br>Nid oes gennym ddull gweithredu cydlynus o werthuso staff a dulliau i sicrhau y cynhelir y rhain yn gyson. Mae hyn yn golygu efallai nad oes gan rai cydweithwyr ddealltwriaeth glir o'u cyfraniadau at gyflawni ein blaenoriaethau a dull i fwydo eu sylwadau. Rydym wedi dysgu nad yw dull un maint yn ffitio pawb yn effeithlon ar gyfer y gwahanol gwasanaetha**u** y mae'r cyngor yn eu darparu. Mae hefyd angen i ni gasglu canlyniad y gwerthusiadau hyn i roi dealltwriaeth glir i ni o anghenion hyfforddiant a datblygu. Rydym yn rhoi'r dysgu hwn ar waith i ddatblygu dull newydd o werthuso staff. | |
| **Pa mor effeithlon yw rheoli gweithlu?** | **Sut ydyn ni'n gwybod** |
| Mae gennym ddull hyblyg o gynllunio gweithlu i ddenu a chadw pobl i swyddi yn y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys trefniadau hirsefydlog ar gyfer gweithio ystwyth  gyfer swyddi lle nad oes angen i'r gweithwyr deithio i'w canolfan bob dydd ac ymgyrch recriwtio wedi'i thargedu ar gyfer swyddi neilltuol. Cafodd y rhain beth llwyddiant, er enghraifft ostwng yn y swyddi gwag o fewn ein gweithlu gofal cymdeithasol. Nid yw'r holl drefniadau gennym yn eu lle hyd yma i hwyluso'r sefydliad i gynllunio'r gweithlu mae ei angen i ateb y galw cyfredol a dyfodol. Mae datblygu a chyflenwi ein Strategaeth Pobl newydd yn dynod'ir camau gweithredu a gymerir i wella effeithlonrwydd ein cynllunio gweithlu.<br><br>Rydym yn profi heriau recriwtio mewn sectorau penodol, y rhan fwyaf ohonynt yn cyfateb problemau recriwtio cenedlaetho**l** ehangach. Mae angen i ni esblygu ein proses recriwtio i ddod yn broses sy'n wirioneddol yn caffael talent. Rydym yn datblygu system e-recriwtio, yn seiliedig ar adborth gan ein rheolwyr recriwtio. Bydd hyn o fudd i reolwyr sy'n recriwtio sydd eisiau cyflymder, symlrwydd ac ystwythder.<br><br>Roedd ein trosiant yn uwch mewn blynyddoedd diweddar nag ydym wedi ei weld fel arfer. Mae angen i ni ddeall y rhesymau am hyn a'i ddefnyddio i ddatblygu ein cynllunio gweithlu. Mae angen i ni ddatblygu ein cynnig hyfforddiant i sicrhau fod gan y gweithlu y sgiliau mae ei angen am nawr ac yn y dyfodol. Rydym wedi gweithredu llwyfan rheoli dysgu newydd yn y gyfarwyddiaeth gofal cymdeithasol. Mae hyn wedi gwella effeithlonrwydd rheoli hyfforddiant yn y gyfarwyddiaeth. Cawsom gyfyngiadau technegol a chapasiti wrth ymestyn hyn i gyfarwyddiaethau eraill. Mae hyn wedi cyfyngu ar ein gallu i wella sut ydym yn cynllunio, cyflenwi a rheoli hyfforddian**t** yn gyson ar draws y sefydliad. | Strategaeth Pobl<br><br>Data rheoli gweithlu |
| **Sut y cafodd y maes hwn ar gyfer ei ddatblygu o'r adroddiad diwethaf ei drin?**<br><br>Datblygu strategaeth pobl cydnaws i gyflawni'r ymrwymiadau yng Nghynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28 | **Sut ydyn ni'n gwybod?** |
| Rydyn ni wedi datblygu Strategaeth Pobl sy'n creu'r fframwaith i ni gefnogi a datblygu ein cydweithwyr fel y gellir uchafu cyfraniad pawb. Mae'r strategaeth yn amlygu'r cyfleoedd a'r heriau sy'n ein hwynebu. Mae hefyd yn disgrifio'r pethau sydd angen iddynt fod yn eu lle ar gyfer ein cydweithwyr i ffynnu a llwyddo | Strategaeth Pobl |
| **Meysydd eraill i'w datblygu a ddynodwyd drwy ein hunanasesiad 2023/24** | |

| |
|---|
| Cryfhau trefniadau sy’n cefnogi cynllunio a rheoli gweithlu |

| **Caffael** – Sgôr Gwerthusiad: Lefel 3 Digonol | |
|---|---|
| **Pa mo effeithlon yw caffael strategol?** | **Sut ydyn ni’n gwybod?** |
| Rydym wedi datblygu Strategaeth Caffael Cymdeithasol Gyfrifol 2023-28. Mae hyn yn g**o**sod llwyfan galluogi ar gyfer datblygu polisïau blaengar fydd yn cyflawni mwy o enillion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol sydd wedi eu targedu drwy weithio gyda’n cadwyni cyflenwi. Nid ydym hyd yma wedi datblygu’r polisïau a gweithdrefnau i gefnogi sydd eu hangen i osod disgwyliadau cliriach ar yr hyn yr ydym ei angen gan ein staff a chyflenwyr i gyflawni ein huchelgais yn y strategaeth.<br><br>Rydym yn datblygu Polisi Caffael Cymdeithasol Gyfrifol ar y cyd gyda Chyngor Dinas Caerdydd i weithredu ein huchelgeisiau yn y strategaeth. Mae angen i ni gyflymu ei gwblhau i roi arweiniad clir i swyddogion a’n cadwyni cyflenwi. Bydd y polisi yn rhoi fframwaith llesiant i sicrhau dull gweithredu cyson i gyflenwi ‘Caffael Cymdeithasol Gyfrifol’ sy’n crisialu gofynion deddfwriaethol Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a blaenoriaethau’r cyngor. Bydd yn dynodi nifer o fesurau i’n galluogi i werthuso cynnydd o fewn pob thema llesiant.<br><br>Mae angen i ni ddatblygu gwybodaeth a sgiliau swyddogion sy’n caffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith fel eu bod yn datblygu’r feddylfryd a phrosesau sydd eu hangen i sicrhau gwerth am arian mewn caffael a chyflawni nodau’r strategaeth. Rydym yn darparu cyfres o weithdai a hyfforddiant ar gyfer swyddogion. Rydym hefyd yn llunio cyfres o ganllawiau. Bydd y rhain yn datblygu’r feddylfryd a’r prosesau mae swyddogion eu hangen o amgylch egwyddorion “Prynu yn Gyfrifol” a sicrhau deilliannau caffael gwerth am arian.<br><br>Rydym wedi comisiynu adolygiad technoleg caffael i awtomeiddio a safoni cynifer o ymyriadau â llaw ag sydd modd. Bydd yn broses gymhleth i gyflawni hyn a bydd angen cytundeb ar gyfeiriad ac adnoddau i’w chyflawni. | Strategaeth Caffael Cymdeithasol Gyfrifol 2023-27<br><br>Drafft Bolisi Caffael Cymdeithasol Gyfrifol<br><br>Canllawiau “Prynu yn Gyfrifol”<br><br>Adolygiad technoleg caffael |
| **Meysydd pellach i’w datblygu a ddynodwyd drwy ein hunanasesiad 2023/24** | |
| Cryfhau trefniadau sy’n cefnogi swyddogion sy’n ymwneud â chaffael i gyflawni uchelgeisiau’r Strategaeth Caffael Cymdeithasol Gyfrifol. | |

**Asedau** – Sgôr Gwerthusiad: Lefel 4 Da

| **Pa mor effeithlon yw Rheoli Asedau strategol?** | **Sut ydyn ni’n gwybod?** |
|---|---|
| Rydym wedi datblygu Strategaeth Rheoli Asedau 2023-2027 sy’n llywio’r ffordd y caiff penderfyniadau eu gwneud a sut y caiff tir ac eiddo’r cyngor ei reoli o ddydd i ddydd. Mae’n gosod pump amcan clir ar gyfer tir ac eiddo i gyflawni amcanion y cyngor. Mae hefyd yn sefydlu’r fframwaith polisi cefnogi y caiff y strategaeth ei gweithredu ohono. Caiff y Strategaeth Rheoli Asedau ei chefnogi gan Gynllun Rheoli Asedau sy’n dynodi’r camau gweithredu i gyflawni’r strategaeth. Bydd angen i hyn gael ei werthuso i asesu’r cynnydd a’r effaith. | Strategaeth Rheoli Asedau a Chynllun Rheoli Asedau<br><br>Severn View Park |

| | |
|---|---|
| Rydym wedi cwblhau prosiectau adeiladu sylweddol yn y flwyddyn ddiwethaf, gan wella gwasanaethau i breswylwyr a chefnogi gweithgaredd cymunedol. Er enghraifft, yr ydym wedi datblygu Severn View Park a'i agor ym mis Mawrth 2024, cartref gofal arbenigol ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia. Mae'r cartref gofal yn cynnig dyluniad amgylcheddol pwrpasol, yn seiliedig ar safonau arfer gorau arloesol ar gyfer pobl gyda dementia a model gofal sy'n canoli ar berthynas. Rydym hefyd wedi datblygu ac agor Hyb Cymunedol Magwyr a Gwndy ar gost o £2.9 miliwn mewn partneriaeth gyda phrosiect Hyb Cymunedol Magwyr gyda Gwndy (MUCH). Roedd y datblygiad yn seiliedig ar ymgyfraniad helaeth gan y gymuned a chafodd ei gynllunio yn seiliedig ar adborth preswylwyr. Mae'r safle yn cynnig gofodau ar gyfer defnydd y gymuned a digwyddiadau masnachol, yn ogystal â photensial ar gyfer twf busnesau bach. Mae grŵp MUCH nawr yn defnyddio a rheoli'r hyb cymunedol ar gyfer hyrwyddo uniongyrchol ar ddefnydd y gymuned yn cynnwys gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol, hamdden a chwaraeon a gweithgareddau cymunedol eraill.<br><br>Mae angen i ni gryfhau ein trefniadau llywodraethu i gyflenwi'r strategaeth i wella gwneud penderfyniadau a bod yn fwy rhagweithiol wrth reoli asedau. Mae angen gweithredu trefniadau llywodraethu wedi eu diwygio a'u diweddaru a nodir yn y strategaeth. Mae hefyd angen i ni werthuso canlyniad ac effaith ein rhaglen cyfalaf, fel y dynodwyd gan Archwili**o** Cymru. | Hyb Cymunedol Magwyr a Gwndy |
| **Pa mor effeithlon yw Rheoli Asedau gweithredol?** | **Sut ydyn ni'n gwybod?** |
| Rydym yn cynnal astudiaethau dichonolrwydd, asesiadau technegol ac arolygon ar eiddo, seilwaith ac asedau. Mae'r rhain yn sail i'n cynlluniau cyllideb gyfalaf ac amserlenni cynnal a chadw yn unol â phrosesau a sefydlwyd. Bydd angen cryfhau gwneud penderfyniadau ar reoli ein hasedau yn unol â'r dulliau a sefydlwyd yn ein Strategaeth Rheoli Asedau. Mae gennym nifer sylweddol o bwysau cynnal a chadw ar gyfer ein hasedau, yn cynnwys eiddo a seilwaith priffyrdd a hawliau tramwy cyhoeddus sydd tu allan i unrhyw botensial i'w hariannu o fewn y cynllun ariannol tymo**r** canol cyfalaf. Mae gan y rhain risg sylweddol.<br><br>Rydym wedi gwella cydlynu gweithgaredd rheoli eiddo a chyfleusterau yn y sefydliad. Er enghraifft, wrth ddatblygu bythynnod amaethyddol i fod yn llety arall. Gellir cryfhau ymhellach y cydweithio rhwng adrannau a rheoli disgwyliadau i gydlynu rheoli eiddo a chyfleusterau ar draws meysydd gwasanaeth y cyngor. | Strategaeth Rheoli Asedau a Chynllun Rheoli Asedau<br><br>Cynllun ariannol tymor canol cyfalaf |
| **Sut y cafodd y maes i'w ddatblygu o'r adroddiad diwethaf ei drin?**<br><br>Datblygu strategaeth rheoli asedau wedi ei diweddaru ac sy'n gydnaws i gyflenwi'r ymrwymiadau yng Nghynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28 | **Sut ydyn ni'n gwybod?** |
| Rydym wedi diweddaru ein Strategaeth Rheoli Asedau. Cefnogir y strategaeth gan Gynllun Rheoli Asedau sy'n amlinellu'r camau gweithredu a gaiff eu cynnal yn unol â'r strategaeth. Mae'r Cynllun Rheoli Asedau yn cynnwys y camau gweithred**u** a'r amcanion a gytunwyd yng nghyswllt swyddogaethau a phortffolios tir ac eiddo, yn cynnwys y trefniadau llywodraethian**t** ar gyfer parhau i fonitro a gwerthuso'**r** Portffolio Buddsoddi. Caiff y Cynllun Rheoli Asedau ei adolygu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn parhau i roi'r sicrwydd priodol y caiff gwerth am arian a'r ystyriaeth orau ei gyflawni. | Strategaeth Rheoli Asedau a Chynllun Rheoli Asedau |
| **Meysydd pellach i gael eu datblygu a ddynodwyd drwy ein hunanasesiad 2023/24** | |

**Digidol a Data –** Sgôr Gwerthusiad: Lefel 3 digonol

| **Pa mor effeithlon yw'r datblygiad o ddigidol?** | **How do we know?** |
|---|---|
| Rydym wedi dilyn ein cynllun digidol i gyflwyno prosiectau digidol sydd â ffocws ar wella gwasanaethau ar gyfer preswylwyr a chwsmeriaid. Er enghraifft, yr ydym wedi datblygu ein gwasanaethau technoleg gynorthwyol i ddarparu datrysiadau technolegol i gefnogi a galluogi pobl i fyw'n gysurus ac yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain.<br><br>Mae gennym drefniadau partneriaeth cryf yn eu lle ar gyfer digidol gyda SRS (Gwasanaeth Rhannu Adnoddau), awdurdodau lleol cyfagos a phartneriaid cenedlaethol. Mae'r rhain wedi arwain at ddatblygu pum prosiect digidol a data ar y cyd dan arweiniad SRS, gyda ffocws ar wasanaethau cwsmeriaid, defnydd deallusrwydd artiffisial a deall data. Mae'r prosiectau hyn yn defnyddio'r wybodaeth a'r sgiliau o fewn y maes hwn yn ein rhwydwaith partneriaeth ac yn galluogi rhannu dysgu ar faterion cyffredin ar draws awdurdodau lleol.<br><br>Nid ydym wedi medru cyflawni ein holl uchelgeisiau digidol yn y flwyddyn, yn arbennig oherwydd gostwng capasiti ein tîm digidol. Mae gennym uchelgais i ddefnyddio datrysiadau digidol fel ffordd i drawsnewid y ffordd y gweithiwn ac y cyflwynwn ein huchelgeisiau yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol. Dywedodd adolygiad gan Archwilio Cymru nad oes gennym ddull strategol wedi'i fanylu'n glir ar gyfer digidol. Rydym yn datblygu strategaeth ddigidol a data i ffocysu ein cyfeiriad strategol i gyflawni ein camau gweithredu. Mae angen i ni hefyd gryfhau sut ydym yn rhoi blaenoriaeth i brosiectau yn seiliedig ar y deilliannau y gallant ei gyflawni a sut ydym wedyn yn gwerthuso effaith digidol, yn cynnwys effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.<br><br>Rydym wedi sefydlu trefniadau diogelwch gwybodaeth a thechnoleg i sicrhau fod yr wybodaeth a ddelir gan y cyngor yn parhau'n gyfrinachol a chywir ac ar gael i'r rhai sydd angen mynediad iddi fel rhan o'n gwaith. Rydym yn cefnogi, cynghori a hyfforddi ein gweithlu. Rhoddir hyfforddiant gorfodol ar GDPR a seibr-ddiogelwch, ynghyd â chanllawiau cynhwysfawr a pholisïau ar gyfer pob agwedd arall o reoli data.<br><br>Rydym wedi datblygu amrywiaeth o hyfforddiant ar gyfer swyddogion i wella llythrennedd digidol ar draws y sefydliad. Roedd hyn yn cynnwys fframwaith sgiliau hanfodol ar gyfer sgiliau digidol sylfaenol a chynefino digidol a chaiff ei ymestyn ar ein llwyfan hyfforddiant corfforaethol. Gwyddom fod datblygiad parhaus mewn sgiliau digidol yn hanfodol i gyflawni ein huchelgais Mae angen i ni barhau i ddatblygu adnoddau hyfforddiant digidol i alluogi staff i barhau i wella eu sgiliau digidol. | Cynllun Busnes Gwasanaethau Digidol<br><br>Strategaeth Digidol a Data<br><br>Trefniadau diogelwch gwybodaeth a llywodraethu. |
| **Pa mor effeithlon yw datblygu data?** | |
| Rydym wedi dilyn ein cynllun gweithredu data yn y flwyddyn i gyflenwi prosiectau gyda ffocws ar ddarparu dealltwriaeth yn defnyddio ein data i lywio ein darpariaeth gwasanaeth a datblygu polisi. Er enghraifft, yr ydym wedi datblygu dangosfyrddau perfformiad newydd ar gyfer pob cyfarwyddiaeth a'n Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol. Rydym hefyd wedi datblygu dadansoddiad | Cynllun Busnes Gwasanaeth |

| | |
|---|---|
| data ar dlodi a diffyg cydraddoldeb, gweithlu, ein cyllidebau a defnydd ynni. Rydym wedi cefnogi defnydd geo-ofodol i gael ei ddiweddaru'n awtomatig o systemau mewnol a ffynonellau allanol drwy ein Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS). Mae'r rhain yn rhoi dealltwriaeth data i lywio cynllunio a darpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol.<br><br>Nid ydym wedi medru cyflawni ein holl uchelgais data yn y flwyddyn. Mae angen i ni harneisio ymhellach a chysylltu data fel ased ar draws y cyngor. Mae hefyd angen i ni wella ein aeddfedrwydd data ar draws y sefydliad. Mae gennym uchelgais i ddefnyddio data i lywio sut ydym yn trawsnewid ein ffordd o weithio a chyflawni ein huchelgais yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol. Rydym yn datblygu strategaeth ddigidol a data i ganolbwyntio ein cyfeiriad strategol i gyflawni ein camau gweithredu. Mae hefyd angen i ni gryfhau sut y rhoddwn flaenoriaeth i brosiectau yn seiliedig ar y deilliannau y gallant eu cyflawni a sut ydym wedyn yn gwerthuso effaith data, yn cynnwys effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.<br><br>Nid oes gennym yr holl sgiliau yr ydym eu hangen i gyflawni ein camau gweithredu o fewn y cyngor. Mae angen i ni adeiladu ar weithio partneriaeth presennol a datblygu ein cydweithio ymhellach i gyflawni ein nodau ar gyfer data. Rydym wedi datblygu hyfforddiant ar gyfer swyddogion i wella sgiliau data. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar ddefnydd offerynnau gwybodaeth busnes. Mae angen i ni barhau i ddatblygu adnoddau hyfforddiant i alluogi staff i barhau i wella eu sgiliau data. | Perfformiad a Dealltwriaeth Data<br><br>Strategaeth Ddigidol a Data |
| **Sut y cafodd y maes ar gyfer ei ddatblygu o'r adroddiad diwethaf ei drin?**<br><br>Datblygu Strategaeth Ddigidol gydnaws i gyflenwi'r ymrwymiadau yng Nghynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28 | **Sut ydyn ni yn gwybod?** |
| Rydym wedi datblygu Strategaeth Ddigidol a Data sy'n gosod ein huchelgais a blaenoriaethau integredig ar gyfer defnyddio digidol a data i wella gwasanaethau a deilliannau ar gyfer preswylwyr. Mae'n nodi ein nodau tymor hirach a chamau gweithredu dechreuol i'w cyflawni. Bydd ein dull yn tyfu yn unol â'n cynnydd a datblygiadau yn y maes digidol a data. | Strategaeth Ddigidol a Data |
| **Meysydd pellach ar gyfer eu datblygu a ddynodwyd drwy ein hunanasesiad 2023/24** | |
| Cryfhau'r capasiti a'r gallu i gyflawni yr uchelgais yn y strategaeth ddigidol a data. | |

**Democratiaeth a Chraffu – Sgôr Gwerthusiad: Lefel 4: Da**

| Pa mor effeithlon y caiff adnoddau eu defnyddio? | Sut ydyn ni'n gwybod? |
|---|---|
| Mae'r defnydd o bresenoldeb o bell yng nghyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a pwyllgorau wedi ei sefydlu'n llawn. Mae gan hyn fanteision cadarnhaol ar gyfer y rheiny sydd ag ymrwymiadau gwaith neu deuluol a all gymryd rhan mewn cyfarfodydd na fyddent wedi medru eu mynychu fel arall. Roedd presenoldeb yn y cyfarfodydd yn 94% ym mlwyddyn ddinesig 22-23 o gymharu â 86% yn y flwyddyn flaenorol a 86% yn ystod blwyddyn gyntaf cyfnod blaenorol y cyngor. Mae diwygiadau i newidiadau yn y pwyllgorau craffu wedi gostwng dyblygu, er enghraifft caiff adroddiadau cyllideb a pherfformiad yn awr eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg yn hytrach na chyflwyno yr un adroddiad i bedwar cyfarfod ar wahân. | Ffigurau presenoldeb<br><br>Datganiad Blynyddol ar Lywodraethu |
| **Meysydd pellach ar gyfer eu datblygu a ddynodwyd drwy ein hunanasesiad 2023/24** | |

## Ein gwaith gydag eraill

Er mwyn cyflawni'r deilliannau sydd eu hangen ar gyfer y sir mae angen i ni gydweithio gydag ystod o bartneriaid, rhanddeiliaid a'n cymunedau. Ni fydd gan y cyngor yr holl atebion i ddatrys yr heriau sy'n wynebu'r sir ac ni fyddwn yn medru cyflawni'r deilliannau sydd eu hangen ar ein pen ein hunain. Mae cydweithio gydag eraill yn cynyddu'r tebygrwydd y gallwn ddatblygu datrysiadau effeithlon a chynaliadwy.

**Rhanddeiliaid a gweithio partneriaeth**

| Pa mor effeithlon mae'r cyngor yn gweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid ar ddeilliannau a gytunwyd? | Sut ydyn ni'n gwybod |
|---|---|
| Mae gweithio mewn partneriaeth yn un o'r ffyrdd y gallwn gyflawni ein hamcanion tra'n sicrhau gwerth am arian. Rydym yn ymrwymo i drefniadau cydweithio yn bwyllog gan ddeall yn glir sut y gallant ein helpu i gyflawni ein amcanion. Yn rhanbarthol yr ydym yn gweithio gyda llawer o sefydliadau mawr mewn partneriaeth yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent i gyflawni ein hymrwymiadau ar, er enghraifft, ddatgarboneiddio, trafnidiaeth, iechyd a gofal cymdeithasol, tai ac adfywio. Dynododd adolygiad Archwilio Mewnol fod lefel resymol o sicrwydd yn ei lle ar gyfer trefniadau llywodraethu yr awdurdod yn seiliedig ar sampl o bartneriaethau. Dynododd yr archwiliad fod angen i ni gryfhau ein canllawiau ar y trefniadau mae partneriaethau angen eu cael yn eu lle a rhoi sicrwydd i'n hunain y cydymffurfir â'r rhain yn ddilynol. Rydym wedi datblygu pecyn cymorth partneriaeth ac mae angen i ni gwblhau ei weithrediad. Roedd ffocws yr archwiliad ar asesu a chynllunio. Mae angen i swyddogion arweiniol y cyngor ar bartneriaethau werthuso os yw'r deilliannau a ddisgwylid o bartneriaethau eu gwireddu.<br><br>Cafodd Cydbwyllgor Corfforaethol De Ddwyrain Cymru gyfrifoldeb cyfreithiol am baratoi'r Cynlluniau Datblygu Strategol Rhanbarthol, Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol ac am wneud beth bynnag y credid oedd angen i wella neu hyrwyddo llesiant economaidd yr ardal. Mae'r pwyllgor yn cynnwys arweinwyr y deg awdurdod lleol yn Ne Ddwyrain Cymru. Caiff yr holl bapurau llywodraethu eu cyhoeddi ar wefan Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Caiff y trefniadau eu goruchwylio gan gydbwyllgor yn cynnwys cynrychiolwyr o'r deg awdurdod lleol gyda Archwilio Cymru yn cynnal gweithgaredd rheoleiddio ychwanegol.<br><br>Mae partneriaethau a chydweithio o bob maint yn bwysig i sicrhau gwell deilliannau yn y sir. Rydym yn ymroddedig i gryfhau ein cydweithio gyda chynghorau cymuned a thref a defnyddio arbenigedd a brwdfrydedd y llu o wirfoddolwyr a grwpiau cymunedol sy'n gwneud y sir hon mor arbennig. | Adolygiad Archwilio Mewnol ar bartneriaethau a chydweithio. |

| Meysydd pellach i'w datblygu a ddynodwyd drwy ein hunanasesiad 2023/24 |
|---|
| Gwerthuso os yw'r deiliannau a ddisgwylid gan bartneriaethau yn cael eu gwireddu a'r effaith ar gyflawni amcanion y cyngor. |

# Ein Camau Gweithredu

Drwy'r hunanasesiad yr ydym wedi dynodi pa mor dda yr ydym yn gwneud a'r hyn y gallwn ei wneud yn well. Nid dynodi'r rhain yw diwedd y broses hunanasesiad. Byddwn yn anelu i adeiladu ar a dysgu o'r meysydd sy'n mynd yn dda a mynd i'r afael â meysydd lle gallwn wneud yn well.

Mae gan y cynllun gweithredu ffocws penodol ar beth, a sut, y gallwn wneud yn well ar gyfer casgliadau sylweddol yr asesiad. Bydd yr holl ganfyddiadau yn llywio datblygiad amcanion a chynlluniau cyflenwi llesiant y cyngor. Byddant yn llywio sut y dylai prosesau a gweithdrefnau mewnol newid i gefnogi cynllunio, cyflenwi a gwneud penderfyniadau mwy effeithlon i sicrhau gwell deilliannau a ffyrdd i gyflawni swyddogaethau'r cyngor. Mae'r rhain hefyd yn integreiddio gyda chamau gweithredu pellach a ddynodir yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24 y Cyngor.

Caiff y camau gweithredu eu monitro drwy'r flwyddyn fel rhan o drefniadau rheoli perfformiad y cyngor. Bydd yr adroddiad hunanasesiad nesaf hefyd yn cynnwys asesiad o'r cynnydd a wnaed ar y camau gweithredu hyn.

## Cynnydd ar Gamau Gweithredu 2022/23

Rydym wedi rhoi diweddariad ar gynnydd ar y camau gweithredu y gwnaethom eu dynodi yn adroddiad hunanasesiad 2022/23. Mae asesiad mwy manwl o'r trefniadau yn adran berthnasol yr adroddiad.

| Adran | Yr hyn y gallwn ei wneud yn well | Sut | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Deilliannau** | Sicrhau fod ymyriadau i gyflawni amcan Lle Teg i Fyw yn seiliedig ar dystiolaeth, bod ganddynt dargedau, y cânt eu cyfathrebu'n glir a'u gwerthuso i asesu effaith | Datblygu cynlluniau clir i gyflawni'r ymrwymiadau yng Nghynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28 | Caiff cynllun gweithredu tlodi ac anghydraddoldeb ei ddatblygu i roi ffocws clir ar gyfer gweithgaredd y cyngor i gyflawni amcan Lle Teg i Fyw. Mae hyn i gael ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2024. Caiff y cam gweithredu ei gario ymlaen i gynllun gweithredu 2023/24. |
| **Deilliannau** | Cyflynu cyflenwi strategaeth y Cyngor ar ddatgarboneiddio. | Diwygio cynlluniau'r cyngor i gyflawni ei ymrwymiad i fod yn sero net erbyn 2030. | Datblygwyd Strategaeth Hinsawdd a Natur ddiwygiedig, yn gydnaws gyda'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol. Caiff y strategaeth ei chyflenwi gan bedwar cynllun gweithredu ar ddatgarboneiddio, bioamrywiaeth ac adfer natur, afonydd a moroedd a newid hinsawdd cymunedol.<br><br>Sefydlwyd sut y caiff y strategaeth ei gwerthuso. Daeth ein hunanasesiad i'r casgliad fod heriau wrth gyflawni ein nodau dargarboneiddio. Bydd angen i gynnydd ac effaith y strategaeth gael eu gwerthuso'n rheolaidd. |

| Adran | Yr hyn y gallwn ei wneud yn well | Sut | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Deilliannau** | Defnyddio’r dadansoddiad economaidd a gomisiynwyd i lywio datblygiad Strategaeth Economi, Cyflogaeth a Sgiliau | Datblygu Strategaeth Economi, Cyflogaeth a Sgiliau i gyflawni’r ymrwymiadau yng Nghynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28 | Cafodd Strategaeth a Chynllun Gweithredu Economi, Cyflogaeth a Sgiliau ei datblygu a’u cymeradwyo, yn gydnaws gyda’r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol.<br><br>Sefydlwyd sut y caiff y strategaeth ei gwerthuso. Bydd angen gwerthuso cynnydd ac effaith y strategaeth yn rheolaidd. |
| **Deilliannau** | Manylu a gwerthuso cynlluniau yn glir i gyflenwi gofal cymdeithasol ansawdd uchel i oedolion a phlant | Datblygu cynlluniau clir i gyflawni’r ymrwymiadau yng Nghynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28 | Cafodd cynlluniau eu creu ar gyfer rhannau sylweddol o’n darpariaeth Gofal Cymdeithasol oedd angen eu datblygu. Maent yn cynnwys strategaeth ar gyfer gofal yn y cartref a gomisiynwyd 2024 – 2034 yn cynnwys cynllun gweithredu, a’r dull ar gyfer datblygu lleoliadau preswyl i blant a llety â chymorth ar gyfer rhai 16+ oed.<br><br>Mae’r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd hefyd wedi cynhyrchu adroddiad blynyddol ar gyfer y Cyngor yn gwerthuso perfformiad mewn Gofal Cymdeithasol Plant ac Oedolion a gosod camau gweithredu blaenoriaeth ar gyfer y dyfodol.<br><br>Bydd angen i gynnydd ac effaith y strategaethau a’r blaenoriaethau hyn gael eu gwerthuso’n rheolaidd. |
| **Deilliannau** | Sicrhau cyflawni’r cynllun gweithredu sy’n anelu mynd i’r afael ag argymhellion a ddynodwyd gan Estyn | Cyflawni ac asesu cynnydd ar y cynllun gweithredu a argymhellwyd gan Estyn | Roedd themâu’r arolwg yn cynnwys ceisio rhagoriaeth, creu gweledigaeth a strategaeth holistig ar gyfer dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol, sicrhau deilliannau gwell ar gyfer ein dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim a gwella’r ffordd y defnyddiwn ddata yn ein gwerthusiadau.<br><br>Caiff y cynllun gweithredu i drin yr argymhellion o arolwg Estyn ei weithredu. Mae’r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol yn awr yn rhoi fframwaith clir ar gyfer gweithredu a gwerthuso gwasanaethau i sicrhau ein bod yn gweithio yn y ffordd fwyaf effeithlon yn y meysydd angen. Caiff y cynnydd ar argymhellion Estyn eu cynnwys fel rhan o adroddiad blynyddol y Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc i’r Cyngor. Mae’n anos ffurfio barn gyffredinol ar argymhellion |

| Adran | Yr hyn y gallwn ei wneud yn well | Sut | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | Estyn oherwydd eu meysydd ffocws: cynnydd dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a safonau rhagorol sydd angen mynediad mwy helaeth i ysgolion i ddeall a rhoi tystiolaeth o gynnydd. Caiff y cam gweithredu hwn ei gario ymlaen i gynllun gweithredu 2023/24. |
| **Adnoddau** | Strategaethau galluogi clir cydnaws i gyflawni'r ymrwymiadau yng Nghynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28 | Datblygu strategaethau galluogi cydnaws i gyflawni'r ymrwymiadau yng Nghynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28 | Y strategaethau galluogi a ddatblygwyd yw: Strategaeth Caffael Cymdeithasol Gyfrifol, Strategaeth Ariannol Tymor Canol, Strategaeth Rheoli Asedau, Strategaeth Pobl a Strategaeth Ddigidol a Data. Mae'r rhain yn gydnaws i gyflawni'r ymrwymiadau yng Nghynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28. Mae Strategaeth Cwsmeriaid yn cael ei datblygu.<br><br>Bydd angen gwerthuso cynnydd ac effaith y strategaethau hyn yn rheolaidd yn unol â'r trefniadau adrodd a sefydlwyd yn y strategaeth. |
| **Adnoddau** | Sefydlu cyflawni'r ymrwymiadau yng Nghynllun Corfforaethol a Chymunedol 2022-28 o fewn fframwaith perfformiad y cyngor | Sefydlu camau gweithredu o fewn cynlluniau busnes gwasanaeth | Mae cymeradwyo'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol wedi sicrhau cyfeiriad clir  gyfer y cyngor. Dengys ein hunanasesiad o'n fframwaith perfformiad y cafodd y camau gweithredu yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol eu sefydlu yn bennaf yn y fframwaith rheoli perfformiad. Dengys hyn fod angen i gryfhau aliniad rhai cynlluniau busnes gwasanaeth ymhellach. |
| | | Adolygu'r broses hunanasesiad i lywio datblygu cynlluniau busnes gwasanaeth a'r adroddiad hunanasesiad nesaf | Cafodd y broses Hunanasesiad ei sefydlu yn fframwaith rheoli perfformiad y cyngor. Mae'r broses hon wedi hwyluso cwblhau gwerthusiad cadarn o berfformiad. Dangosodd sicrwydd ansawdd ar gynlluniau busnes gwasanaeth nad yw rheolwyr bob amser yn gweithredu ffordd o feddwl hunan-werthusol yn gyson wrth ddiweddaru cynlluniau busnes gwasanaethau. Mae cryfhau hunanwerthusiad o fewn cynlluniau yn gam gweithredu sy'n parhau, bydd hyn yn llywio tystiolaeth yn yr adroddiad hunanasesiad. |

| Adran | Yr hyn y gallwn ei wneud yn well | Sut | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Rhanddeiliaid a Phartneriaeth** | Cryfhau sut y gweithiwn gyda ac wrth ochr cymunedau yn unol â'r ymrwymiadau yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol. | Datblygu cynllun clir ar gyfer ymgyfraniad cydnaws gyda'r ymrwymiadau yng Nghynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28. | Rydym wedi datblygu porth sy'n anelu i osod rhai o'r rhyngwynebau allweddol a'r ffyrdd y gall pob dinesydd y mae gwaith y cyngor yn effeithio arnynt lunio a dylanwadu eu cymuned a'r Sir i gydweithio am sir decach, gwyrddach a mwy llwyddiannus.<br><br>Mae ein hunanasesiad yn dynodi llawer o feysydd lle'r ydym wedi cynnwys preswylwyr wrth gyflawni ein cynllun cymunedol a chorfforaethol yn y flwyddyn ddiwethaf. Er enghraifft, yr ydym wedi ymwneud yn helaeth yn ystod cynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol Newydd a hefyd yn gweithio mewn partneriaeth i gynhyrchu prif gynlluniau canol tref.<br><br>Sylweddolwn fod dal i fod angen i ni gryfhau ymgyfraniad a chyd-gynhyrchu dull gwahanol o gyfranogiad y cyhoedd. |

## Meysydd newydd i gael datblygu: Beth a sut y gallwn wneud yn well?

| Adran | Yr hyn y gallwn ei wneud yn well | Sut | Pwy | Pryd |
|---|---|---|---|---|
| **Deilliannau** | Sicrhau fod ymyriadau i gyflawni amcan Lle Teg i Fyw yn seiliedig ar dystiolaeth, bod ganddynt dargedau, y cânt eu cyfathrebu'n glir a'u gwerthuso i asesu effaith. | Datblygu cynllun gweithredu ar dlodi a diffyg cydraddoldeb i gyflawni'r ymrwymiadau yng Nghynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28 | Prif Swyddog Cymunedau a Lle | Rhagfyr 2024 |
| **Deilliannau** | Sicrhau bod gwasanaethau help cynnar ac atal yn effeithlon wrth fedru ateb y galw cyfredol ac atal, cyn belled ag sy'n bosibl, alw'r dyfodol. | Cwblhau gwerthusiad o berfformiad gwasanaethau help cynnar ac ataliol, fel rhan o adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a defnyddio'r canfyddiadau fel sail i gamau gweithredu y dyfodol | Prif Swyddog, Gofal Cymdeithas, Diogelu ac Iechyd | Tachwedd 2024 |
| **Deilliannau** | Cynyddu ffocws gweithgareddau'r cyngor ar wella penderfynyddion cymdeithasol iechyd | Defnyddio'r argymhellion yn adroddiad Adeiladu Gwent Decach: Gwella tegwch iechyd a phenderfynyddion cymdeithasol i lywio cynllunio gwasanaeth y cyngor | Prif Swyddog Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau | Ebrill 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Deilliannau** | Sicrhau cyflawni'r cynllun gweithredu sy'n anelu i fynd i'r afael â'r argymhellion a ddynodwyd gan Estyn | Cyflawni ac asesu cynnydd ar Gynllun Gweithredu argymhellion Estyn | Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc | Yn unol â'r cynllun gweithredu |
| **Deilliannau** | Datblygu'r cynnig cymorth ar gyfer ysgolion a disgyblion i ostwng ac atal gwaharddiadau | Datblygu strategaeth cynhwysiant ar gyfer darparu gwasanaethau cynhwysiant ar draws Sir Fynwy | Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc | Tachwedd 2024 |
| **Deilliannau** | Datblygu'r cynnig cymorth ar gyfer dysgwyr difreintiedig i gyflawni eu potensial | Datblygu dull gweithredu i'r awdurdod cyfan ar gefnogi dysgwyr difreintiedig yn cynnwys gweithio gyda EAS | Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc | Tachwedd 2024 |
| **Galluogwyr** | Cynyddu'r ffocws ar ddeilliannau yn fframwaith mesur y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol | Adolygu a diwygio fframwaith mesur y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol | Prif Swyddog Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau | Medi 2024 |
| **Galluogwyr** | Cryfhau trefniadau sy'n cefnogi cynllunio a rheoli gweithlu | Datblygu a chyflenwi'r cynllun gweithredu yn y Strategaeth Pobl | Prif Swyddog Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau | Yn unol â'r cynllun gweithredu |
| **Galluogwyr** | Cryfhau trefniadau sy'n cefnogi swyddogion yn ymwneud â chaffael i gyflawni uchelgeisiau'r Strategaeth Caffael Cymdeithasol Gyfrifol | Datblygu canllawiau cyson, hyfforddiant a chymorth ar gyfer swyddogion sy'n ymwneud â chaffael | Prif Swyddog Cymunedau a Lle | Hydref 2024 |
| **Galluogwyr** | Cryfhau capasiti a gallu i gyflawni'r uchelgais yn y strategaeth ddigidol a datblygu | Datblygu a chyflawni'r cynllun gweithredu yn y Strategaeth Ddigidol a Data | Dirprwy Brif Weithredwr a Phrif Swyddog Adnoddau | Yn unol â'r cynllun gweithredu |
| **Rhanddeiliad a Phartneriaeth** | Gwerthuso os yw'r deilliannau a ddisgwylid gan bartneriaethau yn cael eu gwireddu a'u heffaith ar gyflawni amcanion y cyngor. | Gweithredu'r pecyn cymorth partneriaeth i hwyluso swyddogion arweiniol y cyngor ar gyfer partneriaethau a ddynodwyd i werthuso os yw'r deilliannau a ddisgwylid gan y bartneriaeth yn cael eu gwireddu. | Prif Swyddog Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau a swyddogion arweiniol partneriaeth | Mawrth 2025 |





# Mesurau Perfformiad

Mae defnyddio dulliau mesur perfformiad yn un o'r dulliau pwysig i asesu ein perfformiad. Mae gan bob un o'n nodau ddulliau mesur perfformiad penodol wedi eu gosod i fonitro cynnydd. Nodir rhai dangosyddion perfformiad perthnasol eraill a ddefnyddiwn i asesu perfformiad ein gwasanaethau yn yr adran hon.










Gosodwyd dangosyddion cenedlaethol fel rhan o'r Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer mesur y cynnydd tuag at gyflawni nodau llesiant yng Nghymru gyfan. Er na fydd y dangosyddion cenedlaethol yn mesur perfformiad cyrff cyhoeddus unigol na byrddau gwasanaethau cyhoeddus, mae'n bwysig iddynt gael eu hystyried i olrhain y cynnydd a wneir i wella llesiant yn Sir Fynwy. Cynhwysir rhai o'r dangosyddion cenedlaethol sy'n berthnasol i'r amcanion yr ydym ni wedi eu gosod, pan fydd diweddariad ar gael ar lefel sirol, yn y tabl isod.








**Mesurau tymor hwy yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28**











Ochr yn ochr â'r mesurau penodol a gynhwysir dan bob amcan mae'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol hefyd yn cynnwys mesurau ar gyfer pob amcan y dymunwn eu holrhain oherwydd y byddant yn sail i'n gwaith. Rydym am weld symudiad cadarnhaol yn y mesurau hyn, ond maent yn bethau lle mai dim ond rhan o ddarlun llawer mwy yw ein mewnbwn ni. Gellir gweld y diweddariad diweddaraf o'r mesurau isod. Mae'r llinell gymharu goch mewn rhai graffiau a welir isod yn dangos data cyfartalog Cymru, lle mae ar gael.


| **Mesurau tymor hirach yng Nghynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-2028** | **Tueddiad Sir Fynwy [3]**<br>(tueddiad Cymru mewn coch lle mae ar gael) | **Diweddaraf** |
|---|---|---|
| **Lle teg i fyw** | | |
| Canran plant sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel cymharol[xviii] |  | 17.4 |
| Canran pobl yn byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol[xix] |  | 8 |
| Gwahaniaeth mewn tâl cyfartalog rhwng dynion a menywod yn gweithio yn y sir (£) |  | 100 |
| **Lle gwyrdd i fyw** | | |
| Gwastraff bwyd a gaiff ei gipio o'r ffrwd gwastraff a'i anfon i dreulio anaerobig (tunellau metrig) |  | 5,062 |

[3] Data tueddiad blynyddol am y 5 mlynedd blaenorol, lle mae ar gael. Mae rhai gostyngiadau mewn tueddiadau data yn ganlyniad y pandemig coronafeirws.

| Mesurau tymor hirach yng Nghynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-2028 | Tueddiad Sir Fynwy [3] (tueddiad Cymru mewn coch lle mae ar gael) | Diweddaraf |
|---|---|---|
| Gwastraff gweddilliol blynyddol cyfartalog a gynhyrchir fesul person (kilograms)[xx] |   | 125.39 |
| Lefel cyfartalog llygredd nitrogen deuocsid yn yr aer (µg/m3), a fesurir mewn Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn Sir Fynwy[xxi] |   | 6 |
| Nifer eiddo mewn risg canolig neu uchel o lifogydd [xxii] | Data tueddiad ddim ar gael | 1825 |
| Canran cyrff dŵr dalgylch afonydd mewn Ardal Arbennig o Gadwraeth sy'n methu'r targedau ar ffosffadau[xxiii] | Data tueddiad ddim ar gael | 88 i'r Wysg<br>67 i'r Gwy |
| **Lle sy'n ffynnu ac sy'n uchelgeisiol** | | |
| Cyfartaledd nifer pobl sy'n ymweld â chanol trefi bob awr[xxiv] |   | 288 |
| Canran adeiladau gwag yng nghanol trefi[xxv] |   | 8.8 |
| Nifer teithwyr rheilffordd yn defnyddio gorsafoedd trên Sir Fynwy[xxvi] |   | 625,374 |
| Traffig cerbydau yn ôl awdurdod lleol (miliwn o filltiroedd) [xxvii] |   | 947 |
| Incwm i'w wario gros aelwydydd fesul pen (£)[xxviii] |   | 22,720 |
| **Lle diogel i fyw** | | |
| Canolrif prisiau tai o gymharu gyda chanolrif enillion seiliedig yn y gweithle[xxix] |   | 9.22 |
| Cyfradd aelwydydd anfwriadol ddigartref ac mewn angen blaenoriaeth fesul 10,000 aelwyd |   | 67 |
| Canran tai cymdeithasol a ddyrannwyd i aelwydydd digartref |   | 57 |

| Mesurau tymor hirach yng Nghynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-2028 | Tueddiad Sir Fynwy [3] (tueddiad Cymru mewn coch lle mae ar gael) | Diweddaraf |
|---|---|---|
| Allyriadau carbon cyfartalog y pen yn Sir Fynwy (tunnell metrig)[xxx] |   | 9.1 |
| Cyfradd digwyddiadau gwrthgymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth |   | 13.1 |
| Nifer achosion o drais a throseddau rhywiol a gyflawnwyd[xxxi] |   | 200 |
| Canran pobl sy'n teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi, yn cerdded yn eu hardal leol a phan yn teithio[xxxii] |   | 75 |
| Canran cartrefi sydd â graddiad effeithlonrwydd iechyd o C neu uwch[xxxiii] |   | 50.5 |
| Canran y rhai a atgyfeiriwyd at y gwasanaeth troseddu ieuenctid sy'n aildroseddu yn ddilynol |   | 18.4 |
| **Lle cysylltiedig lle mae pobl yn gofalu** | | |
| Canran plant a gefnogir i barhau i fyw gyda'u teulu (heb gynnwys plant sy'n derbyn gofal) |   | 60.2 |
| Nifer plant a gaiff eu hadsefydlu ar ôl cyfnod o dderbyn gofal |   | 15 |
| Canran pobl sy'n unig[xxxiv] |   | 12 |
| Canran pobl sy'n fodlon gyda'u gallu i gyrraedd/cael mynediad i'r cyfleusterau a gwasanaethau maent eu hangen[xxxv] |   | 86 |
| Canran pobl sy'n fodlon gyda'u hardal fel lle i fyw[xxxvi] |   | 95 |

| **Mesurau tymor hirach yng Nghynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-2028** | **Tueddiad Sir Fynwy** [3] (tueddiad Cymru mewn coch lle mae ar gael) | **Diweddaraf** |
|---|---|---|
| Disgwyliad oes iach adeg geni (menywod)[xxxvii] |   | 69.3 |
| Disgwyliad oes iach adeg geni (dynion)[xxxviii] |   | 68.7 |
| Disgwyliad oes adeg geni (menywod)[xxxix] |   | 84.6 |
| Disgwyliad oes adeg geni (dynion)[xl] |   | 81.6 |
| Canran pobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon dair neu fwy o weithiau yr wythnos[xli] |   | 43 |
| Canran pobl sy'n mynychu neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol eu dreftadaeth dair gwaith neu fwy y flwyddyn[xlii] |   | 79 |
| Nifer gofalwyr a gofalwyr ifanc a gefnogir gan y tîm gofalwyr |   | 164 |
| Nifer swyddi gwag yn y gweithlu gofal cymdeithasol |   | 23 |
| Lle i ddysgu | | |
| Cyfradd gwaharddiadau cyfnod penodol o lai na 5 diwrnod fesul mil o ddisgyblion (dyddiau) – Disgyblion Cynradd[xliii] |   | 15.3 |
| Cyfradd gwaharddiadau cyfnod penodol o lai na 5 diwrnod fesul mil o ddisgyblion (dyddiau) – Disgyblion Uwchradd |   | 194.6 |
| Cyfradd gwaharddiadau cyfnod penodol o fwy na 5 diwrnod fesul mil o ddisgyblion (dyddiau) – Disgyblion Cynradd |   | 0.3 |
| Cyfradd gwaharddiadau cyfnod penodol o fwy na 5 diwrnod fesul mil o ddisgyblion (dyddiau) – Disgyblion Uwchradd |   | 5.2 |


| Mesurau tymor hirach yng Nghynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-2028 | Tueddiad Sir Fynwy [3] (tueddiad Cymru mewn coch lle mae ar gael) | Diweddaraf |
|---|---|---|
| Canran oedolion gyda chymwysterau ar Lefel 4 ac uwch o'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol |   | 52.6 |

Mae defnydd dulliau tebyg i raglen Mesur Llesiant Cenedlaethol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (diagram 7 yn yr adran Yr Hyn a Ddywedodd Dinasyddion isod) yn ffyrdd yr ydym yn ceisio ehangu ein dealltwriaeth o lesiant yn Sir Fynwy, yn ogystal â mesur perfformiad gwasanaethau penodol.

# Yr hyn y gwnaethom ei wario yn 2023/24


Yn 2023/24 roedd y gwariant a gynlluniodd y cyngor ei wario yn £168 miliwn i ddarparu gwasanaethau ar gyfer preswylwyr Sir Fynwy.


Caiff y gyfran o'n gwariant ar wahanol wasanaethau yn 2023/24 ei ddangos yn y diagram. Telir am y gwasanaethau hyn drwy gyfuniad o grantiau'r llywodraeth ganolog, treth gyngor, ardrethi annomestig a chyfraniad o Gronfa y cyngor .






**Sut mae ein gwariant refeniw ym cymharu gydag ardaloedd eraill**

Dengys y graffiau isod faint a wariwn fesul pen o boblogaeth ar rai o'n meysydd blaenoriaeth. Yn 2022/23, ni oedd â'r gwariant refeniw crynswth isaf fesul pen o blith pob cyngor yng Nghymru a gwnaethom wario llai fesul pen ar wasanaethau addysg. Fodd bynnag, yr ydym wedi cynyddu ar ein gwariant gwasanaethau cymdeithasol fesul pen i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru ac yn parhau i wario mwy na'r cyfartalog ar gynllunio a datblygu economaidd. Rydym wedi parhau i weithio'n galed i wneud yn siŵr fod yr arian hwn yn mynd lle mae'n cyfri. Ar gyfer 2023/24 cawsom gynnydd mewn cyllid craidd, fodd bynnag mae ein setliad cyllideb gan Lywodraeth Cymru yn parhau i fod yr isaf fesul pen o boblogaeth ar gyfer cynghorau yng Nghymru.



## Yr hyn a ddywedodd dinasyddion

Mae ymgyfraniad a chydweithio gyda phreswylwyr a chymunedau yn Sir Fynwy yn hanfodol i ddatblygu a darparu datrysiadau i sicrhau deilliannau a sicrhau fod preswylwyr yn ymwneud â'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Drwy ein hunanasesiad yr ydym wedi defnyddio barn defnyddwyr gwasanaeth a phreswylwyr i lywio ein hasesiad. Mae peth o'r gwaith ymgysylltu penodol a wnaethom i gynnwys preswylwyr eleni yn cynnwys:

**Ymgysylltu ar y gyllideb**: Lansiodd Cyngor Sir Fynwy ei ddrafft gynigion ar y gyllideb ar gyfer 2024-2025 ym mis Ionawr 2024. Gwahoddwyd cymunedau i roi eu barn ar y newidiadau posibl hyn mewn proses ymgynghori agored. Rhannwyd amrywiaeth o wybodaeth ar y cynigion a'u heffeithiau posibl. Cynhaliwyd digwyddiadau wyneb i wyneb i ymgynghori ar y gyllideb, yn ogystal â sesiynau cyllideb ar-lein. Ar gyfer y rhai a fethodd ymuno â'r ffrwd byw, cafodd y sesiwn ei lanlwytho ar y wefan i'w gweld ar ôl y gyllideb. Fel rhan o'r broses ymgynghori, gofynnwyd i breswylwyr hefyd rannu eu sylwadau drwy arolwg adborth ar gynigion y gyllideb, a gafodd eu rhannu ar draws ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.




**Cynigion Adfywio:** Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda chynghorau tref a rhanddeiliaid allweddol eraill i yrru a goruchwylio datblygu cynlluniau creu lle yn Nhrefynwy, y Fenni a Magwyr gyda Gwndy, a phrif gynllun Trawsnewid Cas-gwent. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgynghori i lywio'r cynlluniau hyn yn cynnwys cyfleoedd ymgysylltu wyneb i wyneb, cynhaliwyd arddangosfeydd yn yr ardal leol ar gynlluniau a rhoddwyd dyluniadau ac arolygon. Cynhaliwyd trafodaethau dechreuol gyda rhanddeiliaid lleol am gynllun creu lle newydd ar gyfer Cil-y-coed. Rydym wedi gwahodd datganiadau diddordeb gan fusnesau cymwys yng nghanol trefi Sir Fynwy ar gyfer grant Gwella Eiddo Canol Trefi Sir Fynwy. Caiff hyn ei ariannu drwy Grant Creu Lleoedd Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Fynwy. Mae'r grant yn rhoi cymorth ariannol ar gyfer gwelliannau i eiddo yng nghanol trefi dynodedig y Fenni, Cil-y-coed, Cas-gwent a Threfynwy.

**Darpariaeth Addysg**: Sylweddolwn bwysigrwydd cynnwys preswylwyr a phartneriaid mewn trafodaethau am ddarparaeth addysg ar gyfer ein pobl ifanc. Fe wnaethom ymgysylltu gyda phreswylwyr fel rhan o'n hadolygiad o ddalgylchoedd ysgolion cynradd sydd wedi galluogi mwy o'n plant a'n pobl ifanc i fynychu ysgol o fewn y sir. Fe wnaethom hefyd ymgysylltu gyda phreswylwyr fel rhan o'n cynigion i symud Ysgol y Fenni i safle Deri View fydd yn dyblu capasiti yr ysgol; roedd bron 90% o'r ymatebwyr o blaid y cynnig. Cymerodd 145 o unigolion ran yn ein hymgynghoriad i sefydlu ysgol gynradd Gymraeg newydd yn Nhrefynwy. Roedd hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc, athrawon, llywodraethwyr, rhieni a sefydliadau partner.

**Sir Fynwy Oed-gyfeillgar:** Rydym wedi ymrwymo i weithio tuag at i Sir Fynwy ddod yn sir oed-gyfeillar ac ymuno â rhwydwaith byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd o Gymunedau Oed-gyfeillgar. Gwahoddwyd pob preswylydd 50 oed neu drosodd i gymryd rhan mewn arolwg, gan rannu eu profiadau a'u sylwadau ar

fywyd bob dydd yn Sir Fynwy a chynhaliwyd sesiynau mewn hybiau cymunedol ar draws y sir i drafod profiad preswylwyr. Fe wnaethom ymgysylltu gyda dros 1,200 o bobl. Bydd llais ein preswylwyr hŷn yn ganolog i ymdrechion i greu sir oed-gyfeillgar. Byddwn yn gweithio gyda busnesau lleol, cyrff trydydd sector, partneriaid statudol a'r gymuned ehangach i feithrin heneiddio iach ac egnïol, gan wneud Sir Fynwy yn fwy deniadol i bobl o bob oed, bydded yn breswylwyr neu'n ymwelwyr.

**Strategaeth Trafnidiaeth Leol:** Mae sicrhau bod preswylwyr a rhanddeiliaid yn cymryd rhan wrth ddatblygu strategaethau fydd yn effeithio arnynt yn bwysig tu hwnt. Fe wnaethom gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer ein drafft Strategaeth Trafnidiaeth Leol rhwng mis Tachwedd 2023 a mis Ionawr 2024 i alluogi preswylwyr a rhanddeiliaid i roi adborth ar y weledigaeth, amcanion a fframwaith strategol a gynigiwyd ar gyfer datblygu rhwydwaith trafnidiaeth Sir Fynwy yn y dyfodol. Cafwyd 336 ymateb i'r ymgynghoriad, a chanfuwyd yn y rhan fwyaf o achosion fod mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno gyda'r uchelgais polisi a nodir yn y ddrafft strategaeth. Mae anghenion ein cymunedau yn hollol ganolog i'n Strategaeth Trafnidiaeth Leol a bydd yn gyrru'r uchelgais tuag at symud ymlaen.

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol:** Mae gwneud Sir Fynwy yn lle tecach i fyw yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer y sefydliad ac mae'n ganolog i bopeth a wnawn. Drwy gydol y flwyddyn fe wnaethom ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n nodi'r saith amcan allweddol y byddwn yn canolbwyntio arnynt i sicrhau fod ein sir yn lle teg i bawb fyw. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y ddrafft strategaeth yn ystod Ionawr a Chwefror 2024. Yn ogystal ag arolwg gwefan, anfonwyd yr ymgynghoriad at grwpiau lleol gyd
ag aelodau â nodweddion gwarchodedig a ddiffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion a gafwyd yn gefnogol i'r amcanion a'r camau gweithredu a gynigiwyd.


**Cwynion a Chanmoliaeth gan Gwsmeriaid:** Rydym yn monitro ac yn dysgu o adborth a gawn gan gwsmeriaid. Caiff y rhain eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r materion a godwyd yn cynnwys faint o amser y maent yn ei gymryd i ymateb i bobl. Yn ogystal â bod yn bwysig i ddelio gyda chwynion mewn modd effeithiol, gan ymchwilio ac unioni pethau ar gyfer yr achwynydd lle mae angen, mae hefyd yn hanfodol i ddysgu ganddynt i leihau'r cyfle y bydd yr un broblem yn digwydd ddwywaith. Cafodd deuddeg cwyn eu hatgyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn 2022-23, y flwyddyn olaf y mae data ar gael ar ei chyfer, gostyngiad o ugain yn ystod 2021-22. Mae gan Sir Fynwy un o'r lefelau isaf o gwynion a adroddir i'r Ombwdsmon ar 0.25 fesul 1,000 o breswylwyr. Mae hyn yn amrywio o 0.17 i 0.49 gyda chyfartaledd o 0.33.


**Mesur llesiant unigolion**


Mae rhaglen Mesur Llesiant Cenedlaethol yr Ystadegau Gwladol hefyd yn asesu llesiant personol fel rhan o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol. Mae'r arolwg yn gofyn y cwestiynau:


- **Boddhad Bywyd** - ar y cyfan, pa mor fodlon ydych chi â'ch bywyd y dyddiau hyn?
- **Gwerth chweil** – yn gyffredinol, i ba raddau ydych chi'n teimlo bod y pethau yr ydych yn eu gwneud yn eich bywyd yn rhai gwerth chweil?
- **Hapusrwydd** – yn gyffredinol, pa mor hapus oeddech chi'n teimlo ddoe?
- **Gor-bryder** – ar raddfa lle mae 0 yn 'ddim yn orbryderus o gwbl' a 10 yn 'gorbryderus iawn', yn gyffredinol, pa mor orbryderus oeddech chi'n teimlo ddoe?

- Caiff y canlyniadau blynyddol llawn ar gyfer Sir Fynwy (o 2022/23) ar gyfer y cwestiynau hyn eu dangos yn y diagram isod wrth ochr cyfartaleddau y DU a Chymru. Dengys hyn fod yr ymatebion gan breswylwyr Sir Fynwy ychydig yn well na’r DU a hefyd Gymru ar gyfer bron bob mesur.




**Ymgysylltu â staff**

Fel rhan o’r broses i lunio’r hunanasesiad, cynhaliwyd gweithdai i gyfarwyddiaethau a gwasanaethau galluogi i roi cyfle i staff fwydo’n uniongyrchol i’r hunan-asesiad trwy ddynodi eu cryfderau eu hunain a meysydd i’w datblygu. Cyflwynwyd pecynnau tystiolaeth i’r rhai ddaeth i’r gweithdai, oedd wedi eu llunio o’r ffynonellau gwybodaeth sy’n bodoli eisoes fel adroddiadau craffu, adborth rheoleiddiwr allanol, a chynlluniau busnes gwasanaethau, ac fe’u hwyluswyd i hunan-asesu eu perfformiad. Casglwyd amrywiaeth o dystiolaeth o’r gweithdai, o ran llwyddiannau a meysydd i’w datblygu yn gysylltiedig â’n nodau strategol a’n swyddogaethau galluogi, ond hefyd ar sut i gryfhau’r broses hunanasesu.

Rydym hefyd wedi defnyddio tystiolaeth a gasglwyd o amrywiaeth o ddigwyddiadau staff a grwpiau. Roedd y rhain yn cynnwys y sesiynau ymgysylltu â staff Cwtch Digidol a sesiynau wyneb yn wyneb ymgysylltu staff, ynghyd â’r sesiwn Holi ac Ateb Arweinwyr Pobl ac ymgysylltu ar ddatblygu ein Strategaeth Pobl. Mae defnyddio rhwydweithiau a chyfathrebu digidol, arolygon a dolenni adborth i uwch reolwyr wedi ymgesteyn cyswllt gyda’r gweithlu.

**Busnesau**

Rydym wedi sefydlu rhwydweithiau ymgysylltu cryfach gyda busnesau yn ein hardal ers dechrau'r pandemig ac yn gweithio i gynnal a gwella'r cysylltiadau hyn. Mae gennym ddealltwriaeth well o'r mathau o fusnesau yn ein hardal. Rydym wedi parhau i ymgysylltu â busnesau drwy ein system newydd ar gyfer

rheoli perthynas gyda chwsmeriaid sy’n gweithredu fel cronfa ddata o fusnesau Sir Fynwy a dull i hyrwyddo’r gwasanaethau cyngor ac arweiniad y gallwn eu darparu i fusnesau cyn-cychwyn a busnesau sy’n bodoli eisoes. Mae ein Swyddog Data Busnes a Chyfathrebu wedi parhau i wella ein cysylltiadau gyda busnesau ac wedi helpu i wella dolenni adborth gyda busnesau i sicrhau ein bod yn manteisio’n llawn ar y sgyrsiau a gynhelir ac y gallwn wella ein gwasanaeth fel canlyniad. Bydd yr adborth hwn yn parhau i lywio ein hunanasesiad.

**Undebau Llafur**

Rydym yn cysylltu'n dda ag Undebau Llafur i gyflawni ein canlyniadau. Rydym wedi rhoi gwybod iddynt am y broses yr ydym yn ei chynnal i gwblhau ein hunanasesiad a byddwn yn rhannu ein canfyddiadau gyda nhw fel rhan o’n proses.

## Yr Hyn a Ddywedodd Rheoleiddwyr ac Arolygwyr

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n rheoleiddwyr a'n harolygwyr i sicrhau ansawdd ein gweithgareddau, gan fod hyn yn hanfodol i sicrhau gwelliant. Gwerthfawrogir eu hadborth a defnyddiwn eu hasesiadau i'n helpu i ganolbwyntio ar y pethau y mae angen i ni eu gwella ar draws y cyngor.

Mae Archwilio Cymru yn cyhoeddi Cynllun Archwilio bob blwyddyn sy'n nodi'r gwaith y maent yn cynllunio ei wneud yn y cyngor. Fel rhan o'r cynllun, maent wadi cynnal ystod o archwiliadau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Edrych ar Osod Amcanion Llesiant: Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod y cyngor wedi gosod ei amcanion ar gyfer llesiant yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy ac yn alinio ei strategaethau a chynlluniau busnes allweddol i gefnogi eu cyflenwi, ond y gallai gryfhau ei ddull gweithredu ymhellach drwy gynyddu amrywiaeth ymgyfraniad dinasyddion yn y dyfodol.
- Defnyddio Perfformiad Gwasanaeth, Safbwyntiau Defnyddwyr Gwasanaethau a Deilliannau. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod y cyngor yn darparu peth gwybodaeth perfformiad i alluogi uwch arweinwyr i ddeall safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth, ond mae gwybodaeth ar ddeilliannau yn gyfyngedig gan gyfyngu eu gallu i reoli perfformiad yn effeithlon.
- Rheoli'r Rhaglen Gyfalaf: Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod trefniadau rheoli'r rhaglen gyfalaf yn dangos rhai cryfderau ond yn brin o ffocws ar ddeiliannau ac effaith. Daethpwyd i'r casgliad hwn oherwydd: mae trefniadau cynllunio yn gyffredinol gadarn, ond nid oes gan y rhaglen gyfalaf ddeilliannau clir; ac mae trefniadau monitro â'u ffows ar gyllideb ac amserlenni gydag ystyriaeth gyfyngedig i effaith neu ddysgu.
- Adolygiad o'r Strategaeth Ddigidol: Daw'r adroddiad i'r casgliad nad oes gan y cyngor ddull strategol sydd wedi'i fanylu'n glir ar ddigidol. Mae'r adroddiad yn cydnabod nad oes gan y cyngor strategaeth ddigidol ar hyn o bryd ac y caiff y gwaith cyfredol ar ddigidol ei fanylu o fewn cynlluniau busnes gwasanaethau unigol a pheth gwaith prosiect. Mae hefyd yn cydnabod fod y cyngor yn bwriadu datblygu strategaeth ddigidol newydd i helpu egluro rôl technoleg ddigidol yn y cyngor. Rydym yn awr wedi datblygu strategaeth ddigidol a data ar gyfer 2024-2027.
- Gwaith ar Sicrwydd ac Asesu Risg yn y cyngor yn ystod 2023/24. Roedd ffocws hyn ar gynaliadwyedd, rheoli rhaglen cyfalaf a threfniadau llywodraethu y cyngor.

Rydym wedi datblygu ymatebion i'r argymhellion yn yr adroddiadau hyn a rhoddir adroddiadau rheolaidd i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y Cyngor ar y cynnydd wrth eu cyflawni. Mae adroddiadau a gynhyrchwyd gan Archwilio Cymru ar gael i'w lawrlwytho ar eu gwefan (www.archwilio.cymru/cyhoeddiadau). Mae hyn yn cynnwys adroddiadau cenedlaethol llywodraeth leol.

Cawsom Arolwg gan Estyn ar Wasanaethau Addysg Llywodraeth Leol ym mis Chwefror 2020. Cydnabu'r arolwg y weledigaeth glir a'r ffocws cryf ar sicrhau'r 'dechrau gorau posibl mewn bywyd' a hefyd ddynodi'r ymrwymiad i weithio partneriaeth sydd wedi arwain at hanes da o lwyddiant. Fe wnaeth hefyd ddynodi meysydd i'w datblygu, tebyg i berfformiad plant sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a diffyg eglurdeb yn y ffordd y bydd angen cryfhau gwasanaethau ar gyfer dysgwyr gydag anghenion addysgol arbennig. Cafodd y cynnydd wrth drin y pedwar argymhelliad yn yr adroddiad ei werthuso yn Adroddiad Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc ar gyfer 2023/24, gyda phob un o'r pedwar yn cael eu hasesu fel bod yn gwneud 'cynnydd da'. Gellir gweld yr adroddiad cynnydd yma Adroddiad 2023/24 Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc). Mae adroddiad llawn Estyn, ac adroddiadau eraill Estyn yn gysylltiedig â Sir Fynwy ac ysgolion yn y sir, ar gael www.estyn.llyw.cymru

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru arolwg gwerthuso perfformiad o wasanaethau plant yn y cyngor ym mis Chwefror 2024. Diben yr arolwg hwn oedd adolygu perfformiad yr awdurdod lleol wrth weithredu ei ddyletswyddau a swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn unol â deddfwriaeth ar ran Gweinidogion Cymru. Mae'r canfyddiadau yn cydnabod cryfderau a meysydd ar gyfer eu gwella:

- Mae’r cryfderau a gydnabuwyd yn cynnwys cymorth i deuluoedd a chyfranogiad plant. Soniwyd hefyd am arweinyddiaeth gadarnhaol ac ysbryd da o fewn y gwasanaeth a chadarnhaodd yr arolwg fod gan y gwasanaeth ddealltwriaeth dda o’i gryfderau ac anawsterau cymharol.
- Roedd y meysydd ar gyfer eu gwella a ddyndowyd yn cynnwys effaith cynyddol, sicrhau fod dull seiliedig ar gryfderau yn llywio camau dechreuol y broses ddiogelu plant pan yn briodol, gan sicrhau fod gwaith uniongyrchol gyda phlant yn ffurfio rhan o’r cofnod achos a chryfhau sicrwydd ansawdd.

Rydym yn gweithredu i fynd i’r afael â’r meysydd ar gyfer gwella ac mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn bwriadu monitro cynnydd drwy ymgysylltu rheolaidd gyda’r gwasanaeth.

Mae adroddiad llawn yr arolwg ac adroddiadau arolygon eraill am wasanaethau cymdeithasol Sir Fynwy gan Arolygiaeth Gofal Cymru ar gael ar www.arolygiaethgofal.cymru

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

Mae gan y gyngor ymrwymiad hirsefydlog i gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae ein pedwerydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol, a gynhyrchwyd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn nodi amcanion y cyngor i sicrhau ein bod yn sicrhau gwell deilliannau ar gyfer pobl gyda nodweddion gwarchodedig. Mae hyn yn amlwg yn gydnaws gyda’r dystiolaeth a roddwyd gan yr Asesiad Llesiant a’r dystiolaeth a ddarparwyd gan adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol “A yw Cymru’n Decach 2023”.

Yn ogystal â hyn, mae’n bwysig i ni gan mai dyma’r peth iawn i’w wneud. Rydym yn cynhyrchu adroddiadau monitro blynyddol sy’n rhoi diweddariad ar gynnydd ar y cynllun gweithredu yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac yn rhoi tystiolaeth o arfer da yn adrannau’r cyngor. Mae hyn ar gael yma.

**Y Gymraeg**

Mae’r Gymraeg yn ganolog i’r nodau a gyflwynwyd fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn arbennig am ein cyfraniad i Gymru gyda diwylliant bywiog a lle mae’r Gymraeg yn ffynnu. Mae hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig i nod Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau’r Gymraeg sy’n gysylltiedig â’r Mesur yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar gynghorau i drin y Gymraeg a’r Saesneg yn gyfartal, i hyrwyddo’r Gymraeg ac i ddarparu gwasanaethau i’r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 176 safon sy’n gymwys i’r cyng

or. Mae hyn yn her sylweddol, ond rhoddwyd systemau ar waith i gydymffurfio. Mae gennym Strategaeth Iaith Gymraeg ar gyfer 2022-2027, sy’n dynodi gweledigaeth o sut y bydd yr iaith yn edrych yn Sir Fynwy mewn pum mlynedd ac sy’n cynnwys targedau i helpu cyflawni hynny. Mae ein adroddiad monitro blynyddol 2023/24 yn adlewyrchu ar ein cynnydd ar yr ymrwymiadau yn ymwneud â’r Gymraeg dan Fesur yr Iaith Gymraeg ((Cymru) 2011 a Safonau’r Gymraeg. Medrir gweld yr adroddiad yma.

# Atodiad 1 –Proses Hunanasesiad

**Deddfwriaeth**

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("y Ddeddf") yn darparu ar gyfer fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, democratiaeth, llywodraethu a pherfformiad. Mae'r Ddeddf yn disodli'r ddyletswydd gwella flaenorol ar gyfer cynghorau a nodir yn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor yng Nghymru barhau i adolygu i ba raddau y mae'n bodloni'r 'gofynion perfformiad', hynny yw i ba raddau y mae'n arfer ei swyddogaethau'n effeithiol; ei fod yn defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol; a bod ei lywodraethu yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r rhain.

Mae'r darpariaethau perfformiad a llywodraethu yn y Ddeddf wedi'u fframio yng nghyd-destun y ddyletswydd lles yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n nodi diben cyffredin cyfreithiol rwymol ar gyfer cyrff cyhoeddus i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Hunanasesiad yw'r dull i gyngor barhau â'i berfformiad yn cael ei adolygu, gyda dyletswydd i gyhoeddi adroddiad yn nodi casgliadau'r hunanasesiad unwaith mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol. Bydd hunanasesiad yn cael ei ategu gan asesiad perfformiad panel unwaith mewn cylch etholiadol, gan roi cyfle i chwilio am ddealltwriaeth allanol (ac eithrio gan archwilwyr, rheoleiddwyr neu arolygwyr) ar sut mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad.

**Pam?**

Mae hunanasesiad yn ffordd o werthuso, yn feirniadol ac yn onest, y sefyllfa bresennol er mwyn gwneud penderfyniadau ar sut i sicrhau gwelliant i'r dyfodol. Mae'n ymwneud â'r cyngor i ddod yn hunanymwybodol, yn deall a yw'n cyflawni'r canlyniadau cywir, ac yn herio'i hun i wella'n barhaus. Mae angen iddo gael ei wreiddio, gan fod hunanasesiad effeithlon yn helpu'r cyngor i ddysgu a sicrhau gwelliant cynaliadwy yn barhaus, a gwell canlyniadau i ddinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth a'i weithlu ei hun.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi nodi egwyddorion drafft ar gyfer hunanasesiad i gynghorau er mwyn sicrhau bod ganddynt drefniadau mewn lle:

- sy'n dangos hunan ymwybyddiaeth sy'n deillio o ddadansoddiad, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau;
- sy'n cael eu perchnogi a'u harwain ar lefel strategol ac nad ydynt yn ymarfer cydymffurfio;
- sy'n datblygu ymhellach ddiwylliant o her er mwyn hwyluso gwelliant fel rhan o broses barhaus;
- sydd wedi'u hintegreiddio fel rhan o brosesau cynllunio, perfformiad a llywodraethu corfforaethol y cyngor; ac
- sy'n galluogi asesiad ledled y sefydliad yn hytrach nag asesiad o wasanaethau unigol.

Bydd datblygu'r diwylliant hwn ymhellach a sefydlu ffordd o feddwl gwerthusol yn bwynt datblygu allweddol trwy ychydig o fersiynau cyntaf yr adroddiad hunan-asesu.


**Proses**

Mae'r cyngor wedi datblygu proses i ymgymryd â'i drydydd hunanasesiad o dan y Ddeddf, gan asesu perfformiad ym mlwyddyn ariannol 2023/24. Prif elfennau'r broses a'r amserlen yw:

| **Ebrill - Mai** | **Mai - Mehefin** | **Mehefin - Gorffennaf** | **Gorffennaf - Medi** | **Medi** |
|---|---|---|---|---|
| Casglu tystiolaeth ar ddesg | Gweithdai hunanasesiad cyfarwyddiaethau | Drafftio adroddiad hunanasesiad y Cyngor | Drafft adroddiad i'r Pwyllgor Craffu a Llywodraethu ac Archwilio. | Hunanasesiad yn cael ei gytuno yn unol â phroses y cyngor. |

Mae'r amserlen hon yn sicrhau y gall yr hunanasesiad lywio a chael ei lywio gan gyfeiriad polisi'r cyngor a sut mae'n defnyddio ei adnoddau'n effeithlon ac yn effeithiol, yn enwedig y broses o bennu'r gyllideb.

Mae tystiolaeth werthusol i lywio'r asesiad wedi'i lunio ar lefel cyfarwyddiaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth wedi cael ei choladu drwy ddefnyddio gwybodaeth sydd eisoes yn cael ei dal yn gorfforaethol mewn ffordd graff; mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, adroddiadau archwilio ac arolygu, a chynlluniau busnes ar lefel gwasanaeth.




Mae'r dystiolaeth a gasglwyd wedi cael ei harchwilio ymhellach, a'i herio lle bo angen, mewn gweithdai hunanasesiad cyfarwyddiaethau ac ar sail swyddogaeth galluogi, i benderfynu a yw amcanion (deilliannau) y cyngor yn cael eu cyflawni.

**Gweithdai hunanasesiad**

| **Gweithdai Cyfarwyddiaethau** | **Gweithdai swyddogaethau galluogi** |
|---|---|
| Plant a Phobl Ifanc | Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau – Perfformiad, Data, Craffu a Chynllunio Gweithlu |
| Gofal Cymdeithasol ac Iechyd | Adnoddau – Cynllunio Ariannol, Asedau a Digidol |
| Cymunedau a Lle | |
| MonLife | |

Hwyluswyd y gweithdai trwy’r cwestiynau canlynol:

- Pa mor dda ydyn ni yn cyflawni’r deilliannau yr ydym wedi cytuno arnynt? (Amcanion y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol)
- Sut ydyn ni’n gwybod? (Tystiolaeth)
- Pa mor effeithiol y mae adnoddau’n cael eu defnyddio i gyflawni ein blaenoriaethau? (Galluogwyr)
- Pa mor effeithiol yw’r cyngor wrth weithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid ar y deilliannau y cytunwyd arnynt? (Gweithio mewn partneriaeth)
- Beth allem ni ei wneud yn well? (Camau gweithredu – gan gynnwys adolygiad o gamau gweithredu o’r adroddiad blaenorol)

Mae’r dystiolaeth lawn a’r casgliadau o’r gweithdai wedi cael eu casglu a byddant yn cael eu defnyddio gan gyfarwyddiaethau a swyddogaethau galluogi i fod yn sail i’w cynlluniau busnes gwasanaethau.

Yn dilyn y gweithdai, mae'r dystiolaeth wedi'i hadolygu, ei herio ymhellach, a'i choladu i hunanasesiad gwerthusol ar lefel gorfforaethol. Cafodd hyn ei integreiddio â’r gofyn i’r cyngor roi adroddiad ei gynnydd o ran cyflawni ei amcanion llesiant ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol (2023/24) dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.

Mae’r adroddiad wedi ei strwythuro dan y penawdau hyn:

- Deall ein lle lleol
- Deilliannau (cynnydd o ran y meysydd i’w datblygu):
    - Pa mor dda ydyn ni yn cyflawni’r deilliannau yr ydym wedi cytuno arnynt?
    - Sut ydyn ni yn gwybod?
    - Meysydd i’w datblygu
- Swyddogaethau galluogi
    - Cynllunio corfforaethol, perfformiad a rheoli risg
    - Cynllunio ariannol
    - Cynllunio gweithlu
    - Caffael
    - Asedau
    - Digidol a Data
    - Democratiaeth a Chraffu
- Ein gwaith gyda phartneriaid
- Ein Camau Gweithredu (gan gynnwys cynnydd mewn cymhariaeth â chamau gweithredu blaenorol)

Bydd Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg y cyngor yn craffu ar adroddiad yr hunanwerthusiad. Bydd drafft o’r adroddiad hunanasesiad ar gael i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i adolygu’r drafft adroddiad yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth. Bydd yr hunanasesiad yn cael ei gyflwyno i’w gymeradwyo mewn cyfarfod o’r Cyngor llawn.

[i]Mae hyn yn mesur nifer y digyblion ysgol cynradd sy'n derbyn prydau ysgol am ddim i bawb mewn ysgolion cynradd yn hytrach na nifer y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim
[ii] Mae GemauMynwy yn rhaglen gweithgareddau sgiliau a chwaraeon, a gaiff ei chynnal yn y gwyliau ysgol fel arfer, wedi'i hanelu at blant rhwng 5-11
[iii] Caiff hyn ei ariannu drwy grant allanol felly mae risg y gallai'r model newid neu ddod i ben
[iv] Mae Chwarae Egnïol yn rhaglen dwy awr a gynlluniwyd ar gyfer plant rhwng 5-11 oed lle gallant gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau corfforol a hefyd gelf a chrefft
[v] Arolwg Cenedlaethol Cymru - https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru
[vi] Mae Gwneud eich Marc: Balot Lleol Sir Fynwy yn ymgynghoriad blynyddol ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed. Gweler https://www.monlife.co.uk/connect/youth-service/make-your-mark/make-your-mark-monmouthshire/ i gael mwy o fanylion
[vii] Arolwg Cenedlaethol Cymru - https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru
[viii] Mae Disability Confident yn gynllun gan Lywodraeth y DU i annog cyflogwyr i recriwtio a chadw pobl anabl a rhai gyda chyflyrau iechyd.
[ix] Wedi'i fesur gan Arolwg Blynyddol Poblogaeth Cymru. Er na ystyrir fod hyn mor fanwl gywir â'r Cyfrifiad, mae ganddo'r budd o gael ei ddiweddaru'n fwy aml gan alluogi'r awdurdod i olrhain cynnydd.
[x] Mae hyn yn cynnwys allyriadau o weithrediadau'r cyngor a hefyd gwaith ar y tir a gwaith cadwyni cyflenwi
[xi] Faint o wastraff bwrdeisiol neu 'bob dydd' sydd i gael ei ailgylchu,ailddefnyddio neu gompostio fel canran o'r cyfanswm gwastraff a gynhyrchir. Cyfraddau ailddefnyddio/ailgylchu/compostio blynyddol yn ôl awdurdod lleol (llyw.cymru)
[xii] Mesurir yn defnyddio STEAM sy'n broses modelu effaith economaidd twristiaeth
[xiii] Canran ymadawyr ysgol sydd yn NEET. Cyrchfannau disgyblion| Gyrfa Cymru (llyw.cymru)
[xiv] Mae teithio llesol yn golygu mynd o amgylch mewn ffordd sy'n eich gwneud yn gorfforol actif, tebyg i gerdded neu seiclo. Fel arfer mae'n golygu teithiau byr, tebyg i gerdded i'r siop neu'r ysgol neu seiclo i'r gwaith
[xv] Holiadur Defnyddwyr Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion
[xvi]Mae'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff yn ymyriad iechyd seiliedig ar dystiolaeth sy'n cynnwys newid corfforol ac ymddygiad i gefnogi cleientiaid i newid eu ffordd o fyw i wella iechyd a llesiant
[xvii] Holiadur Defnyddwyr Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion
[xviii] Mae incwm cymharol yn cyfeirio at bobl sy'n byw gydag aelwydydd sydd ag incwm dan 60% o'r canolrif yn y flwyddyn honno
[xix] Mae amddifadedd materol yn fesur o safonau byw. Ystyrir fod unigolyn mewn amddifadedd materol os yw'n methu cael mynediad i nifer neilltuol o nwyddau a gwasanaethau. Mae mwy o wybodaeth ar gael yma: Amddifadedd materol ac incwm isel | LLYW.CYMRU
[xx] Gwastraff aelwyd gweddilliol blynyddol a gynhyrchir fesul person (kilogram) yn ôl awdurdod lleol (llyw.cymru)
[xxi] Dangosyddion Ansawdd Aer yn ôl Awdurdod Lleol (llyw.cymru)
[xxii] Mae'n mesur nifer cyfunol mewn risg o afonydd, llanw a dŵr wyneb. Ffynhonnell: https://statscymru.llyw.cymru/Catalog/AmgylcheddaChefnGwlad/ Llifogydd Risg Uchel: Mwy na neu chyfartal â siawns 1 mewn 30 (3.3%) mewn unrhyw flwyddyn benodol. Mae'r data yn y llinell sylfaen ar gyfer 2019.
Risg Canolig: Llai na 1 mewn 30 (3.3%) ond mwy na neu gyfartal â siawns 1 mewn 100 (1%) mewn unrhyw flwyddyn benodol ar gyfer llifogydd afonydd neu ddŵr wyneb a llai na 1 mewn 30 (3.3 y cant) ond mwy na neu gyfartal â 1 mewn 200 (0.5 y cant) ar gyfer y môr,
Risg Isel: Llai na siawns 1 mewn 100 (1%) ar gyfer llifogydd afonydd a dŵr wyneb a 1 mewn 200 (0.5 y cant) ar gyfer y môr ond mwy na neu gyfartal i 1 mewn 1,000 (0.1%) mewn unrhyw flwyddyn benodol.
[xxiii] Compliance Assessment of Welsh River SACs against Phosphorus Targets Report No: 489. https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/water-reports/compliance-assessment-of-welsh-river-sacs-against-phosphorus-targets/?lang=en
[xxiv] https://www.monmouthshire.gov.uk/cy/polisi-cynllunio-2/monitro-blynyddol/retail/
[xxv] https://www.monmouthshire.gov.uk/cy/polisi-cynllunio-2/monitro-blynyddol/retail/
[xxvi] Mesur y nifer sy'n cyrraedd a gadael. Ffynhonnell: https://dataportal.orr.gov.uk/statistics/usage/estimates-of-station-usage
[xxvii]
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1144656/tra8902.ods

[xxviii] Incwm Gwario Gros Aelwydydd yw'r swm o arian sydd gan unigolion neu aelwydydd i'w wario neu ei gynilo. Incwm Gwario Gros Aelwydydd yn ôl ardal a mesur (llyw.cymru)
[xxix] House price to workplace-based earnings ratio - Office for National Statistics (ons.gov.uk)
[xxx] Yn cynnwys allyriadau tiriogaethol o garbon deuocsid (CO2), methan (CH4) ac ocsid nitrig (n2). Ffynhonnell:: https://www.gov.uk/government/statistics/uk-local-authority-and-regional-greenhouse-gas-emissions-national-statistics-2005-to-2020
[xxxi] Ffynhonnell: Heddlu Gwent
[xxxii] Arolwg Cenedlaethol Cymru - https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru
[xxxiii] Energy efficiency of Housing, England and Wales, local authority districts - Office for National Statistics (ons.gov.uk)
[xxxiv] Arolwg Cenedlaethol Cymru - https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru
[xxxv] Canran pobl sy'n fodlon gyda'u gallu i gyrraedd/cael mynediad i gyfleusterau a'r gwasanaeth maent ei angen (llyw.cymru)
[xxxvi] Arolwg Cenedlaethol Cymru - https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru
[xxxvii] Disgwyliad Oes Iach yw nifer y blynyddoedd mewn iechyd da a hunanaseswyd.
[xxxviii] Disgwyliad Oes Iach yw nifer y blynyddoedd mewn iechyd da a hunanaseswyd.
[xxxix] Ffynhonnell: https://www.infobasecymru.net/IAS/themes/healthandsocialcare/generalhealth/tabular?viewId=47&geoId=1&subsetId=
[xl] https://www.infobasecymru.net/IAS/themes/healthandsocialcare/generalhealth/tabular?viewId=47&geoId=1&subsetId=
[xli] Arolwg Cenedlaethol Cymru - https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru
[xlii] Arolwg Cenedlaethol Cymru - https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru
[xliii] Caiff gwaharddiadau eu rhannu yn ôl hyd/math gwaharddiad, i 3 categori: 1) Gwaharddiadau cyfnod penodol: 5 diwrnod neu lai; ii) Gwaharddiadau tymor penodol: dros 5 diwrnod iii) Gwaharddiadau parhaol. Caiff y rhain eu mesur ar gyfer pob disgybl a'r rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae manylion pellach ar gael yn: https://www.gov.wales/sites/default/files/pdf-versions/2022/10/4/1666254621/permanent-and-fixed-term-exclusions-schools-september-2020-august-2021.pdf